



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 6 Tachwedd 2012  
Tuesday, 6 November 2012**

**Cynnwys  
Contents**

- |     |   |
|-----|---|
| 3   | Cwestiynau i'r Prif Weinidog<br>Questions to the First Minister   |
| 19  | Cwestiwn Brys: Ymchwiliad Newydd i Gam-drin Plant<br>Urgent Question: A New Inquiry into Child Abuse  |
| 34  | Datganiad a Chyhoeddiad Busnes<br>Business Statement and Announcement   |
| 40  | Datganiad: Ad-Drefnu Addysg Uwch<br>Statement: Higher Education Reconfiguration   |
| 51  | Datganiad: Ymateb i Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol<br>Powys<br>Statement: Response to the Report of the Powys Local Growth Zones Task and Finish<br>Group  |
| 68  | Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Bathodynnau Parcio Personau Anabl<br>Legislative Consent Motion on the Disabled Persons' Parking Badges Bill   |
| 72  | Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio sy'n<br>ymwneud â'r Banc Buddsoddi Gwyrdd<br>Legislative Consent Motion on the Enterprise and Regulatory Reform Bill relating to<br>the Green Investment Bank |
| 75  | Ymgynghoriad ar Bolisi Adfywio yn y Dyfodol<br>Consultation on Future Regeneration Policy   |
| 91  | Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<br>The Equality and Human Rights Commission Annual Report   |
| 108 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time   |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were  
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## **Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

### **Diweithdra**

**1. Alun Ffred Jones:** *A wnaiiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddiweithdra ymysg pobl ifanc yng Nghymru. OAQ(4)0739(FM)*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae ymddrin â'r her hon yn un o brif flaenoriaethau ein rhaglen lywodraethu. O ganlyniad, rydym wedi darparu rhaglenni cyflogadwyedd allweddol, wedi sefydlu Twf Swyddi Cymru ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed, ac wedi cymryd camau i ymestyn prentisiaethau.

**Alun Ffred Jones:** Mae llawer o'r cynlluniau hynny sy'n ceisio mynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc, a diffyg sgiliau ymhlith pobl ifanc, yn dibynnu ar arian o gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'ch cyd-Aelodau Seneddol Llafur o Gymru, ynghyd â 50 o Doriaid asgell dde, wedi pleidleisio i ostwng cyllideb yr Undeb Ewropeaidd. A ydych chi hefyd yn credu y dylid gostwng cyllideb yr Undeb Ewropeaidd?

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn credu y dylai'r gyllideb gael ei sefydlu ar lefel sydd o fudd i bobl Cymru. Ni fyddem, fel Llywodraeth, o blaid torri'r gyllideb sydd ar gael i gronfeydd sy'n helpu pobl Cymru.

**Angela Burns:** I know that you will agree that apprenticeships are an incredibly useful way of helping young people into work. Some of the apprenticeships that people are offered involve them having to live away from home or undertake extensive travel, which is very costly. A number of my constituents have not been able to take up their apprenticeships because they and their

### **Unemployment**

**1. Alun Ffred Jones:** *Will the First Minister make a statement on unemployment among young people in Wales. OAQ(4)0739(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** Addressing this challenge is a key priority of our programme for government. As such, we have provided key employability programmes, established Jobs Growth Wales for young people aged 16 to 24, and introduced measures to extend apprenticeships.

**Alun Ffred Jones:** Many of the programmes that aim to tackle youth unemployment, and the lack of skills among young people, depend upon European Union structural funds. Your Labour MP colleagues from Wales, along with 50 right-wing Tories, voted to cut the European Union's budget. Do you agree that the European Union's budget should be cut?

**The First Minister:** We believe that the budget should be set at a level that benefits the people of Wales. As a Government, we would not be in favour of cutting the budget available for funds that help the people of Wales.

**Angela Burns:** Gwn y byddwch yn cytuno bod prentisiaethau yn ffordd hynod o ddefnyddiol o helpu pobl ifanc i gael gwaith. Mae rhai o'r prentisiaethau a gynigir i bobl yn golygu eu bod yn gorfod byw oddi cartref neu deithio'n helaeth, sy'n ddrud iawn. Mae nifer o fy etholwyr nad ydynt wedi gallu manteisio ar brentisiaethau oherwydd nad oeddent hwy na'u teuluoedd yn gallu fforddio

families simply cannot afford to pay for bed and breakfast lodgings or whatever it may be. I have tried, through various portfolio holders, grants, lottery funding and all sorts of other ways, to find funding for them. I wonder, First Minister, given how important it is to get our young people into work, whether you could look at this on a cross-party basis, through your special delivery unit perhaps, to see what financial support could be offered to young people who need to undertake apprenticeships that are not available locally and are far away from where they live. Otherwise, they simply cannot undertake them and cannot get a job.

**The First Minister:** I can say to the Member that some 1,800 young people have started work through Jobs Growth Wales, and more than 3,500 opportunities have been created in total to date. She raises a specific issue regarding the costs of travel and/or board for young people, and I will write to her with more information along the lines that she has requested.

**Christine Chapman:** First Minister, the situation is very difficult at the moment for our young people and I know that there is a lot of low morale. However, will you join me in congratulating Rhondda Cynon Taf County Borough Council, which has recently launched its new apprenticeship scheme, enrolling 33 young people on full-time paid apprenticeship programmes? What more could be done to encourage other large employers, locally, to do the same?

**The First Minister:** Local authorities have a very important role in ensuring that opportunities exist for young people and I commend Rhondda Cynon Taf for the initiative that it has taken forward, which will be an example to others, both inside and outside the public sector.

**Eluned Parrott:** Long-term youth unemployment is at a 15-year high here in Wales, with one in four 19 to 25-year-olds not in education, employment or training. The Youth Contract seems to be denting the situation in England, where the picture is improving, but the picture is still worsening in Wales. Are you still satisfied with the

talau am lety gwely a brecwast neu beth bynnag y bo. Yr wyf wedi ceisio, trwy ddeiliaid portffolio amrywiol, grantiau, arian y loteri a phob math o ffyrdd eraill, dod o hyd i arian ar eu cyfer. Tybed, Brif Weinidog, o ystyried pa mor bwysig yw hi i gael ein pobl ifanc i mewn i waith, a fydddech chi'n gallu edrych ar hyn ar sail drawsbleidiol, drwy eich uned darpariaeth arbennig efallai, i weld pa gymorth ariannol y gellid ei gynnig i bobl ifanc sydd angen prentisiaethau nad ydynt ar gael yn lleol ac sy'n bell i ffwrdd o'r man lle maent yn byw. Fel arall, ni allant eu derbyn ac ni allant gael swydd.

**Y Prif Weinidog:** Gallaf ddweud wrth yr Aelod bod tua 1,800 o bobl ifanc wedi dechrau gweithio drwy Twf Swyddi Cymru, a bod cyfanswm o dros 3,500 o gyfleoedd wedi eu creu hyd yn hyn. Mae hi'n codi mater penodol ynghylch costau teithio a/neu lety ar gyfer pobl ifanc, a byddaf yn ysgrifennu ati gan roi mwy o'r math o wybodaeth y mae hi'n gofyn amdani.

**Christine Chapman:** Brif Weinidog, mae'r sefyllfa'n anodd iawn ar hyn o bryd i'n pobl ifanc ac rwy'n gwybod bod llawer o ddiffyg ysbryd yn eu mys. Er hynny, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sydd yn ddiweddar wedi lansio ei gynllun prentisiaeth newydd, gan gofrestru 33 o bobl ifanc ar raglenni prentisiaeth llawn-amser â thâl? Beth arall y gellid ei wneud i annog cyflogwyr mawr eraill, yn lleol, i wneud yr un peth?

**Y Prif Weinidog:** Mae gan awdurdodau lleol rôl bwysig iawn wrth sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl ifanc, a chymeradwyaf Rhondda Cynon Taf ar y fenter y mae wedi'i datblygu, a fydd yn esiampl i eraill, y tu mewn a'r tu allan i'r sector cyhoeddus.

**Eluned Parrott:** Mae diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc ar ei lefel uchaf ers 15 mlynedd yma yng Nghymru, gydag un o bob pedwar person 19 i 25 mlwydd oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'n ymddangos bod y Contract Ieuenticid yn helpu'r sefyllfa yn Lloegr, lle mae'r darlun yn gwella, ond mae'r darlun yn dal i

performance of Jobs Growth Wales?

**The First Minister:** I do not believe that the picture is worsening in Wales. You should bear in mind that the Youth Contract that you talk of is, in effect, a copy of Jobs Growth Wales, already in place here. We expect to reach the target of 4,000 places created by March of next year and in the years beyond. It is through schemes such as Jobs Growth Wales that we know that many young people in Wales will be provided with opportunities that they otherwise would not have.

**Mick Antoniw:** The position is obviously very difficult. In my constituency, some 39% of young people in the 16 to 24 age group are out of work. I have had the pleasure of meeting a number of people who are now in work as a result of Jobs Growth Wales employment. However, because of the scale of the problem, what plans does the Welsh Government have to build on the growing success of Jobs Growth Wales?

**The First Minister:** The scheme is scheduled to run through to March 2015. We will be undertaking a robust evaluation of the programme, which will help us to understand the impact of this type of intervention on the employment prospects for this age group.

### Gweithgarwch Economaidd

**2. David Rees:** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella gweithgarwch economaidd yn rhanbarth Bae Abertawe. OAQ(4)0749(FM)*

**The First Minister:** We are doing that by strengthening the conditions for job creation and retention and by investing in infrastructure, skills and innovation.

**David Rees:** Thank you for that answer, First Minister. A fortnight ago, you attended the launch of the Sustainable Product Engineering Centre for Innovative Functional Industrial Coating pilot production project in Baglan, which looks to take research into commercialisation, thus realising economic

waethygu yng Nghymru. A ydych chi'n dal yn fodlon â pherfformiad Twf Swyddi Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn credu bod y darlun yn gwaethygu yng Nghymru. Dylech gadw mewn cof mai copi o Twf Swyddi Cymru sydd eisoes ar waith yma, yw'r Contract Ieuencid y soniwyd amdano mewn gwirionedd. Rydym yn disgwyl cyrraedd y targed o 4,000 o leodd wedi'u creu erbyn mis Mawrth y flwyddyn nesaf ac yn y blynyddoedd y tu draw i hynny. Gwyddom mai drwy gynlluniau fel Twf Swyddi Cymru y bydd llawer o bobl ifanc yng Nghymru yn cael cynnig cyfleoedd na fyddai ar gael fel arall.

**Mick Antoniw:** Mae'r sefyllfa yn amlwg yn hynod anodd. Yn fy etholaeth i, mae tua 39% o bobl ifanc yn yr oedran 16 i 24 allan o waith. Rwyf wedi cael y pleser o gwrrdd â nifer o bobl sydd bellach mewn gwaith o ganlyniad i gyflogaeth drwy Twf Swyddi Cymru. Er hynny, oherwydd maint y broblem, pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i adeiladu ar lwyddiant cynyddol Twf Swyddi Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cynllun wedi'i amserlennu i redeg tan fis Mawrth 2015. Byddwn yn cynnal gwerthusiad cadarn o'r rhaglen, a fydd yn ein helpu i ddeall effaith y math hwn o ymyrraeth ar ragolygon cyflogaeth ar gyfer y grŵp oedran hwn.

### Economic Activity

**2. David Rees:** *What action is the Welsh Government taking to improve economic activity within the Swansea Bay region. OAQ(4)0749(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwneud hynny trwy gryfhau'r amodau ar gyfer creu a chadw swyddi, a thrwy fuddsoddi mewn seilwaith, sgiliau ac arloesedd.

**David Rees:** Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Bythefnos yn ôl, roeddech yn bresennol yn lansiad prosiect cynhyrchu arbrolfol y Ganolfan Beirianeg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol Gweithredol Arloesol ym

opportunities from research and development. Without an enterprise zone in the region, what mechanisms is the Welsh Government proposing to put in place to encourage inward investment, and to ensure support for businesses in the Swansea bay region taking up similar opportunities that may arise from the research and development that will be undertaken at Swansea University's new innovation and science campus?

**The First Minister:** I will give the Member three examples: the academic expertise for business programme, which fosters collaborative links between academic institutions and businesses; the Smart Cymru programme, which provides funding support for small and medium-sized enterprises, as well as non-SME companies, to engage in research and development; and the business innovation programme, which provides specialist support via innovation, intellectual property, manufacturing and design specialists, for companies that are engaged in innovative new product process and service development.

**Suzy Davies:** First Minister, you will be aware of the growing interest in the opportunities that are provided by tidal power—generated in the waters within and beyond Swansea bay—for the economy and for green energy targets. What steps has your Government taken to establish the impact on those opportunities of the crowding of those waters with the likes of Atlantic Array or gas extraction operations and, further, the cumulative effect of all those operations on local tourism?

**The First Minister:** Very little of this issue is devolved. In terms of the sea, our responsibilities lie only up to 1 MW, which is very small; the rest of it lies in the hands of the UK Government. We believe that Wales's resources should be properly in the hands of the people of Wales, and, therefore, we would want to see the devolution of powers to approve offshore wind, tidal and wave developments. We believe that that is

Maglan, sydd â'r nod o gyflwyno ymchwil i fasnacheiddio, a thrwy hynny gwireddu'r cyfleoedd economaidd a geir drwy ymchwil a datblygu. Gan nad oes parth menter yn y rhanbarth, pa fecanweithiau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu rhoi ar waith i annog mewnfuddsoddi, ac i sicrhau cefnogaeth i fusnesau yn rhanbarth Bae Abertawe i fanteisio ar gyfleoedd tebyg a allai godi o'r ymchwil a datblygu a fydd yn cael ei wneud ar gampws arloesedd a gwyddoniaeth newydd Prifysgol Abertawe?

**Y Prif Weinidog:** Rhoddaf dair enghraifft i'r Aelod: yr arbenigedd academiaidd ar gyfer rhaglen fusnes sy'n meithrin cysylltiadau cydweithredol rhwng sefydliadau academiaidd a busnesau; rhaglen SmartWales, sy'n darparu cymorth ariannol ar gyfer mentrau bach a chanolig eu maint, yn ogystal â chwmnïau nad ydynt yn Fusnesau Bach a Chanolig, i gymryd rhan mewn ymchwil a datblygu; a'r rhaglen arloesi ar gyfer busnes, sy'n darparu cefnogaeth arbenigol drwy arloesedd, eiddo deallusol, arbenigwyr gweithgynhyrchu a dylunio, ar gyfer cwmnïau sy'n ymwneud â phroses cynnyrch newydd arloesol a datblygu gwasanaethau.

**Suzy Davies:** Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r diddordeb cynyddol yn y cyfleoedd a ddarperir gan ynni'r llanw—a gynhyrchir yn y dyfroedd o fewn a thu hwnt i fae Abertawe—ar gyfer yr economi ac ar gyfer targedau ynni gwyrdd. Pa gamau y mae eich Llywodraeth wedi'u cymryd i ganfod yr effaith ar y cyfleoedd hynny oherwydd gorlenwi'r dyfroedd dan sylw gyda phethau fel Atlantic Array neu weithrediadau echdynnu nwy ac, ymhellach, effaith gronnyd yr holl weithrediadau hynny ar dwristiaeth yn lleol?

**Y Prif Weinidog:** Ychydig iawn o'r mater hwn sydd wedi'i ddatganoli. O ran y môr, mae ein cyfrifoldebau yn ymestyn hyd at 1 MW yn unig, sy'n fach iawn; mae'r gweddill yn gorwedd yn nwylo Llywodraeth y DU. Rydym ni'n credu y dylai adnoddau Cymru fod yn nwylo pobl Cymru, ac, felly, byddem yn dymuno gweld datganoli pwerau i gymeradwyo datblygiadau gwynt ar y môr, llanw a thonau. Rydym yn credu mai dyna'r

the proper way forward for the people of Wales, in order to maximise the economic benefit for Wales.

**Peter Black:** First Minister, in a letter that was dated 15 October to Assembly Members, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science referred to the change of policy in 2008 to remove capital receipts that had been put aside for SA1 in Swansea, and to spend them on a Wales-wide basis instead. In her letter, she said that that decision was taken by senior management within the then Department for the Economy and Transport. It appears from that letter that no Minister was involved in that decision whatsoever. Is it normal practice for Ministers not to be involved in decisions of that magnitude, which would have such an impact on Swansea? Furthermore, is it your Government's policy now not to put resources into SA1, as was previously determined by the Welsh Development Agency in 2003?

**The First Minister:** No. Major decisions are taken by Ministers—that was always the case, even in the days of the WDA, which did not have those kinds of executive powers either. I will investigate the issue, and will write to the Member. However, I was in Swansea on Sunday, and was impressed by the progress that has been made in the city over the last few years; I say that as someone who worked in the city in the 1990s. That is testament to the great progress that was made by SA1, and, indeed, the developments in the city centre and in the old Victoria dock.

#### **Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau**

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** First Minister, you issued a statement this morning regarding the allegations that have been in the press over the weekend. I am grateful for that statement, which clarified some positions from the Welsh Government's perspective. I concur entirely with your sentiments in the opening remarks about how the allegations in the first

ffordd iawn ymlaen ar gyfer pobl Cymru, er mwyn cael cymaint â phosibl o fudd economaidd i Gymru.

**Peter Black:** Brif Weinidog, mewn llythyr dyddiedig 15 Hydref i Aelodau'r Cynulliad, cyfeiriodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth at y newid polisi yn 2008 i ddileu derbyniadau cyfalaf oedd wedi eu neilltuo ar gyfer SA1 yn Abertawe, a'u gwario ar sail Cymru gyfan yn hytrach. Yn ei llythyr, dywedodd fod y penderfyniad wedi'i wneud gan uwch reolwyr o fewn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, fel ag yr oedd hi ar y pryd. Ymddengys o'r llythyr hwnnw nad oedd unrhyw Weinidog o gwbl yn rhan o'r penderfyniad hwnnw. A yw'n arferol i Weinidogion beidio â chymryd rhan mewn penderfyniadau o'r fath bwysigrwydd, a allai gael cymaint o effaith ar Abertawe? Ar ben hynny, ai polisi presennol eich Llywodraeth yw peidio â rhoi adnoddau i mewn i SA1, fel a benderfynwyd yn flaenorol gan Awdurdod Datblygu Cymru yn 2003?

**Y Prif Weinidog:** Na. Mae penderfyniadau pwysig yn cael eu cymryd gan Weinidogion—dyna oedd yn digwydd bob amser, hyd yn oed yn nyddiau'r WDA, nad oedd ychwaith yn meddu ar y mathau hynny o bwerau gweithredol. Byddaf yn ymchwilio i'r mater, ac yn ysgrifennu at yr Aelod. Fodd bynnag, yr oeddwn yn Abertawe ddydd Sul, ac fe'm synnwyd gan y cynnydd sydd wedi'i wneud yn y ddinas dros y blynnyddoedd diwethaf; dywedaf hynny fel rhywun a oedd yn gweithio yn y ddinas yn y 1990au. Mae hynny yn dystiolaeth o'r cynnydd mawr a wnaed gan SA1, ac, yn wir, gan y datblygiadau yng nghanol y ddinas ac yn hen ddoc Victoria.

#### **Questions Without Notice from the Party Leaders**

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Brif Weinidog, fe gyhoeddasoch ddatganiad y bore yma ynghylch yr honiadau sydd wedi bod yn y wasg dros y penwythnos. Yr wyf yn ddiolchgar am y datganiad hwnnw, a oedd yn egluro rhai safiadau o safbwynt Llywodraeth Cymru. Cytunaf yn llwyr â'ch teimladau yn y sylwadau agoriadol yn nodi bod angen cyflwyno'r honiadau i'r

instance need to be addressed to the police, as well as to the relevant authorities, so that they can be investigated fully and that people who have concerns feel that those investigations will be carried out openly and transparently. You go on in your statement to highlight the creation of the post of the Children's Commissioner for Wales, and the fact that the creation of that post was one of the recommendations of the Waterhouse review. However, you also say that you have invited the current commissioner to come to explain his position, as well as his call for a new inquiry. Is this the first time that these observations have come out of the children's commissioner's office, or have there been discussions with the Welsh Government around issues that have been highlighted in the press recently?

**The First Minister:** No; the meeting will take place this afternoon between me and the children's commissioner. I have received a letter from him, in which he asks what kind of inquiries might take place within the Welsh Government's competence. I am aware of what the Home Secretary said this afternoon; I will take account of that and of what the children's commissioner says. A number of issues are caught up in the allegations that have been made, some of which are devolved and some of which are non-devolved, so it is important that any future inquiry—should that take place—covers both those areas. That would require a joint approach by both Governments.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that answer. I agree entirely about the joint approach, because you are quite right: there are two areas of competence here—one in Westminster and one in the Welsh Government. You go on to highlight in your statement that you have asked for reports to be made to you about allegations and actions that the Welsh Government could take as a matter of urgency. We are aware of the statement that has been made in the House of Commons today by Theresa May. When will you be in a position to enlighten Members about the outcome of the reports that she mentioned and the decisions that you will

heddlu yn gyntaf, yn ogystal ag i'r awdurdodau perthnasol, fel y gellir ymchwilio'n llawn iddynt a bod pobl sydd â phryderon yn teimlo bod yr ymchwiliadau hynny'n cael eu cynnal mewn modd agored a thryloyw. Rydych yn mynd ymlaen yn eich datganiad i dynnu sylw at greu swydd Comisiynydd Plant Cymru, a'r ffaith bod creu'r swydd honno yn un o argymhellion adolygiad Waterhouse. Fodd bynnag, rydych hefyd yn dweud eich bod wedi gwahodd y comisiynydd presennol i ddod i esbonio ei safbwynt, yn ogystal â'i alwad am ymchwiliad newydd. Ai dyma'r tro cyntaf i'r sylwadau hyn ddod allan o swyddfa'r comisiynydd plant, neu a fu trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch materion sydd wedi eu hamlygu yn y wasg yn ddiweddar?

**Y Prif Weinidog:** Na; bydd y cyfarfod yn digwydd y prynhawn yma rhyngof fi a'r comisiynydd plant. Rwyf wedi derbyn llythyr oddi wrtho, lle y mae'n gofyn pa fath o ymholiadau a allai gael eu cynnal o fewn cymhwysedd Llywodraeth Cymru. Yr wyf yn ymwybodol o'r hyn a ddywedodd yr Ysgrifennydd Cartref y prynhawn yma; byddaf yn ystyried hynny yn ogystal â'r hyn y bydd y comisiynydd plant yn ei ddweud. Mae nifer o faterion yn ymwneud â'r honiadau a wnaed, rhai ohonynt wedi'u datganoli a rhai nad ydynt wedi'u datganoli, felly mae'n bwysig bod unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol—pe byddai hynny'n digwydd—yn cwmpasu'r ddau faes hynny. Byddai hynny'n gofyn am ymdriniaeth ar y cyd gan y ddwy Lywodraeth.

**Andrew R.T. Davies:** Diolch am yr ateb yna. Cytunaf yn llwyr ynglŷn â'r ymdriniaeth ar y cyd, oherwydd yr ydych yn llygad eich lle: mae dau faes o gymhwysedd yma—un yn San Steffan ac un yn Llywodraeth Cymru. Rydych yn mynd ymlaen i bwysleisio yn eich datganiad eich bod wedi gofyn am adroddiadau i gael eu gwneud i chi am honiadau a champau gweithredu y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd fel mater o frys. Rydym yn ymwybodol o'r datganiad a wnaed yn Nhŷ'r Cyffredin heddiw gan Theresa May. Pryd y byddwch chi mewn sefyllfa i roi gwybod i'r Aelodau am ganlyniad yr adroddiadau y soniodd hi



take as to whether the Welsh Government needs to play a more proactive role in any of these inquiries?

**The First Minister:** I plan to issue a statement following a meeting with the children's commissioner, this afternoon.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that, First Minister. The final matter to which I would like to draw your attention is that the Waterhouse report highlighted the appointment of a children's commissioner as well as a whole host of other recommendations. Are you aware of any of those recommendations, particularly around advocacy? There were suggestions, particularly in this morning's press, that the support and advocacy that was supposed to come forward from those recommendations has not been brought forward. So, are you or your Government aware of any of the key recommendations that need further scrutiny and support, to ensure that they become a reality for many of these victims?

**The First Minister:** No such representations have been made to me, but the Waterhouse inquiry was important in terms of what it did for the future of looked-after children in Wales, particularly the establishment of the children's commissioner's position. I am not aware of any issues that remain outstanding, but due to the allegations that have been made, I will revisit the recommendations made by the Waterhouse inquiry, in order to understand whether there is more that can be done. I hope to explore those issues with the children's commissioner as well.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, all of us here will be concerned about allegations of child abuse in north Wales; I know that there is an urgent question tabled on that for later this afternoon. My party is committed to co-operating with you and others on these serious issues and we endorse the approach that you have taken, First Minister, in working with the UK Government on this important matter.

amdanynt a'r penderfyniadau y byddwch chi'n eu cymryd ynghylch pa un a oes angen i Lywodraeth Cymru chwarae rôl fwy rhagweithiol yn unrhyw un o'r ymchwiliadau hyn?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn bwriadu cyhoeddi datganiad yn dilyn cyfarfod gyda'r comisiynydd plant, y prynhawn yma.

**Andrew R.T. Davies:** Diolch i chi am hynna Brif Weinidog. Y mater terfynol yr hoffwn dynnu eich sylw ato yw bod adroddiad Waterhouse wedi amlygu'r syniad o benodi comisiynydd plant yn ogystal â llu o argymhellion eraill. A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw un o'r argymhellion hynny, yn enwedig o ran eiriolaeth? Cafwyd awgrymiadau, yn enwedig yn y wasg y bore yma, nad oedd y cymorth a'r eiriolaeth a oedd i fod i ddigwydd yn dilyn yr argymhellion hynny wedi eu dwyn ymlaen. Felly, a ydych chi neu eich Llywodraeth yn ymwybodol o unrhyw un o'r argymhellion allweddol sydd angen mwy o graffu a chefnogaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwredden i lawer o'r dioddefwyr hyn?

**Y Prif Weinidog:** Nid oes unrhyw sylwadau o'r fath wedi'u gwneud i mi, ond yr oedd ymchwiliad Waterhouse yn bwysig o ran yr hyn a wnaeth ar gyfer dyfodol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, yn enwedig sefydlu'r swydd comisiynydd plant. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw faterion sy'n parhau i fod heb dderbyn sylw, ond oherwydd yr honiadau a wnaed, byddaf yn edrych eto ar yr argymhellion a wnaed gan ymchwiliad Waterhouse, er mwyn dod i ddeall a oes mwy y gellir ei wneud. Rwyf yn gobeithio archwilio'r materion hynny gyda'r comisiynydd plant hefyd.

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, mae pob un ohonom yma yn pryderu am honiadau o gam-drin plant yng ngogledd Cymru; gwn fod cwestiwn brys wedi ei gyflwyno am hynny yn ddiweddarach y prynhawn yma. Mae fy mhlaid wedi ymrwymo i gydweithio â chi ac eraill ar y materion difrifol hyn ac rydym yn cymeradwyo'r agwedd yr ydych wedi ei chymryd, Brif Weinidog, wrth weithio gyda Llywodraeth y DU ar y mater pwysig hwn.

Why can people in Scotland and England making an urgent ambulance call expect an ambulance to arrive within eight minutes 75% of the time, but that, under Labour in Wales, people have to settle for a 65% target?

**The First Minister:** The ambulance times target has been hit more often than not during the last few months, but we always seek to improve the service in the future.

**Kirsty Williams:** I am surprised that the First Minister has chosen to repeat the line that he gave me last month. In fact, for the nine months of 2012 for which ambulance performance times have been published, the targets have been met just four times and missed five times. Those targets are already less ambitious than those in England and Scotland. In fact, response times have been going down for the last three months running. Are you satisfied, First Minister that while response rates for ambulances are improving in Scotland and England, the picture in Wales, despite what you say—if you look at the figures—is getting worse?

**The First Minister:** We know that there has been pressure on ambulance services. In order to help mitigate this pressure, the Minister for Health and Social Services allocated £1 million to local health boards and to the Welsh Ambulance Service NHS Trust on 1 October to deliver ambulance improvement proposals, as part of the £10 million unscheduled care investment fund.

**Kirsty Williams:** We know that, up until last week, the ambulance trust did not even have an agreed budget for this financial year, let alone the next one. However, we are now approaching the winter months, and your Government did not meet its own inadequate targets during the summer. Two years ago, during the winter, there was a massive deterioration in ambulance response times, with only 45% of ambulances reaching emergency calls within eight minutes. What

Pam y gall pobl yn yr Alban a Lloegr sy'n gwneud galwad brys am ambiwlans ddisgwyl i ambiwlans gyrraedd o fewn wyth munud 75% o'r amser, ond, o dan Lafur yng Nghymru, mae'n rhaid i bobl dderbyn targed o 65%?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r targed amserau ar gyfer ambiwlans wedi ei gyflawni yn amlach na pheidio yn ystod y misoedd diwethaf, ond byddwn bob amser yn ceisio gwella'r gwasanaeth yn y dyfodol.

**Kirsty Williams:** Yr wyf yn synnu bod y Prif Weinidog wedi dewis ailadrodd yr ateb a roddodd i mi fis diwethaf. Yn wir, am y naw mis o 2012 y cyhoeddwyd amseroedd perfformiad ambiwlans ar eu cyfer, cyflawnwyd y targedau dim ond pedair gwaith a methwyd â'u cyflawni bum gwaith. Mae'r targedau eisoes yn llai uchelgeisiol na'r rhai yn Lloegr a'r Alban. Mewn gwirionedd, mae'r amseroedd ymateb wedi dirywio bob mis yn ystod y tri mis diwethaf. A ydych chi'n fodlon, Brif Weinidog, bod cyfraddau ymateb ar gyfer ambiwlansiau yn gwella yn yr Alban a Lloegr, tra bod y darlun yng Nghymru, er gwaethaf yr hyn a ddywedwch—os edrychwch ar y ffigurau—yn gwaethygu?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwybod y bu pwysau ar y gwasanaethau ambiwlans. Er mwyn helpu i liniaru'r pwysau hwn, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi neilltuo £1 miliwn i fyrddau iechyd lleol ac i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru ar 1 Hydref i gyflwyno cynigion ar gyfer gwella'r gwasanaeth ambiwlans, yn rhan o'r £10 miliwn ar gyfer y gronfa buddsoddi mewn gofal heb ei drefnu.

**Kirsty Williams:** Gwyddom, hyd at yr wythnos diwethaf, nad oedd gan yr ymddiriedolaeth ambiwlans gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer y flwyddyn ariannol hon hyd yn oed, heb sôn am y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, rydym bellach yn agosáu at fisoedd y gaeaf, ac ni wnaeth eich Llywodraeth gyflawni ei thargedau annigonol ei hun yn ystod yr haf. Ddwy flynedd yn ôl, yn ystod y gaeaf, gwelwyd dirywiad enfawr mewn amseroedd ymateb ambiwlansiau,

extra measures have been put in place by your Minister for health to ensure that ambulances are able to adequately cope with winter pressures this year?

gyda dim ond 45% ohonynt yn cyrraedd galwadau brys o fewn wyth munud. Pa fesurau ychwanegol sydd wedi eu rhoi ar waith gan eich Gweinidog iechyd i sicrhau bod ambiwlansiau yn gallu ymdopi'n ddigonol â phwysau'r gaeaf eleni?

1.45 p.m.

**The First Minister:** The Member refers to a time when the weather was particularly bad, and that is when ambulance response times dropped. Since that time, we have been looking at ways to ensure that the roads are kept open as much as possible through an adequate supply of salt, and that people choose well, in terms of ensuring that they know when to call for an ambulance and when not to do so.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Aelod yn cyfeirio at amser pan oedd y tywydd yn arbennig o wael, a dyna pryd y bu dirywiad mewn amseroedd ymateb ambiwlansiau. Ers hynny, rydym wedi bod yn edrych ar ffyrdd o sicrhau bod y ffyrdd yn cael eu cadw ar agor cymaint ag y bo modd trwy gyflenwad digonol o halen, a bod pobl yn dewis yn dda, o ran sicrhau eu bod yn gwybod pryd i alw ambiwlans a phryd i beidio â gwneud hynny.

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** First Minister, much of the information collected by the Waterhouse inquiry was never made public, on the assumption that legal action would follow in respect of the 28 perpetrators who were identified by the inquiry but whose identities were never published. In many cases, this has not happened. What discussions have you had with the UK Government on this matter as to why this follow-up action never happened? Do you also agree with me that now is the time for that information to be published?

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Brif Weinidog, roedd llawer o'r wybodaeth a gasglwyd gan ymchwiliad Waterhouse na fu erioed ar gael i'r cyhoedd, yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai camau cyfreithiol yn dilyn ar gyfer y 28 troseddwr a enwyd gan yr ymchwiliad, ond ni chyhoeddwyd yr enwau hynny erioed. Mewn llawer o achosion, nid yw hyn wedi digwydd. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn, sef pam na ddigwyddodd y camau dilynol? A ydych hefyd yn cytuno â mi mai nawr yw'r amser i gyhoeddi'r wybodaeth honno?

**The First Minister:** The UK Government has today announced that it is looking again at the remit of the inquiry, and at whether it was broad enough. It has also asked for the national crime agency to conduct investigations into the allegations that have been made. I think that that is the right approach to deal with these very serious allegations.

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi heddiw ei bod yn edrych eto ar gyloch gorchwyl yr ymchwiliad, ac ar ba un a oedd yn ddigon eang. Mae hefyd wedi gofyn i'r asiantaeth troseddau cenedlaethol i gynnal ymchwiliadau i'r honiadau a wnaed. Rwy'n credu mai dyna'r dull cywir o ymdrin â'r honiadau difrifol iawn hyn.

**Leanne Wood:** First Minister, is it important that the information is published? We have also had the Jillings report, which was pulped. That was an inquiry into abuse in the former county of Clwyd. That report never saw the light of day. Would you agree to do whatever you can to ensure that a copy of that report is obtained? Also, if you can obtain that report, would you agree to publish the findings?

**Leanne Wood:** Brif Weinidog, mae'n bwysig bod y wybodaeth yn cael ei chyhoeddi? Rydym hefyd wedi cael adroddiad Jillings a gafodd ei ddiddymu. Ymchwiliad i gam-drin yn yr hen sir Clwyd oedd hwnnw. Ni welodd yr adroddiad hwnnw olau dydd erioed. A wnewch chi gytuno i wneud beth bynnag y gallwch i sicrhau cael gafael ar gopi o'r adroddiad hwnnw? Hefyd, os gallwch gael gafael ar yr adroddiad

hwnnw, a wnewch chi gytuno i gyhoeddi ei ganfyddiadau?

**The First Minister:** I agree that there should be as much transparency as possible, which is why I am talking to the Children's Commissioner for Wales this afternoon and have been in touch with the UK Government. The last thing that we should do is have a number of competing inquiries. I do not think that that is in anyone's interests, let alone the interests of the victims.

**Leanne Wood:** I would agree with that, and I welcome the fact that you are meeting with the children's commissioner; I spoke to him myself yesterday afternoon. First Minister, do you agree that all child protection services in Wales and the office of the children's commissioner should be properly and fully funded, so that children and adults may feel that they can go to the children's commissioner and have a full and fair hearing?

**The First Minister:** Yes, I do. I regret the words of the leader of Plaid Cymru, who suggested this morning that the Government was standing in the way of an inquiry. I do not know where she gets that impression from because it is far from the case. I also think that it is important to remind those people who have suffered that they should get in touch with the police or with the children's commissioner. In that way, their allegations can be investigated, and they can be directed towards counselling. I do not think that it is appropriate that people should be encouraged to get in touch with politicians. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Hear, hear.'] It is important that they should be asked to get in touch with authorities that can do things for them and properly investigate their complaints. I would urge people to do that.

### Amddiffyn Plant

**3. Suzy Davies:** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella dulliau o amddiffyn plant yng Nghymru. OAQ(4)0746(FM)*

**The First Minister:** The written statement

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn cytuno y dylid cael cymaint o dryloywder ag y bo modd, a dyna pam yr wyf yn siarad â Chomisiynydd Plant Cymru y prynhawn yma a pham fy mod wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth y DU. Y peth olaf y dylem ei wneud yw cael nifer o ymholiadau yn cystadlu â'i gilydd. Nid wyf yn credu y byddai hynny o les i neb heb sôn am les y dioddefwyr.

**Leanne Wood:** Byddwn yn cytuno â hynny, a chrosawaf y ffaith eich bod yn cwrdd â'r comisiynydd plant; siaradais innau ag ef brynawn ddoe. Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno y dylai pob gwasanaeth amddiffyn plant yng Nghymru a swyddfa'r comisiynydd plant gael eu hariannu yn briodol ac yn llawn, fel y gall plant ac oedolion deimlo y gallant fynd at y comisiynydd plant a chael gwrandawriad llawn a theg?

**Y Prif Weinidog:** Ydwyf, yr wyf yn cytuno. Yr wyf yn gresynu at eiriau arweinydd Plaid Cymru, a awgrymodd y bore yma fod y Llywodraeth yn gwrthwynebu ymchwiliad. Nid wyf yn gwybod o ble mae hi wedi cael yr argraff honno gan fod hynny'n bell o fod yn wir. Rwyf hefyd yn credu ei bod yn bwysig i atgoffa'r bobl hynny sydd wedi dioddef y dylent gysylltu â'r heddlu neu â'r comisiynydd plant. Drwy wneud hynny, gellir ymchwilio i'w honiadau a gellir eu cyfeirio tuag at gwnsela. Nid wyf yn credu ei bod yn briodol i bobl gael eu hannog i gysylltu â gwleidyddion. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'Clywch, clywch'] Mae'n bwysig i ofyn iddynt gysylltu â'r awdurdodau sy'n gallu gwneud rhywbeth drostynt ac ymchwilio i'w cwynion yn briodol. Byddwn yn annog pobl i wneud hynny.

### Child Protection

**3. Suzy Davies:** *What action is the Welsh Government taking to improve child protection in Wales. OAQ(4)0746(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r datganiad

by the Deputy Minister for Children and Social Services of 18 October set out the details of the safeguarding and protection arrangements that will be included in the social services and wellbeing (Wales) Bill.

**Suzu Davies:** Thank you for that answer. It is some years since your Government rejected a committee proposal for an independent advocacy service for children and young people and, as late as this year, the Children and Young People Committee reminded the Deputy Minister of the words of the children's commissioner, who spoke about the failure in advocacy services, saying that,

'This situation cannot be allowed to continue and must be addressed as a matter of urgency.'

In response to your earlier reply to Andrew R.T. Davies, perhaps I can assist with a quote from the children's commissioner's annual general report this year. He lamented that:

'Wales has been on an advocacy journey for over 10 years, following the publication of the Waterhouse Report, and yet it finds itself without a clear set of checks and balances'.

First Minister, children and young people must be confident that they will be heard, and we must be confident that they are heard early. Do you regret your Government's decision not to introduce an independent advocacy service years ago?

**The First Minister:** We know from inspection reports that, broadly, our child protection arrangements are robust. However, through mechanisms such as the Bill, which we hope will pass through the Assembly, we can ensure that children are safeguarded to an even higher standard than before.

**Kenneth Skates:** First Minister, over the past few days, evidence has emerged on the abuse of children at care homes in north Wales in the 1970s and 1980s. These cases could not be considered as part of the original

ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog dros Blant a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 18 Hydref yn nodi manylion y trefniadau diogelu ac amddiffyn a fydd yn cael eu cynnwys yn y Bil gwasanaethau cymdeithasol a lles (Cymru).

**Suzu Davies:** Diolch am yr ateb yna. Mae rhai blynyddoedd wedi mynd heibio ers i'ch Llywodraeth wrthod cynnig gan bwyllgor ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i blant a phobl ifanc ac, mor ddiweddar ag eleni, atgoffodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Dirprwy Weinidog am eiriau'r comisiynydd plant, a siaradodd am fethiant gwasanaethau eiriolaeth, gan ddweud,

'Ni ellir caniatáu i'r sefyllfa hon barhau ac mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn fel mater o frys.'

Mewn ymateb i'ch ateb yn gynharach i Andrew R.T. Davies, efallai y gallaf helpu gyda dyfyniad o adroddiad cyffredinol blynyddol y comisiynydd plant eleni. Roedd yn gresynu bod:

'Cymru wedi bod ar daith eiriolaeth ers dros 10 mlynedd, yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Waterhouse, ac eto nid oes ganddi ddulliau clir o gadw gwrthbwysedd'.

Brif Weinidog, mae'n rhaid i blant a phobl ifanc fod yn ffyddiog y byddant yn cael eu clywed, ac mae'n rhaid i ninnau fod yn ffyddiog y byddant yn cael eu clywed yn gynnar. A ydych chi'n difaru penderfyniad eich Llywodraeth i beidio â chyflwyno gwasanaeth eiriolaeth annibynnol flynyddoedd yn ôl?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwybod o adroddiadau arolygu, bod ein trefniadau ar gyfer amddiffyn plant, yn gyffredinol, yn gadarn. Fodd bynnag, trwy fecanweithiau fel y Bil, a gobeithiwn y bydd yn mynd trwy'r Cynulliad, gallwn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu i safon hyd yn oed yn uwch nag o'r blaen.

**Kenneth Skates:** Brif Weinidog, yn ystod y dyddiau diwethaf, mae tystiolaeth wedi dod i'r amlwg o gam-drin plant mewn cartrefi gofal yng ngogledd Cymru yn y 1970au a'r 1980au. Ni ellid ystyried yr achosion hyn yn

Waterhouse inquiry. The abuse that took place in care homes was truly sickening and horrific. My concern is that with so many inquiries being commissioned, it may be time for an overarching criminal investigation into child abuse. Would you agree with me that Operation Yewtree should be expanded to include an investigation into all allegations of abuse of children residing in children's homes?

**The First Minister:** The Member's suggestion carries a great deal of merit. There are suggestions that there is a link between abuse that has taken place in different parts of the UK and beyond. Therefore, it would make sense for the police investigation to be as wide-ranging as possible. I will discuss his points with the appropriate authorities in London to make sure that as much work as possible is done in this area to investigate the very serious allegations that have been reiterated over the past week.

**Jocelyn Davies:** First Minister, following the recent publicity around Jimmy Savile's activities, statutory and voluntary organisations say that they have been inundated with calls from victims of abuse. Earlier, you mentioned counselling and advocacy has also been mentioned. We are hearing more and more about abuse in north Wales that may stretch back many decades and those victims will need immediate counselling. Will you ensure that counselling services are available?

**The First Minister:** Yes, I would encourage people to get in touch with the children's commissioner. I understand that the commissioner has a helpline in place and people can be directed towards appropriate counselling through that helpline. That is the best way for people to be able to express their concerns, to provide information to the children's commissioner and to get the help that they need.

#### Ad-drefnu'r Gwasanaeth Iechyd

**4. Paul Davies:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau i ad-drefnu'r*

rhan o'r ymchwiliad Waterhouse gwreiddiol. Mae'r cam-drin a ddigwyddodd mewn cartrefi gofal yn wirioneddol ffiiaidd ac erchyll. Fy mhryder i yw bod cymaint o ymholiadau yn cael eu comisiynu, ac efallai ei bod yn bryd i ni gael ymchwiliad troseddol cyffredinol i gam-drin plant. A fydddech chi'n cytuno â mi y dylai Operation Yewtree gael ei hymestyn i gynnwys ymchwiliad i bob honiad o gam-drin plant sy'n byw mewn cartrefi i blant?

**Y Prif Weinidog:** Mae cryn rinwedd yn awgrym yr Aelod. Ceir awgrymiadau bod cysylltiad rhwng cam-drin sydd wedi digwydd mewn gwahanol rannau o'r DU a thu hwnt. Felly, byddai'n gwneud synnwyr i ymchwiliad yr heddlu fod mor eang ag y bo modd. Byddaf yn trafod ei bwyntiau gyda'r awdurdodau priodol yn Llundain i sicrhau bod cymaint o waith â phosibl yn cael ei wneud yn yr ardal hon i ymchwilio i'r honiadau difrifol iawn sydd wedi eu hailadrodd dros yr wythnos ddiwethaf.

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, yn dilyn y cyhoeddusrwydd diweddar ynghylch gweithgareddau Jimmy Savile, mae sefydliadau statudol a gwirfoddol yn dweud eu bod wedi derbyn llw o alwadau gan ddiodefwyr cam-drin. Yn gynharach, soniasoch am gwnsela, ac mae eiriolaeth wedi ei grybwyll hefyd. Rydym yn clywed mwy a mwy am gam-drin yng ngogledd Cymru a allai fod yn mynd yn ôl dros ddegawdau lawer, a bydd y diodefwyr hynny angen cwnsela ar unwaith. A wnewch chi sicrhau bod gwasanaethau cwnsela ar gael?

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, byddwn yn annog pobl i gysylltu â'r comisiynydd plant. Rwyf yn deall bod gan y comisiynydd linell gymorth ar waith a gall pobl gael eu cyfeirio at gwnsela priodol drwy'r llinell gymorth honno. Y ffordd orau i bobl allu mynegi eu pryderon, yw rhoi gwybodaeth i'r comisiynydd plant, a chael y gymorth y mae ei angen arnynt.

#### Health Service Reconfiguration

**4. Paul Davies:** *Will the First Minister make a statement on health service reconfiguration*

*gwasanaeth iechyd yng ngorllewin Cymru. OAQ(4)0736(FM)*

*plans in west Wales. OAQ(4)0736(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r bwrdd iechyd wedi cwblhau ei ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar a bydd yn awr yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

**The First Minister:** The health board has recently concluded its public consultation and will now consider the consultation responses.

**Paul Davies:** Fel yr ydych yn dweud, Brif Weinidog, daeth ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i ben wythnos ddiwethaf. Rwy'n falch bod y Gweinidog iechyd wedi cadarnhau ei bod hi'n mynd i wneud datganiad yn y dyfodol yn sgîl yr ymgynghoriadau er mwyn mynegi barn eich Llywodraeth am y cynlluniau. A all y Prif Weinidog ddweud wrthym pryd bydd y Gweinidog iechyd yn gwneud datganiad o'r fath? Mae'n bwysig bod y datganiad yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl, oherwydd mae pobl yn fy etholaeth i yn poeni am rai o'r cynlluniau.

**Paul Davies:** As you said, First Minister, Hywel Dda Local Health Board's consultation concluded last week. I am pleased that the Minister for health has confirmed that she will make a statement in future in light of these consultations in order to give the views of your Government on the plans. Can the First Minister tell us when the Minister for health will make such a statement? It is important that that statement should be made as soon as possible, because people in my constituency are concerned about some of these plans.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n deall y bydd y bwrdd yn cyhoeddi'r cynlluniau diweddaraf erbyn diwedd y flwyddyn hon neu'n gynnar yn y flwyddyn nesaf. Bydd yr amseru yn effeithio ar unrhyw ddatganiad y bydd y Gweinidog yn ei wneud.

**The First Minister:** I understand that the board is going to announce the latest plans by the end of this year or very early next year. The timing of that will impact on any statement that the Minister will make.

**Rebecca Evans:** First Minister, the Royal College of Nursing has expressed concerns that many of the proposed developments will depend on new nursing roles, and yet there is no evidence of a nursing strategy in the Hywel Dda health board's consultation document. What discussions is the Welsh Government having with the health board regarding its strategy for the recruitment, training and deployment of the nursing workforce in the health board area?

**Rebecca Evans:** Brif Weinidog, mae Coleg Brenhinol y Nyrsys wedi mynegi pryderon y bydd llawer o'r datblygiadau arfaethedig yn dibynnu ar swyddogaethau nyrsio newydd, ac eto nid oes tystiolaeth o strategaeth nyrsio yn nogfen ymgynghori bwrdd iechyd Hywel Dda. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cael gyda'r bwrdd iechyd o ran ei strategaeth ar gyfer recriwtio, hyfforddi a defnyddio'r gweithlu nyrsio yn ardal y bwrdd iechyd?

**The First Minister:** I understand that the executive nurse director has developed a preliminary nursing plan for the health board, which has been shared with the chief nursing officer. The plan will be modified once the analysis of the responses to the consultation on the reconfiguration of services has been completed.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn deall bod y cyfarwyddwr gweithredol nyrsio wedi datblygu cynllun nyrsio rhagarweiniol ar gyfer y bwrdd iechyd sydd wedi ei rannu gyda'r prif swyddog nyrsio. Bydd y cynllun yn cael ei addasu ar ôl cwblhau'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ad-drefnu gwasanaethau.

**Elin Jones:** Polisi eich Llywodraeth yw symud gofal iechyd o'r ysbyty i'r gymuned, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghynlluniau'r bwrdd iechyd ar hyn o bryd.

**Elin Jones:** Your Government's policy is to move healthcare from hospitals into the community, and this is reflected in the health boards' plans at present. Are you aware of

A ydych yn ymwybodol o'r consyrn ariannol sydd gan awdurdodau lleol am hyn, gan fod cynlluniau'r bwrdd iechyd yn trosglwyddo rhywfaint o'r cyfrifoldebau ond nid oes sôn am drosglwyddiad ariannol i wasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol?

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, rydym yn deall hynny a byddwn yn erfyn bod y gyllideb yn dilyn y gwasanaeth, wrth gofio ein bod am sicrhau bod llai o bobl yn mynd i'r ysbty a'u bod yn cael triniaeth a chymorth yn eu cartrefi.

### Blaenoriaethau Trafnidiaeth

**5. Russell George:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau trafndiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer canolbarth Cymru. OAQ(4)0750(FM)*

**The First Minister:** Yes, they are to be found in the national transport plan.

**Russell George:** I know that you will agree that the Newtown bypass is a priority for the future growth of mid Wales and, indeed, it is in your national transport plan as a priority. Your colleague the Minister has confirmed to me, in reply to a written question, that the project construction will start in late 2014 to early 2015. That was also announced by the Welsh Government to a public meeting that was attended by hundreds of people in the summer. The announcement on the preferred contractor that was due to be made this autumn will now be made next year, as I understand it. I would be grateful if you could tell me why there has been that slippage, and grateful if you would agree to provide me with a detailed timetable of the bypass project so that I can keep my constituents updated.

**The First Minister:** It is right to say that the intention is to appoint the successful contractor early in the new year. That will not affect the schedule in terms of construction.

the financial concerns that local authorities have about this policy, as the health boards' plans transfer some of the responsibilities but there is no mention of any financial transfer to local authority social services?

**The First Minister:** Of course, we understand that and we would expect the budget to follow the service. Of course, we want to ensure that fewer people access hospitals and are treated and receive support in their homes.

### Transport Priorities

**5. Russell George:** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's transport priorities for mid Wales. OAQ(4)0750(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, maen nhw i'w gweld yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol.

**Russell George:** Gwn y byddwch yn cytuno bod ffordd osgoi'r Drenewydd yn flaenoriaeth ar gyfer twf yn y dyfodol yng nghanolbarth Cymru ac, yn wir, mae'n flaenoriaeth yn eich cynllun trafndiaeth cenedlaethol. Mae eich cydweithiwr, y Gweinidog, wedi cadarnhau i mi, mewn ateb i gwestiwn ysgrifenedig, y bydd gwaith adeiladu'r prosiect yn dechrau yn hwyr yn 2014 neu yn gynnar yn 2015. Cyhoeddwyd hyn hefyd gan Lywodraeth Cymru mewn cyfarfod cyhoeddus yn yr haf lle'r oedd cannoedd o bobl yn bresennol. Bydd cyhoeddi'r contractwr dewisol a oedd i fod i ddigwydd yr hydref hwn, bellach yn digwydd y flwyddyn nesaf, fel y deallaf. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthyf pam y digwyddodd y llithriant hwnnw, ac yn ddiolchgar hefyd pe byddech yn cytuno i roi amserlen fanwl o'r prosiect ffordd osgoi i mi fel y gallaf roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'm hetholwyr.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n iawn i ddweud mai'r bwriad yw penodi'r contractwr llwyddiannus yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Ni fydd hynny'n effeithio ar yr amserlen o ran adeiladu.



**Rebecca Evans:** Non-emergency patient transport remains a serious concern for people living in mid Wales, but users are often full of praise for the front-line staff and volunteers who provide the service. However, they say that the service does not operate smoothly and does not meet their needs. How is the Welsh Government working to address this so that long waits, confusion, worry and inconvenience are a thing of the past?

**The First Minister:** I understand that the Powys and Hywel Dda health board pilots are developing a mixed delivery of transport, to make better use of resources and further improve performance and utilisation. The performance indicators in the last year do show a reduction in waiting times and journey times, and improved efficiency. I know that the health boards are considering issues such as transport and population needs as part of the plans to improve their services.

**Simon Thomas:** Brif Weinidog, yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae eich Llywodraeth chi a Network Rail wedi buddsoddi tua £60 miliwn mewn system signalau newydd ar lein y Cambrian. Mae i'w groesawu, ac mae'n un o'r systemau mwyaf modern yng ngorllewin Ewrop. Er hynny, nid oes gronyn o welliant wedi bod yn y gwasanaeth i'r bobl hynny sy'n defnyddio trenau o Aberystwyth, Pwllheli a Machynlleth i deithio tua'r dwyrain, sef y gwasanaeth bob awr y mae pawb yn gofyn amdano. Pryd y cawn ni weld gwasanaeth bob awr ar y llinell honno yng nghanolbarth Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Y gobaith yw y bydd y gwasanaeth yn gwella yn ystod 2014 a 2015. Rydym yn gweithio gyda Network Rail a Threnau Arriva Cymru ar yr amserlen er mwyn sicrhau bod mwy o wasanaethau yn ystod y dydd ar linell canolbarth Cymru. Mae hwnnw'n rhywbeth yr ydym eisiau symud ymlaen yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol.

**Biliau'r Llywodraeth**

**Rebecca Evans:** Mae cludiant cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys yn dal i beri pryder difrifol i bobl sy'n byw yng nghanolbarth Cymru, ond mae defnyddwyr yn aml yn llawn canmoliaeth am y staff rheng flaen a'r gwirfoddolwyr sy'n darparu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, maent yn dweud nad yw'r gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth ac nad yw'n diwallu eu hanghenion. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i ymdrin â hyn fel bod amseroedd aros hir, dryswch, pryder ac anghyfleustra yn rhan o'r gorffennol?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn deall bod cynlluniau peilot byrddau iechyd Powys a Hywel Dda yn datblygu darpariaeth gymysg o gludiant, i wneud gwell defnydd o adnoddau a gwella perfformiad a defnydd ymhellach. Mae'r dangosyddion perfformiad yn y flwyddyn ddiwethaf yn dangos gostyngiad mewn amseroedd aros ac amseroedd teithio, a gwell effeithlonrwydd. Gwn fod y byrddau iechyd yn ystyried materion fel anghenion cludiant a'r boblogaeth yn rhan o'r cynlluniau i wella eu gwasanaethau.

**Simon Thomas:** First Minister, over the past two years your Government and Network Rail have invested some £60 million in a new signalling system on the Cambrian line. That is to be welcomed, and it is one of the most modern systems in western Europe. However, there has been no hint of an improvement in the service for those people who use the trains from Aberystwyth, Pwllheli and Machynlleth to travel eastwards, which is the hourly service that everyone is asking for. When will we see an hourly service on that line in mid Wales?

**The First Minister:** The hope is that the service will improve during 2014 and 2015. We are working with Network Rail and Arriva Trains Wales on the timetable in order to ensure that there are more services during the daytime on the mid Wales line. That is something that we wish to move forward in the national transport plan.

**Government Bills**

**6. Mike Hedges:** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Filiau'r Llywodraeth sy'n mynd drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd. OAQ(4)0751(FM)*

**6. Mike Hedges:** *Will the First Minister give an update on government Bills currently proceeding through the Assembly. OAQ(4)0751(FM)*

**The First Minister:** There are three Government Bills proceeding through the Assembly at present and more, of course, will be introduced during the course of the year. Two will be introduced before the end of this term.

**Y Prif Weinidog:** Mae tri Mesur y Llywodraeth yn mynd drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd a bydd mwy, wrth gwrs, yn cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn. Bydd dau yn cael eu cyflwyno cyn diwedd y tymor hwn.

**Mike Hedges:** May I congratulate the First Minister on the legislative programme? Does he think that it would be easier for Bills to pass without the danger of referral by the UK Government if we had the same devolution settlement format as Northern Ireland and Scotland, where all items not explicitly retained by Westminster are devolved?

**Mike Hedges:** A gaf i longyfarch y Prif Weinidog ar y rhaglen ddeddfwriaethol? A yw'n credu y byddai'n haws i Fesurau lwyddo heb y perygl o atgyfeiriad gan Lywodraeth y DU pe byddai gennym yr un fformat o setliad datganoli â Gogledd Iwerddon a'r Alban, lle mae pob eitem nas cedwir yn benodol gan San Steffan yn cael eu datganoli?

**The First Minister:** The reserved powers model is undoubtedly easier to operate when it comes to devolution.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r model pwerau a gadwyd yn ddi-os yn haws i'w weithredu o ran datganoli.

**Andrew R.T. Davies:** First Minister, one of the Bills that you propose in your legislative programme is the planning Bill—something that many members of the public would be greatly appreciative of, I am sure, given the state of local development plans and other planning issues across many council areas. I understand that there has been a degree of slippage in this Bill coming forward. Are you able to update the timetable for this Bill to be introduced to the Assembly for its consideration?

**Andrew R.T. Davies:** Brif Weinidog, un o'r Mesurau a gynigir gennych yn eich rhaglen ddeddfwriaethol yw'r Bil cynllunio—rhywbeth y byddai llawer o aelodau'r cyhoedd yn ei werthfawrogi'n fawr, yr wyf yn sicr, o ystyried cyflwr cynlluniau datblygu lleol a materion cynllunio eraill ar draws ardaloedd llawer o gynghorau. Deallaf y bu peth llithriant o ran dwyn ymlaen y Mesur hwn. A allwch chi ddiweddarau'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r Mesur hwn i'r Cynulliad ar gyfer ei ystyried?

**The First Minister:** The plan is to introduce the planning Bill before the end of next year.

**Y Prif Weinidog:** Y bwriad yw cyflwyno'r Mesur cynllunio cyn diwedd y flwyddyn nesaf.

**Ieuan Wyn Jones:** Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol, yn y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion, ei fod yn ofynnol i awdurdodau lleol i asesu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Os yw'r asesiad yn dangos bod y galw yn fwy na'r ddarpariaeth, a fydd y Llywodraeth yn fodlon derbyn gwelliant a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod wella'r ddarpariaeth honno?

**Ieuan Wyn Jones:** The First Minister will be aware that, in the Schools Standards and Governance Bill, there is a requirement on local authorities to assess the demand for Welsh-medium education. If that assessment demonstrates that the demand is greater than the provision, will the Government be willing to accept an amendment that will make it a requirement for the authority to improve that

provision?

**Y Prif Weinidog:** Yr amser i ystyried hyn fydd pan fydd y Bil ei hun yn mynd trwy'r Cynulliad. Rwy'n siŵr y byddem yn ystyried unrhyw welliant synhwyrol er mwyn cryfhau addysg cyfrwng Cymraeg.

**The First Minister:** The time to consider this is when the Bill itself progresses through the Assembly. I am sure that we would consider any sensible amendment in order to strengthen Welsh-medium education.

**The Presiding Officer:** Question 7, OAQ(4)0741(FM), will not be asked.

**Y Llywydd:** Ni fydd cwestiwn 7, OAQ (4) 0741 (FM), yn cael ei ofyn.

### Cronfa Byw'n Annibynnol

### The Independent Living Fund

**8. Jenny Rathbone:** *Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cynlluniau i ddiddymu'r Gronfa Byw'n Annibynnol ar gyfer pobl anabl. OAQ(4)0747(FM)*

**8. Jenny Rathbone:** *What discussion has the Welsh Government had with the UK Government about plans to abolish the Independent Living Fund for disabled people. OAQ(4)0747(FM)*

**The First Minister:** There have been meetings between officials, and more meetings are planned on the future of the independent living fund, which we believe will have a final decision made upon it by the end of this year.

**Y Prif Weinidog:** Bu cyfarfodydd rhwng swyddogion, ac mae mwy o gyfarfodydd yn cael eu cynllunio ar ddyfodol y gronfa byw'n annibynnol, ac rydym yn credu y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ar hyn erbyn diwedd y flwyddyn hon.

2.00 p.m.

**Jenny Rathbone:** At the consultation meeting that took place in Cardiff in August, many carers expressed considerable concern at the impact that this will have on their disabled loved ones. They are very concerned that disabled people could be deprived of this money, which enables these disabled people to have some sort of normal life—to meet, have social contacts, go shopping and so on—if, when the money is devolved to Wales, the UK Government uses that as an opportunity to cut the amount of money available.

**Jenny Rathbone:** Yn y cyfarfod ymgynghori a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Awst, mynegodd llawer o ofalwyr gryn bryder am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar eu hanwyliaid anabl. Maent yn bryderus iawn y gallai pobl anabl gael eu hamddifadu o'r arian hwn, sy'n galluogi'r bobl anabl hyn i gael rhyw fath o fywyd normal—i gyfarfod, cael cysylltiadau cymdeithasol, mynd i siopa ac yn y blaen—os, pan fydd yr arian yn cael ei ddatganoli i Gymru, bydd Llywodraeth y DU yn defnyddio hynny fel cyfle i dorri faint o arian sydd ar gael.

**The First Minister:** Our preferred position is for the independent living fund to remain as it is across GB, and with proper funding. However, if responsibility is transferred to Wales, we would want to be assured that the level of any transfer is sufficient to meet the ongoing needs of our population and, of course, that it is allocated fairly.

**Y Prif Weinidog:** Ein safbwynt dewisol ar gyfer y gronfa byw'n annibynnol yw iddi aros fel ag y mae ar draws Prydain Fawr, a chydag arian priodol ar ei chyfer. Fodd bynnag, os bydd y cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i Gymru, byddem yn dymuno cael ein sicrhau bod lefel unrhyw drosglwyddiad yn ddigonol i fodloni anghenion parhaus ein poblogaeth ac, wrth gwrs, ei fod yn cael ei ddyrannu yn deg.

**Darren Millar:** It is important that there is a fair allocation of these resources if they come to Wales and to the Welsh Government. What preparatory work has been done by the Welsh Government, with local authorities in particular, about the possibility of this being devolved and how it might be implemented if it were devolved here?

**The First Minister:** There have been a number of discussions between officials, but we do not yet know what the final decision will be, nor do we know what the final amount of money to be transferred will be. Sadly, experience shows that, where this happens, the opportunity is taken by the Treasury to cut the level of funding coming into Wales and Scotland to meet the same level of service. We certainly hope that that will not be repeated with the independent living fund, should it be devolved.

**Lindsay Whittle:** Thank you for your previous answers; I appreciate that your hands are somewhat tied, because you do not yet know what the decision will be. Are there any contingency measures that the Welsh Government can take to ensure that disabled people living in Wales will not be disadvantaged if this independent living fund is closed?

**The First Minister:** It is difficult, because we do not know what the final decision is and we do not know how much money will be made available. Until we have certainty with regard to those two matters, it is difficult to plan with certainty for the future. However, we urge the UK Government, if it wishes to devolve the independent living fund, to fund fully the amount that is in place in Wales at the moment.

**Aled Roberts:** It is not just a case of fully funding the current usage, because the previous Labour Government closed the independent living fund to new entrants in 2008. Therefore, there are people living in Wales who are historically in receipt of independent living fund payments, whereas new entrants are not in receipt of those payments. I therefore urge the Government to undertake some preparatory work on this, given that we may be faced with a situation

**Darren Millar:** Mae'n bwysig sicrhau dyraniad teg o'r adnoddau hyn os ydynt yn dod i Gymru ac i Lywodraeth Cymru. Pa waith paratoadol sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru, gydag awdurdodau lleol yn arbennig, ynghylch y posibilrwydd i hyn gael ei ddatganoli a sut y gellid ei weithredu pe byddai'n cael ei ddatganoli yma?

**Y Prif Weinidog:** Bu nifer o drafodaethau rhwng swyddogion, ond nid ydym yn gwybod eto beth fydd y penderfyniad terfynol, ac nid ydym yn gwybod beth fydd y swm terfynol o arian a gaiff ei drosglwyddo. Yn anffodus, mae profiad yn dangos, pan fo hyn yn digwydd, fod y Trysorlys yn manteisio ar y cyfle i dorri lefel y cyllid sy'n dod i Gymru a'r Alban i gyflawni'r un lefel o wasanaeth. Rydym yn sicr yn gobeithio na fydd hyn yn cael ei ailadrodd gyda'r gronfa byw'n annibynnol, pe byddai'n cael ei datganoli.

**Lindsay Whittle:** Diolch i chi am eich atebion blaenorol; rwyf yn gwerthfawrogi bod eich dwylo ynghlwm i ryw raddau, oherwydd nad ydych yn gwybod eto beth fydd y penderfyniad. A oes unrhyw fesurau wrth gefn y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau na fydd pobl anabl sy'n byw yng Nghymru dan anfantais os yw'r gronfa byw'n annibynnol hon yn cael ei chau?

**Y Prif Weinidog:** Mae hi'n anodd, gan nad ydym yn gwybod beth yw'r penderfyniad terfynol yn ac nad ydym yn gwybod faint o arian fydd ar gael. Hyd nes y cawn sicrwydd o ran y ddau fater hyn, mae'n anodd gwneud cynlluniau pendant ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn annog Llywodraeth y DU, os yw'n dymuno datganoli'r gronfa byw'n annibynnol, i ariannu yn llawn y swm sydd wedi'i sefydlu yng Nghymru ar hyn o bryd.

**Aled Roberts:** Mae'n golygu mwy nag ariannu'r defnydd presennol yn llawn, oherwydd bod y Llywodraeth Lafur flaenorol wedi cau'r gronfa byw'n annibynnol i ymgeiswyr newydd yn 2008. Felly, ceir pobl sy'n byw yng Nghymru sydd yn hanesyddol yn derbyn taliadau o'r gronfa byw'n annibynnol, ond nid yw newydd-ddyfodiaid yn derbyn y taliadau hynny. Felly, anogaf y Llywodraeth i wneud rhywfaint o waith

where we as a Government only have 15 months to respond to the situation.

**The First Minister:** If we get the decision by the end of the year, we can then decide what consultation needs to take place in Wales. That will give us time to plan transitional arrangements up to and beyond 2015. However, we need a decision by the end of this year.

### Colli Clyw neu Fyddardod

**9. Ann Jones:** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod y rheini sy'n dioddef o golli eu clyw neu o fyddardod yn gallu chwarae rhan lawn a gweithgar yn eu cymunedau. OAQ(4)0744(FM)*

**The First Minister:** I join the Member in her aspiration that those with hearing loss and deafness should be able to play a full and active part in their communities. Our consultation document 'Framework for Action on Independent Living' sets out how we aim to support this.

**Ann Jones:** Thank you very much for that answer, First Minister. The cross-party group on deaf issues recently received a report containing some alarming statistics. Only seven of the 22 local authorities in Wales are able to identify how much they spend on assistive equipment, only five of those are able to provide a breakdown for the last five years, and 40% of local authorities do not have a sensory strategy at all. What more can the Welsh Government do to ensure that local authorities develop a more consistent and co-ordinated approach to the provision of assistive equipment across Wales?

**The First Minister:** We published guidelines in 2009 to integrate community equipment services between local authorities and the NHS, and that was backed by £12.8 million of capital funding to improve the

paratoadol ar hyn, o gofio y gallwn fod yn wynebu sefyllfa lle nad oes gennym ni fel Llywodraeth ddim ond 15 mis i ymateb i'r sefyllfa.

**Y Prif Weinidog:** Os cawn y penderfyniad erbyn diwedd y flwyddyn, yna gallwn benderfynu pa fath o ymgynghori y bydd angen ei gynnal yng Nghymru. Bydd hynny'n rhoi amser i ni gynllunio trefniadau pontio hyd at 2015 a thu hwnt. Fodd bynnag, mae angen i ni gael penderfyniad erbyn diwedd y flwyddyn hon.

### Hearing Loss or Deafness

**9. Ann Jones:** *Will the First Minister provide an update on what the Welsh Government is doing to ensure that those suffering from hearing loss or deafness can play a full and active part in their communities. OAQ(4)0744(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn ymuno â'r Aelod yn ei dyhead i'r rhai sy'n drwm eu clyw neu'n fyddar allu chwarae rhan lawn a gweithgar yn eu cymunedau. Mae ein dogfen ymgynghori 'Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol' yn nodi sut rydym yn bwriadu cefnogi hyn.

**Ann Jones:** Diolch yn fawr iawn am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae'r grŵp trawsbleidiol ar faterion pobl fyddar wedi derbyn adroddiad yn ddiweddar sy'n cynnwys rhai ystadegau brawychus. Dim ond saith o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gallu nodi faint y maent yn ei wario ar offer cynorthwyol, dim ond pump o'r rheiny sy'n gallu darparu dadansoddiad ar gyfer y pum mlynedd diwethaf, ac nid oes gan 40% o awdurdodau lleol strategaeth synhwyrâu o gwbl. Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud yn ychwanegol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn datblygu dull mwy cyson a chydgyssylltiedig o ran darparu offer cynorthwyol ar draws Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddwyd canllawiau gennym yn 2009 i integreiddio gwasanaethau offer cymunedol rhwng awdurdodau lleol a'r GIG, a chefnogwyd hynny gan £12,8 miliwn o arian cyfalaf i wella seilwaith y

infrastructure of those services. All of Wales is now covered by partnerships between the NHS and local government, underpinned by formal partnership agreements with pooled budgets.

**Mark Isherwood:** My local hospital has given me, as a person with hearing loss, excellent advice on assistive technology and my daughter who is having a cochlear implant operation next week has received excellent support from Flintshire County Council, the health board, and from the UK Government access to work scheme, which supports disabled people in work. How can we ensure that those three key agencies in particular are made known to people when they are first diagnosed with hearing loss, rather than them being left to struggle with something that is new and often quite frightening, not knowing where to turn?

**The First Minister:** I would hope that the partnership agreements that are in place will be able to help people to understand how to get the help that they need. The Minister has received a report on the provision of communication aids and equipment and has submitted that review for scrutiny by an expert panel drawn from the third sector, and that panel is expected to report early in the new year.

**Llyr Huws Gruffydd:** Mae'r canllawiau ynghylch pobl fyddar a dall yng Nghymru yn rhoi hawliau i bobl gael asesiad anghenion gan berson sydd â chymwysterau addas. Fodd bynnag, nid oes llawer o bobl mewn awdurdodau lleol, fel y clywsom yn barod, sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol, ac awdurdodau yn aml yw'r pwynt cyswllt cyntaf, boed drwy ganolfannau galwadau neu fel derbynydd ar y ddesg flaen ac yn y blaen.

Pa gamau, felly, fydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bydd awdurdodau lleol yn dilyn yr arweiniad statudol, a bod staff yr awdurdodau hynny yn gallu adnabod rhai o'r anghenion penodol hyn a chyfeirio pobl at rai sydd â chymwysterau addas? Hefyd, a wnewch chi sicrhau y bydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol yn cryfhau'r

gwasanaethau hynny. Mae Cymru gyfan bellach yn cynnwys partneriaethau rhwng y GIG a llywodraeth leol, yn seiliedig ar gytundebau partneriaeth ffurfiol gyda chyllidebau cyfun.

**Mark Isherwood:** Mae fy ysbyty lleol wedi rhoi cyngor ardderchog i mi, fel person gyda nam ar y clyw, ar dechnoleg gynorthwyol ac mae fy merch sy'n cael llawdriniaeth mewnblianiad yn y cochlea yr wythnos nesaf wedi derbyn cefnogaeth ardderchog gan Gyngor Sir y Fflint, y bwrdd iechyd, a chan gynllun mynediad i waith Llywodraeth y DU, sy'n cefnogi pobl anabl yn y gwaith. Sut y gallwn sicrhau bod y tair asiantaeth allweddol hynny yn arbennig yn cael eu gwneud yn hysbys i bobl pan fyddant yn cael eu diagnosis cyntaf o golli clyw yn hytrach na'u bod yn cael eu gadael i geisio ymdopi â rhywbeth sy'n newydd ac yn aml yn eithaf brawychus, heb wybod at bwy i droi?

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn gobeithio y bydd y cytundebau partneriaeth sydd ar waith yn gallu helpu pobl i ddeall sut i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r Gweinidog wedi derbyn adroddiad ar y ddarpariaeth o gymhorthion ac offer cyfathrebu ac wedi cyflwyno'r adolygiad hwnnw i'w graffu gan banel o arbenigwyr o blith y trydydd sector, a disgwylir adroddiad gan y panel hwnnw yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

**Llyr Huws Gruffydd:** The guidelines on deaf and blind people in Wales give people the right to an assessment of their needs by a properly qualified person. However, as we have already heard, there are not many people in local authorities with the necessary skills and qualifications, and authorities are often the first point of contact—whether through call centres or a receptionist at a front desk and so on.

What steps, therefore, will your Government take to ensure that local authorities follow the statutory guidelines, and that staff within the authorities can identify some of these specific needs and refer people to those who are appropriately qualified? Will you also ensure that the social services Bill will strengthen, rather than dilute, the guidance?

canllawiau, ac nid yn eu gwanhau?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn ymwybodol o awdurdodau nad ydynt yn dilyn y canllawiau, ond os oes enghreifftiau o hynny byddwn yn falch o edrych ar unrhyw dystiolaeth. O ran yr arian rydym yn ei roi i gyrff sy'n helpu pobl sy'n fyddar neu'n ddall, rydym yn rhoi arian i Gyngor Cymru dros Bobl Fyddar, i'r BDA, sef cymdeithas pobl fyddar Pydain, a Sense Cymru, sy'n cefnogi ac yn rhoi cymorth i bobl ddall a byddar.

**The First Minister:** I am not aware of local authorities that do not follow the guidelines, but, if you have examples, I would be very pleased to look at any evidence. As regards our funding for bodies that assist deaf or blind people, we give money to the Wales Council for Deaf People, the BDA, that is, the British Deaf Association, and Sense Cymru, which supports and gives assistance to deafblind people.

### Polisi Ynni

**10. Angela Burns:** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi ynni Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. OAQ(4)0742(FM)*

**The First Minister:** Yes. It is our aim to enhance the economic, social and environmental wellbeing of the people and communities of Wales through providing a low-carbon energy system.

**Angela Burns:** Thank you very much for that answer, First Minister. Do you agree that one of the biggest disincentives to large energy companies investing in Wales is the Welsh Government's processes? It took RWE npower six years to gain the relevant permits it needed for the Pembrokeshire power plant. Equivalent applications in England usually take one to two years. Even with the new natural resources body, this performance is not acceptable if Wales is to promote itself as a leader and venue for large energy projects. Can the First Minister tell us how this is being addressed, and how that message will be communicated to large energy companies looking to invest in our country in future?

**The First Minister:** The formation of Natural Resources Wales is designed to ensure that the permitting process is robust—that is important—and that it is swift, where that is appropriate. That is why, instead of having three bodies that reflect the environment, there will be one body that will take all decisions. That, in my view, will lead to a situation where decisions will be taken

### Energy Policy

**10. Angela Burns:** *Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's energy policy for Wales. OAQ(4)0742(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Ein nod yw gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru drwy ddarparu system ynni carbon isel.

**Angela Burns:** Diolch yn fawr iawn am yr ateb yna, Brif Weinidog. A ydych chi'n cytuno mai un o'r anghymhellion mwyaf i gwmnïau ynni mawr fuddsoddi yng Nghymru yw prosesau Llywodraeth Cymru? Cymerodd RWE npower chwe blynedd i gael y trwyddedau perthnasol yr oedd eu hangen ar gyfer pwerdy Sir Benfro. Mae ceisiadau cyfatebol yn Lloegr fel arfer yn cymryd rhwng un a dwy flynedd. Hyd yn oed gyda'r corff adnoddau naturiol newydd, nid yw'r perfformiad hwn yn dderbyniol os yw Cymru am hyrwyddo ei hun fel arweinydd a lleoliad ar gyfer prosiectau ynni mawr. A all y Prif Weinidog ddweud wrthym sut y mae hyn yn cael sylw, a sut y bydd y neges yn cael ei chyfleu i gwmnïau ynni mawr sy'n ystyried buddsoddi yn ein gwlad yn y dyfodol?

**Y Prif Weinidog:** Mae ffurfio Adnoddau Naturiol Cymru wedi'i gynllunio i sicrhau bod y broses drwyddedu yn gadarn—mae hynny'n bwysig—a'i fod yn gyflym, pan fo hynny'n briodol. Dyna pam, yn hytrach na chael tri chorff sy'n adlewyrchu'r amgylchedd, bydd un corff a fydd yn gwneud yr holl benderfyniadau. Bydd hynny, yn fy

robustly, but within the proper amount of time.

### Ynni Adnewyddadwy

**11. Elin Jones:** *Beth yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu faint o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu. OAQ(4)0737(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r cynlluniau hynny yn 'Ynni Cymru', sef y ddogfen sy'n amlinellu dull y Llywodraeth o droi at ffyrdd adnewyddadwy o greu ynni.

**Elin Jones:** Mae ffigurau sy'n dangos, er 2003, mai 17.8% yw'r cynnydd mewn ynni adnewyddadwy yn Lloegr, 9.9% ydyw yn yr Alban a dim ond 2.7% ydyw yng Nghymru. Pam ydych chi'n credu bod ein cynnydd ni mor dila mewn cymhariaeth â'r cynnydd yn ein gwledydd cymdogol?

**Y Prif Weinidog:** O ran yr Alban, mae oherwydd bod mwy o arian ar gael i gwmnïau ynni. Gan fod yr Alban yn rheoli'r tystysgrifau ymrwymo i ynni adnewyddadwy, mae'n gallu defnyddio mwy o'r arian i ddenu buddsoddiad i'r Alban. Rydym yn credu y dylai Cymru fod yn yr un sefyllfa, ac rydym yn dal i ddweud wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig y dylai Cymru gael yr un chwarae teg â'r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**Antoinette Sandbach:** Your Government designated Anglesey as the 'energy isle'. As a result of that designation, it is likely that there will have to be substantial upgrades to the national grid and an energy enterprise zone in Anglesey. However, when your Government had the opportunity to influence the new infrastructure on the electricity networks strategy group, particularly in relation to pylon blight, which will affect communities in north Wales, your officials did not stand up and say a word for Wales, despite the fact that Scottish officials fought repeatedly, and vocally, to defend their national interests. Will you give people in north Wales the assurance that, when your Government has the opportunity to stand up and speak up for people in north Wales, you will take that opportunity?

marn i, yn arwain at sefyllfa lle bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn modd cadarn, ond o fewn cyfnod priodol.

### Renewable Energy

**11. Elin Jones:** *What are the Welsh Government's plans to increase the production of renewable energy. OAQ(4)0737(FM)*

**The First Minister:** 'Energy Wales' sets out the Government's approach to the transition to renewable forms of energy generation.

**Elin Jones:** There are figures that show that, since 2003, the increase in renewable energy is 17.8% in England, 9.9% in Scotland and only 2.7% in Wales. Why do you believe that the increase in Wales is so paltry in comparison to the increase in our neighbouring countries?

**The First Minister:** As regards Scotland, it is because there is more money available for energy companies. Scotland controls its renewable obligation certificates and so can draw investment into Scotland. We believe that Wales should be in the same position and we are still telling the UK Government that Wales should be given the same treatment as Scotland and Northern Ireland.

**Antoinette Sandbach:** Dynodwyd Ynys Môn yn 'Ynys ynni' gan eich Llywodraeth. O ganlyniad i'r dynodiad hwnnw, mae'n debygol y bydd yn rhaid uwchraddio'r grid cenedlaethol yn sylweddol a chael parth menter ynni ar Ynys Môn. Fodd bynnag, pan gafodd eich Llywodraeth y cyfle i ddylanwadu ar y seilwaith newydd ar y grŵp strategaeth rhwydweithiau trydan, yn enwedig o ran malltod peilon, a fydd yn effeithio ar gymunedau yng ngogledd Cymru, ni wnaeth eich swyddogion sefyll a siarad dros Gymru, er gwaethaf y ffaith bod swyddogion yr Alban wedi brwydro dro ar ôl tro, a hynny'n uchel eu cloch, i amddiffyn eu buddiannau cenedlaethol. A wnewch chi sicrhau pobl yng ngogledd Cymru, pan fydd eich Llywodraeth yn cael y cyfle i sefyll a siarad dros bobl yng ngogledd Cymru, y



byddwch yn manteisio ar y cyfle hwnnw?

**The First Minister:** I am not sure what the Member defines as ‘Wales’s national interests’. Is she saying that she is against Wylfa B? If she is, she should declare it here and now—with all of the job opportunities that Wylfa B will provide. I met National Grid two weeks ago, and that was not my first meeting with National Grid. As far as Ministers are concerned, we have regular meetings with National Grid with a view to ensuring that the grid structure is robust, but also that there is maximum benefit for the people of Wales. I know that the Member keeps on saying ‘Officials haven’t done this; officials haven’t done that’, but I can tell you that Ministers are doing a tremendous amount for the good of the people of Wales.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn siŵr beth yw diffiniad yr Aelod o ‘fuddiannau cenedlaethol Cymru’. Ydy hi’n dweud ei bod yn erbyn Wylfa B? Os yw hi, dylai hi ddatgan hynny nawr—gan gofio’r holl gyfleoedd gwaith y bydd Wylfa B yn eu darparu. Cwrddais â’r Grid Cenedlaethol bythefnos yn ôl, ac nid hwnnw oedd fy nghyfarfod cyntaf â’r Grid Cenedlaethol. Cyn belled ag y mae’r Gweinidogion yn y cwestiwn, rydym yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda’r Grid Cenedlaethol gyda golwg ar sicrhau bod strwythur y grid yn gadarn, ond hefyd i sicrhau’r budd gorau i bobl Cymru. Gwn fod yr Aelod yn dweud yn gyson ‘nid yw swyddogion wedi gwneud hyn, nid yw swyddogion wedi gwneud y llall’, ond gallaf ddweud wrthyh fod Gweinidogion yn gwneud gwaith aruthrol er lles pobl Cymru.

#### Anawsterau Iaith a Lleferydd

**12. Julie Morgan:** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i wella gwasanaethau i’r rheini sydd ag anawsterau iaith a lleferydd. OAQ(4)0743(FM)*

**The First Minister:** We propose to replace the statutory framework for the assessment and planning of provision for children and young people with special educational needs with a simpler, more person-centred system. We anticipate that this will have a positive impact on all learners, including those with speech and language difficulties.

**Julie Morgan:** I thank the First Minister for that response. A few weeks ago, I opened the British Stammering Association’s open day in Cardiff. Although the success of films such as *The King’s Speech* has highlighted the difficulties faced by people who stammer, there are still major problems. What more can the Welsh Government do to help people who stammer?

**The First Minister:** To add to what I said to the Member earlier, in June this year, the Minister announced the launch of the consultation on ‘Forward in Partnership for

#### Speech and Language Difficulties

**12. Julie Morgan:** *What is the Welsh Government doing to help improve services for those with speech and language difficulties. OAQ(4)0743(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn bwriadu disodli’r fframwaith statudol ar gyfer asesu a chynllunio darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig gyda system symlach, sy’n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bob dysgwyr, gan gynnwys y rhai ag anawsterau lleferydd ac iaith.

**Julie Morgan:** Diolchaf i’r Prif Weinidog am yr ateb yna. Ychydig wythnosau yn ôl, agorais ddiwrnod agored Cymdeithas Atal Dweud Prydain yng Nghaerdydd. Er bod llwyddiant ffilmiau fel *The King’s Speech* wedi tynnu sylw at yr anawsterau a wynebir gan bobl sydd ag atal dweud, mae problemau mawr yn dal i fod. Beth arall a all Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu pobl sydd ag atal dweud?

**Y Prif Weinidog:** I ychwanegu at yr hyn a ddywedais wrth yr Aelod yn gynharach, ym mis Mehefin eleni, cyhoeddodd y Gweinidog lansiad yr ymgynghoriad ‘Ymlaen mewn

Children and Young People with Additional Needs', which sets out our proposals for reform. As I mentioned earlier, the intention is to create a truly person-centred system that will help all of those with speech and language difficulties, including those who stammer.

**Darren Millar:** First Minister, one group of people who very often need urgent access to speech and language therapy are those who have been victims of a stroke—stroke patients. The ability to access speech and language therapy quickly has a huge impact on that person's ability to communicate and, indeed, to feed themselves after a stroke. What are you doing to address the needs of stroke patients in being able to access this service more quickly in the future than is currently the case, given some of the pressures on staffing in some parts of Wales?

**The First Minister:** It is done through the 1000 Lives Plus national programme. We want to ensure that specialist stroke services are being organised and provided in such a way that those who have a stroke should have the appropriate care, particularly in the short period after they have had a stroke. Speech and language therapists are core members of the multi-disciplinary teams that have a key role to play in the hours and days following a stroke.

### Treftadaeth Dwyrain De Cymru

**13. William Graham:** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo treftadaeth Dwyrain De Cymru. OAQ(4)0748(FM)*

**The First Minister:** They are to be found in the programme for government. We want to make sure that our heritage is properly protected. The Member will know that we plan to produce a heritage protection Bill during the life of this Assembly.

**William Graham:** Thank you very much for your answer, First Minister. I certainly welcome the introduction of that Bill, and we look forward to seeing its content. I would

Partneriaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Ychwanegol', sy'n nodi ein cynigion ar gyfer diwygio. Fel y soniais yn gynharach, y bwriad yw creu system sydd wir yn canolbwyntio ar yr unigolyn, a fydd yn helpu pawb ag anawsterau lleferydd ac iaith, gan gynnwys y rhai sydd ag atal dweud.

**Darren Millar:** Brif Weinidog, un grŵp o bobl sydd yn aml angen mynediad brys at therapi lleferydd ac iaith yw'r rheiny sydd wedi dioddef strôc—cleifion strôc. Mae'r gallu i gael mynediad at therapi lleferydd ac iaith yn gyflym yn cael effaith enfawr ar allu'r person hwnnw i gyfathrebu ac, yn wir, i fwydo ei hunan ar ôl cael strôc. Beth ydych chi'n ei wneud i fynd i'r afael ag anghenion cleifion strôc o ran gallu cael gafael ar y gwasanaeth hwn ynghynt yn y dyfodol nag ar hyn o bryd, o ystyried y pwysau ar staffio mewn rhai rhannau o Gymru?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n cael ei wneud drwy'r rhaglen genedlaethol 1000 o Fywydau a Mwy. Rydym yn dymuno sicrhau bod gwasanaethau strôc arbenigol yn cael eu trefnu a'u darparu yn y fath fodd fel bod y rhai sydd wedi cael strôc yn cael y gofal priodol, yn enwedig yn y cyfnod cynnar ar ôl iddynt gael strôc. Mae therapyddion lleferydd ac iaith yn aelodau craidd o'r timau aml-ddisgyblaethol sydd â rôl allweddol i'w chwarae yn yr oriau a'r dyddiau yn dilyn strôc.

### The Heritage of South Wales East

**13. William Graham:** *Will the First Minister outline the Welsh Government's policies for promoting the heritage of South Wales East. OAQ(4)0748(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Maent i'w gweld yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod ein treftadaeth yn cael ei hamddiffyn yn briodol. Bydd yr Aelod yn gwybod ein bod yn bwriadu cynhyrchu Mesur Diogelu Treftadaeth yn ystod oes y Cynulliad hwn.

**William Graham:** Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Brif Weinidog. Rwyf yn sicr yn croesawu cyflwyno'r Mesur hwnnw, ac edrychwn ymlaen at weld ei gynnwys.

like to ask you a question regarding the medieval ship in Newport. You will know that the present funding expires in 2014, together with the lease for the building. Will you commit, yet again, to this particular project, which almost everybody agrees is a national treasure for Wales?

**The First Minister:** Yes, we would be happy as a Government to respond to any request from the council to have Welsh Government officials from CyMAL, regeneration and Cadw to join the working group to plan this project through to the final display. Therefore, if such a request came, we would of course consider it favourably.

**Jocelyn Davies:** First Minister, last February, the Twmbarlwm Society was delighted when you agreed to visit the ancient monument with me to see the extensive erosion resulting from illegal motorcycle use. I think that you said at the time that you would come with me 'in the fullness of time'. First Minister, when is the fullness of time?

**The First Minister:** Soon. [*Laughter.*] I know that there will be some in my private office—at least, I trust there are—who will be following these questions to the First Minister, and they will follow this up for you.

#### Adeiliadau Ysgolion

**14. Mohammad Asghar:** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella ansawdd adeiladau ysgolion yng Nghymru. OAQ(4)0740(FM)*

**The First Minister:** The twenty-first century schools programme underpins our commitment to improve the quality of the schools estate, and we have committed £700 million over the next seven years to support the programme.

2.15 p.m.

**Mohammad Asghar:** Thank you for that answer, First Minister. The discovery of asbestos has led to the closure of Cwmcarn

Hoffwn ofyn cwestiwn i chi ynghylch y llong ganoloesol yng Nghasnewydd. Byddwch yn gwybod bod yr arian presennol yn dod i ben yn 2014, ynghyd â'r brydles ar gyfer yr adeilad. A wnewch chi ymrwymo, unwaith eto, i'r prosiect penodol hwn sydd, fel y mae bron pawb yn cytuno, yn drysor cenedlaethol i Gymru?

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, byddem yn hapus fel Llywodraeth i ymateb i unrhyw gais gan y cyngor i gael swyddogion Llywodraeth Cymru o CyMAL, adfywio a Cadw i ymuno â'r gweithgor i gynllunio'r prosiect hwn hyd at yr arddangosfa derfynol. Felly, pe byddai cais o'r fath yn dod, byddem wrth gwrs yn ei ystyried yn ffafriol.

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, fis Chwefror diwethaf, roedd Cymdeithas Twmbarlwm yn hynod falch pan wnaethoch gytuno i ymweld â'r heneb gyda mi i weld yr erydu helaeth sy'n deillio o ddefnyddio beiciau modur yn anghyfreithlon. Credaf i chi ddweud ar y pryd y byddech yn dod gyda mi 'yng nghyflawnder amser'. Brif Weinidog, pryd mae cyflawnder yr amser?

**Y Prif Weinidog:** Cyn bo hir. [*Chwerthin.*] Gwn y bydd rhai yn fy swyddfa breifat—o leiaf, rwyf yn gobeithio—a fydd yn gwneud gwaith dilynol ar y cwestiynau hyn i'r Prif Weinidog, a byddant yn gwneud gwaith dilynol ar hyn i chi.

#### School Buildings

**14. Mohammad Asghar:** *What is the Welsh Government doing to improve the quality of school buildings in Wales. OAQ(4)0740(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn tanategu ein hymrwymiad i wella ansawdd yr ystad ysgolion, ac rydym wedi ymrwymo £700 miliwn dros y saith mlynedd nesaf i gefnogi'r rhaglen.

**Mohammad Asghar:** Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae darganfod asbestos wedi arwain at gau Ysgol Uwchradd

High School, with plans to relocate the school temporarily to Ebbw Vale at a cost of nearly £1.5 million. A report in the *South Wales Argus* revealed that most of the 265 schools in Gwent contain asbestos, including 53 in Newport alone. Since asbestos in the single greatest cause of work-related deaths in the United Kingdom, will the First Minister commit his Government to implementing a programme for the safe removal of asbestos from Welsh schools, starting with those most at risk, as a matter of urgency, please?

**The First Minister:** It is a matter for local authorities to ensure that schools are safe, but my understanding is that, if asbestos is kept in situ, it is not in itself dangerous. It becomes dangerous if it is cut. Different types of asbestos are more dangerous than others, though they are all dangerous, and diseases such as mesothelioma result from asbestos dust. It is important to stress that the fact that a building has asbestos in it does not mean that it is necessarily unsafe, although it is right to say that, over time, it would be good practice to replace asbestos in our schools.

**Lindsay Whittle:** First Minister, I am afraid that Mohammad Asghar was slightly incorrect in what he said. Owing to the closure of Cwmcarn High School, Caerphilly council has announced extra spending of £1.5 million, including £800,000 from its reserves, to transfer pupils temporarily to the site at Ebbw Vale, and not for the rebuilding of the school, which is a much different situation. The situation is obviously very costly and there are no plans to build a new school because no money is available. What help can you give to Caerphilly County Borough Council regarding this, and what are your plans should similar situations arise in schools in other authorities?

**The First Minister:** We will consider any application for funding that comes from Caerphilly. We cannot give any guarantees at this stage, but we want to work with local authorities that face this situation, so that

Cwmcarn, gyda chynlluniau i adleoli'r ysgol dros dro i Lyn Ebwy ar gost o bron i £1.5 miliwn. Mae adroddiad yn y *South Wales Argus* wedi datgelu bod y rhan fwyaf o'r 265 o ysgolion yng Ngwent yn cynnwys asbestos, gan gynnwys 53 yng Nghasnewydd yn unig. Gan mai asbestos yw'r achos unigol mwyaf o farwolaethau sy'n gysylltiedig â gwaith yn y Deyrnas Unedig, a fydd y Prif Weinidog yn ymrwymo ei Lywodraeth i weithredu rhaglen ar gyfer cael gwared ar asbestos yn ddiogel o ysgolion Cymru, gan ddechrau gyda'r rhai sydd fwyaf mewn perygl, fel mater o frys, os gwelwch yn dda?

**Y Prif Weinidog:** Mater i awdurdodau lleol yw sicrhau bod ysgolion yn ddiogel, ond fy nealltwriaeth i yw, os yw asbestos yn cael ei adael yn ei le, nid yw ynddo'i hun yn beryglus. Mae'n dod yn beryglus os yw'n cael ei dorri. Mae gwahanol fathau o asbestos yn fwy peryglus nag eraill, er eu bod i gyd yn beryglus, ac mae afiechydon fel mesothelioma yn digwydd o ganlyniad i lwch asbestos. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r ffaith bod asbestos mewn adeilad yn golygu ei fod o reidrwydd yn anniogel, er ei bod yn iawn i ddweud y byddai, dros gyfnod o amser, yn arfer da i waredu'r asbestos o'n hysgolion.

**Lindsay Whittle:** Brif Weinidog, mae arnaf ofn bod Mohammad Asghar ychydig yn anghywir yn yr hyn a ddywedodd. Oherwydd cau Ysgol Uwchradd Cwmcarn, mae cyngor Caerffili wedi cyhoeddi gwariant ychwanegol o £1.5 miliwn, gan gynnwys £800,000 o'i gronfeydd wrth gefn, i drosglwyddo disgyblion dros dro i'r safle yng Nglyn Ebwy, ac nid ar gyfer ailadeiladu'r ysgol, sydd yn sefyllfa wahanol iawn. Mae'r sefyllfa yn amlwg yn gostus iawn ac nid oes unrhyw gynlluniau i adeiladu ysgol newydd oherwydd nad oes arian ar gael. Pa help y gallwch ei roi i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ynglŷn â hyn, a beth yw eich cynlluniau pe byddai sefyllfaoedd tebyg yn codi mewn ysgolion mewn awdurdodau eraill?

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn ystyried unrhyw gais am gyllid sy'n dod o Gaerffili. Ni allwn roi unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd, ond rydym yn awyddus i weithio gydag awdurdodau lleol sy'n wynebu'r sefyllfa hon,

pupils can be housed in an appropriate building as quickly as possible.

fel y gall disgyblion gael eu cartrefu mewn adeilad priodol cyn gynted ag y bo modd.

### Y Rhaglen Ddeddfwriaethol

### The Legislative Programme

**15. Ieuan Wyn Jones:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0738(FM)*

**15. Ieuan Wyn Jones:** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's legislative programme. OAQ(4)0738(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Cafodd rhaglen ddeddfwriaethol pum mlynedd y Llywodraeth ei chyflwyno i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf 2011.

**The First Minister:** The Government's five-year legislative programme was set out to the Assembly in July 2011.

**Ieuan Wyn Jones:** Brif Weinidog, mewn ateb i gwestiwn blaenorol gan Mike Hedges, gwnaethoch gefnogi rhinweddau cynllun pwerau neilltuedig. A fydech yn fodlon mynd gam ymhellach a dweud y bydech yn cefnogi cymal i'r perwyl hwnnw mewn Deddf Cymru ddiwygiedig?

**Ieuan Wyn Jones:** First Minister, in response to a previous question from Mike Hedges, you supported the merits of a reserved powers scheme. Would you be prepared to go further and say that you would be prepared to support a clause to that effect in an amended Wales Act?

**Y Prif Weinidog:** Byddai unrhyw gymal yn cael ei ystyried pan gâi unrhyw Fil ei gyflwyno.

**The First Minister:** Any such clause would be considered if and when such a Bill were to be introduced.

**William Graham:** With regard to your legislative programme, I am sure that you would agree that the prime responsibility for us all should be to improve the economic situation in Wales as soon as possible. Will you recommit to that?

**William Graham:** O ran eich rhaglen ddeddfwriaethol, yr wyf yn siŵr y bydech yn cytuno mai gwella'r sefyllfa economaidd yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd ddylai fod y prif gyfrifoldeb i bob un ohonom. A wnewch chi ailymrwymo i hynny?

**The First Minister:** As a Government, we want to create jobs and growth in Wales, and we believe that the programmes that we have put in place, such as the SME growth fund, the Wales growth fund, the life sciences fund, the loans for microbusinesses and others all add up to a substantial programme of economic regeneration in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Fel Llywodraeth, rydym eisiau creu swyddi a thwf yng Nghymru, ac rydym yn credu bod y rhaglenni yr ydym wedi'u rhoi ar waith, megis y gronfa twf busnesau bach a chanolig, cronfa twf Cymru, y gronfa gwyddorau bywyd, y benthyciadau i feicrofusnesau ac eraill i gyd gyda'i gilydd yn cynrychioli rhaglen sylweddol o adfywiad economaidd yng Nghymru.

## Cwestiwn Brys Urgent Question

### Ymchwiliad Newydd i Gam-drin Plant A New Inquiry into Child Abuse

**Aled Roberts:** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gais Comisiynydd Plant Cymru i lansio ymchwiliad newydd i gam-*

**Aled Roberts:** *Will the First Minister make a statement on the request from the Children's Commissioner for Wales to launch a new*

*drin plant mewn cartrefi gofal yng ngogledd Cymru. EAQ(4)0769(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n gwybod am y sefyllfa sydd wedi digwydd. Mae datganiad ysgrifenedig wedi cael ei roi i Aelodau y bore yma. Fel y dywedais yn gynharach, byddaf yn cwrdd â'r comisiynydd plant i ystyried beth ddylai gael ei wneud nesaf o gofio am y datganiadau sydd wedi dod gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

**Aled Roberts:** Rwyf hefyd yn cefnogi eich datganiad y bore yma. Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi gwneud datganiad dros yr awr ginio yn dweud y bydd ymchwiliad i weithredoedd yr heddlu, a fydd yn adrodd yn ôl erbyn mis Ebrill y flwyddyn nesaf. A oes gennych unrhyw wybodaeth ar hyn o bryd am amserlen yr ymchwiliad i'r materion eraill yr oedd Prif Weinidog y Deyrnas Unedig yn delio â hwy ddoe?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn gwybod mwy na'r hyn sydd yn natganiad y prynhawn yma, ond mae'n wir dweud ein bod wedi gweithio gyda swyddogion a gwleidyddion Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau bod yr ymateb yn un unedig o ran y ffordd ymlaen.

**Ann Jones:** I, too, had submitted an urgent question on this very difficult situation, and I am grateful that you have allowed an urgent question to be tabled, Presiding Officer. I believe that the children's commissioner was right to write to you, First Minister, asking for an inquiry into what happened back in the 1970s and 1980s. As you said, the role of the children's commissioner was born from a recommendation from Sir Ronald Waterhouse's inquiry. Much of what I had intended to say has been covered, and I am grateful that you have indicated that resources will be available to those advocacy agencies, including the children's commissioner's office, that will have to deal with those people coming forward. I am very grateful that you made that decision today. Thank you.

**The First Minister:** I thank the Member for her comments. I do not think that I can add to what I have already said to the Chamber,

*inquiry into abuse at care homes in North Wales. EAQ(4)0769(FM)*

**The First Minister:** I know of the situation that has occurred. A written statement was issued to Members this morning. As I said earlier, I will be meeting with the children's commissioner to consider what our next steps should be, bearing in mind the statements that have come from the United Kingdom Government.

**Aled Roberts:** I also support the statement that you issued this morning. The Home Secretary made a statement over the lunch hour saying that there will be an inquiry into the activities of the police, and that is to report back by April of next year. Do you have any information at the moment about the timetable for the inquiry into the other issues that the Prime Minister discussed yesterday?

**The First Minister:** I do not know any more than what was contained in this afternoon's statement, but it is true to say that we have been working with officials and politicians in the United Kingdom Government to ensure that the response is a united one on the way forward.

**Ann Jones:** Rwyf finnow, hefyd, wedi cyflwyno cwestiwn brys ar y sefyllfa hynod o anodd hon, ac rwyf yn ddiolchgar eich bod wedi caniatáu i gwestiwn brys gael ei gyflwyno, Lywydd. Credaf fod y comisiynydd plant yn iawn i ysgrifennu atoch, Brif Weinidog, yn gofyn am ymchwiliad i'r hyn a ddigwyddodd yn ôl yn y 1970au a'r 1980au. Fel y dywedoch, sefydlwyd swydd y comisiynydd plant yn sgil argymhelliad yn ymchwiliad Syr Ronald Waterhouse. Ymdriniwyd eisoes â llawer o'r hyn yr oeddwn wedi bwriadu ei ddweud, ac rwyf yn ddiolchgar eich bod wedi nodi y bydd adnoddau ar gael i'r asiantaethau eiriolaeth hynny, gan gynnwys swyddfa'r comisiynydd plant, a fydd yn gorfod delio â'r bobl hynny sy'n dod ymlaen. Rwyf yn ddiolchgar iawn eich bod wedi gwneud y penderfyniad hwnnw heddiw. Diolch.

**Y Prif Weinidog:** Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Nid wyf yn meddwl y gallaf ychwanegu at yr hyn yr wyf eisoes wedi ei

other than to emphasise once again how seriously the Welsh Government takes these allegations. I know that the UK Government views them in the same way.

**Mark Isherwood:** It is now several years since Mr Messham made his allegations to me. I have shared those confidentially with the NSPCC and will not say any more about that. However, it is also several years since the solicitor who represented Mr Messham against false charges of benefit fraud stated publicly that he was threatened and intimidated, and it is several years since the internal audit manager in Flintshire, when asked to investigate matters relating to the Waterhouse tribunal, stated that he was threatened and intimidated. Will you ensure that any inquiry or investigation takes into account that there was protected disclosure, in the employment tribunal action that Flintshire's internal audit manager, Mr Sutton, brought and won, that massive salaries and overtime payments were paid to an administrative worker servicing the Waterhouse inquiry into child sexual abuse, knowing that Sir Ron Waterhouse told me in person that he had come to believe that documentation was withheld from his inquiry?

**The First Minister:** The Member makes serious allegations, and these need to be investigated. It is important that any police investigation is conducted by a body from outside north Wales. The UK Government has put that in place. That is essential for there to be complete confidence in any investigation or inquiry. It is also important that we include the children's commissioner's office, a body that did not exist at the time the allegations were made, and so it is untainted, if I may put it that way, by any of the allegations made in the past. People will have the opportunity to make their allegations, to present evidence and make their views known to the children's commissioner. However, it is absolutely crucial that these allegations be investigated thoroughly and via a process involving both Governments that inspires confidence in the

ddweud wrth y Siambr, ac eithrio i bwysleisio unwaith eto ystyriaeth pa mor ddifrifol y mae'r Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r honiadau hyn. Gwn fod Llywodraeth y DU yn eu hystyried yn yr un modd.

**Mark Isherwood:** Mae nifer o flynyddoedd wedi mynd heibio bellach ers i Mr Messham wneud ei honiadau i mi. Rwyf wedi eu rhannu'n gyfrinachol gyda'r NSPCC ac nid wyf am ddweud dim mwy am hynny. Fodd bynnag, mae hefyd nifer o flynyddoedd ers i'r cyfreithiwr a oedd yn cynrychioli Mr Messham yn erbyn cyhuddiadau ffug o dwyll budd-dal ddatgan yn gyhoeddus iddo gael ei fygwth a'i ddychryn; ac mae sawl blwyddyn ers i'r rheolwr archwilio mewnol yn Sir y Fflint ddatgan, pan ofynnwyd iddo ymchwilio i faterion yn ymwneud â thribiwnlys Waterhouse, ddatgan iddo gael ei fygwth a'i ddychryn. A wnewch chi sicrhau bod unrhyw ymholiad neu ymchwiliad yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith y bu datgeliad gwarchodedig yn achos y tribiwnlys cyflogaeth a gyflwynodd ac yr enillodd rheolwr archwilio mewnol Sir y Fflint, Mr Sutton; ac i'r ffaith y talwyd cyflogau a thaliadau goramser enfawr i weithiwr gweinyddol a oedd yn gwasanaethu ymchwiliad Waterhouse i gam-drin plant yn rhywiol, gan wybod y dywedodd Syr Ron Waterhouse wrthyf yn bersonol ei fod wedi dod i gredu yr ataliwyd dogfennau oddi wrth ei ymchwiliad?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Aelod yn gwneud honiadau difrifol, ac mae angen ymchwilio iddynt. Mae'n bwysig bod unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu yn cael ei gynnal gan gorff o'r tu allan i ogledd Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi hynny ar waith. Mae hynny'n hanfodol er mwyn sicrhau y ceir hyder llwyr mewn unrhyw ymchwiliad neu ymholiad. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn cynnwys swyddfa'r comisiynydd plant. Nid oedd y corff hwn yn bodoli ar yr adeg y gwnaed yr honiadau, ac felly nid yw wedi ei ddifwyno, os caf ei roi felly, gan yr honiadau a wnaed yn y gorffennol. Bydd cyfle i bobl wneud eu honiadau, cyflwyno tystiolaeth a mynegi eu barn i'r comisiynydd plant. Fodd bynnag, mae'n gwbl hanfodol yr ymchwiliad yn drylwyr i'r honiadau hyn a hynny trwy broses sy'n cynnwys y ddwy Lywodraeth ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd.

public.

**Jocelyn Davies:** First Minister, yesterday, you said that it needed more than one person to come forward before an inquiry was justified. As another victim has now contacted you—I heard his interview on the radio yesterday evening—are you now minded to have an inquiry? I am sure that you recall the inquiry into John Owen’s abuse of pupils in his care. That inquiry came about because families and victims came to several Assembly Members, including me, because of a failure to follow up previous allegations and, of course, some people refusing to believe that such an important person was capable of such abuse. You will recall that that inquiry had to be as accessible and sensitive as possible in dealing with those victims. I am sure that, in your discussions with the UK Government and the children’s commissioner, you will take that into consideration.

I am sure that you will also agree that, when there are allegations that the rich and the powerful have protected their own against detection, it is very important for justice that any inquiry that follows must encounter as little constraint as possible and be as open and transparent as possible. That is not just for the delivery of justice; as I am sure you agree, First Minister, what we really need to do now is restore public confidence that we are capable of dealing with matters such as this.

**The First Minister:** As of yesterday, there was one witness. A full judicial public inquiry would not have been appropriate in the circumstances. There are a number of ways in which this issue can be addressed. The UK Government has dealt with the non-devolved issues. The Welsh Government does not have the power to call a public inquiry that involves agencies operating in non-devolved areas, which is why it is important that there is agreement between Governments as to how this is taken forward. I think that that is the sensible way forward. Having competing inquiries does not make sense for the victims and does not look right

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, ddoe, dywedoch fod angen i fwy nag un person ddod ymlaen cyn y gellid cyfiawnhau ymchwiliad. Gan fod dioddefwr arall wedi cysylltu â chi erbyn hyn—clywais ei gyfweiliad ar y radio neithiwr—a ydych yn awr yn ystyried cynnal ymchwiliad? Rwyf yn siŵr eich bod yn cofio’r ymchwiliad i gamdriniaeth disgyblion a oedd yng ngofal John Owen. Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwnnw am i deuluoedd a dioddefwyr ddod at nifer o Aelodau’r Cynulliad, gan gynnwys fi, oherwydd nad ymchwiliwyd i honiadau blaenorol ac, wrth gwrs, oherwydd bod rhai pobl yn gwrthod credu y gallai rhywun mor bwysig gyflawni camdriniaeth o’r fath. Byddwch yn cofio bod angen i’r ymchwiliad hwnnw fod mor hygyrch a sensitif ag y bo modd wrth ymdrin â’r dioddefwyr hynny. Rwyf yn siŵr y byddwch yn rhoi ystyriaeth i hynny, yn eich trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a’r comisiynydd plant.

Rwyf yn siŵr y byddwch hefyd yn cytuno ei bod yn bwysig iawn er lles cyfiawnder, pan wneir honiadau bod y cyfoethog a’r pwerus wedi gwarchod eu tebyg rhag cael eu dal, y rhoddir cyn lleied o gyfyngiadau â phosibl ar unrhyw ymchwiliad sy’n dilyn, a’i fod mor agored a thryloyw ag y bo modd. Mae hyn yn wir, nid yn unig ar gyfer y broses o weinyddu cyfiawnder. Rwyf yn siŵr eich bod yn cytuno, Brif Weinidog, mai’r hyn y mae gwir angen i ni ei wneud yn awr yw adfer hyder y cyhoedd bod y gallu gennym i ymdrin â materion fel hyn.

**Y Prif Weinidog:** Un tyst a oedd gennym ddoe. Ni fyddai ymchwiliad cyhoeddus barnwrol llawn wedi bod yn briodol o dan yr amgylchiadau. Gellir mynd i’r afael â’r mater hwn mewn nifer o ffyrdd. Mae Llywodraeth y DU wedi ymdrin â’r materion sydd heb eu datganoli. Nid oes gan Lywodraeth Cymru y pŵer i alw ymchwiliad cyhoeddus sy’n cynnwys asiantaethau sy’n gweithredu mewn meysydd nas datganolwyd, a dyna pam ei bod yn bwysig cael cytundeb rhwng Llywodraethau ar sut y dylid symud ymlaen â hyn. Rwy’n credu mai dyna’r ffordd synhwyrol ymlaen. Nid yw’n gwneud synnwyr i’r dioddefwyr gael ymchwiliadau



in the public eye.

The Member is right to refer to the Clywch inquiry conducted by the children's commissioner. That is one issue that I will raise with the children's commissioner this afternoon. Judicial public inquiries are important and they have their role, but they take time—quite often, years—and that is not always in the interests of victims when there are perhaps better, equally transparent and more effective ways to deal with the allegations that they raise. As I said earlier, I will examine all possibilities with the children's commissioner, particularly in view of what the Home Secretary has said today. Then I will issue a statement as to the way forward.

**Sandy Mewies:** First Minister, this has been a fast-changing situation in one way, but a very long-standing situation in another. I am pleased to see the response that you have made to date, but I want to echo Ann Jones's view that victims need justice and that, if victims are prepared to come forward, they must have every support and the counselling that they need to see them through a difficult situation. I hope that we will continue to work to see that that is the case.

**The First Minister:** It is exceptionally important to make sure that people still have access to counselling. I have no doubt that there will be people who have no wish to revisit what they went through, for understandable reasons. There will also be those who do, for equally understandable reasons. People react in different ways given the very stressful and appalling circumstances.

On the UK Government's announcement, it appears that it wants to examine the terms of reference of Waterhouse, to see whether they were too narrowly drawn. It also appears that it wants to examine whether that inquiry was properly conducted, which takes things a step further and draws on what the Member for South Wales East mentioned earlier. Bearing in mind all these things and what has been

sy'n cystadlu â'i gilydd ac nid yw'n siarad â'r cyhoedd yn ddiflewyn-ar-dafod.

Mae'r Aelod yn iawn i gyfeirio at yr ymchwiliad Clywch a gynhaliwyd gan y comisiynydd plant. Dyna un mater y byddaf yn ei godi gyda'r comisiynydd plant brynhawn heddiw. Mae ymchwiliadau cyhoeddus barnwrol yn bwysig ac mae ganddynt eu lle, ond maent yn cymryd amser—blynyddoedd yn eithaf aml—ac nid yw hynny bob amser er budd dioddefwyr pan fo ffyrdd sydd o bosibl yn well, yr un mor dryloyw ac yn fwy effeithiol, o ddelio â'r honiadau a godwyd. Fel y dywedais yn gynharach, byddaf yn archwilio'r holl bosibiliadau gyda'r comisiynydd plant, yn enwedig o ystyried yr hyn y mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi ei ddweud heddiw. Yna byddaf yn cyhoeddi datganiad ynghylch y ffordd ymlaen.

**Sandy Mewies:** Brif Weinidog, mae'r sefyllfa hon wedi newid yn gyflym mewn un ffordd, ond mae wedi bod yn sefyllfa hynod o hirhoedlog mewn ffordd arall. Rwyf yn falch o weld eich ymateb hyd yn hyn, ond rwyf am ategu barn Ann Jones bod ar ddiodefwyr angen cyfiawnder a bod yn rhaid iddynt gael pob cefnogaeth, a'r cwnsela sydd eu hangen arnynt i'w cynorthwyo trwy sefyllfa anodd, os ydynt yn barod i ddod yn eu blaenau. Gobeithiaf y byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod hynny'n digwydd.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n eithriadol o bwysig gwneud yn siŵr bod gwasanaethau cwnsela yn dal i fod ar gael i bobl. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd rhai pobl na fydd ganddynt unrhyw awydd i fynd yn ôl trwy'r profiadau a gawsant, am resymau dealladwy. Bydd pobl eraill yn dymuno gwneud hynny, am resymau yr un mor ddealladwy. Mae pobl yn ymateb mewn ffyrdd gwahanol i amgylchiadau erchyll a llawn straen o'r fath.

O ran cyhoeddiad Llywodraeth y DU, mae'n ymddangos ei bod yn awyddus i edrych ar gylch gorchwyl Waterhouse, i weld a oeddent yn rhy gul. Mae hefyd yn ymddangos ei bod am archwilio pa un a gynhaliwyd yr ymchwiliad hwnnw'n briodol, sy'n mynd â phethau gam ymhellach ac yn ymwneud â'r hyn a grybwyllwyd gan yr Aelod dros Ddwyrain De Cymru yn gynharach. Gan

announced by the UK Government, in respect of devolved areas of responsibility, I want to explore with the children's commissioner—who is an arm's-length commissioner, and rightly so—how we can examine the allegations from a devolved point of view, while ensuring that we work with the UK Government to get at what we all want to get at, namely the truth.

**Julie Morgan:** I also want to ask the First Minister to do all that he can to ensure that there is a support system in place for any people who come forward. These events may have happened to them years ago, but they may still be traumatised by them and may find it difficult to go to authorities who they think may have let them down in the past. Will he do all that he can to ensure that that support system is there, with extra resources if necessary, perhaps for the children's commissioner, to ensure that we do not make these people suffer again?

**The First Minister:** Yes. Although the children's commissioner's office does not have counsellors, it does have an advice line and people who can take information from people. I understand that it is also able to signpost people towards counselling. I suggest that people out there who have concerns follow that route to ensure that they are able to see not just somebody who will listen to them, but somebody who can help them with the trauma that they are facing.

### **Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement**

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have several changes to report to this week's planned business. Later today, the Minister for Education and Skills will make a statement on higher education reconfiguration. To accommodate that, the statement on the 'Together for Health' six-month progress report has been postponed until next week. The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science will also make a statement today on the response to the Powys

ystyried yr holl bethau hyn a chyhoeddiad Llywodraeth y DU, mewn cysylltiad â meysydd cyfrifoldeb datganoledig, rwyf am drafod gyda'r comisiynydd plant—sy'n gomisiynydd hyd braich, fel y dylai fod—sut y gallwn archwilio'r honiadau o safbwynt datganoledig, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddarganfod y gwir, sef yr hyn yr ydym oll am ei wneud.

**Julie Morgan:** Rwyf hefyd am ofyn i'r Prif Weinidog wneud popeth yn ei allu i sicrhau bod system gymorth ar gael ar gyfer unrhyw un sy'n dod ymlaen. Efallai bod y digwyddiadau hyn flynyddoedd yn y gorffennol, ond fe allent fod yn peri gofid mawr iddynt o hyd, ac fe allent ei chael yn anodd mynd at awdurdodau sydd yn eu barn hwy wedi eu siomi yn y gorffennol. A fydd yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod y system gymorth yno, gydag adnoddau ychwanegol os oes angen, efallai ar gyfer y comisiynydd plant, er mwyn sicrhau nad ydym yn gwneud i'r bobl hyn ddiodef unwaith eto?

**Y Prif Weinidog:** Byddaf. Er nad oes gan swyddfa'r comisiynydd plant gwrselwyr, mae yno linell gyngor a phobl sy'n gallu cymryd gwybodaeth gan bobl. Rwyf yn deall y gall hefyd gyfeirio pobl at wasanaeth cwnsela. Rwyf yn awgrymu y dylai pobl sydd â phryderon ddilyn y llwybr hwnnw i sicrhau eu bod yn gallu gweld rhywun a fydd yn gwranddo arnynt, ond hefyd rywun a all eu helpu â'r trawma y maent yn ei hwynebu.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae angen i mi hysbysu ynglŷn â nifer o newidiadau i fusnes arfaethedig yr wythnos hon. Yn ddiweddarach heddiw, bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gwneud datganiad ar ad-drefnu addysg uwch. I ddarparu ar gyfer hynny, gohiriwyd y datganiad ar yr adroddiad chwe-misol ar 'Law yn Llaw at Iechyd', tan yr wythnos nesaf. Bydd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth hefyd yn gwneud datganiad heddiw ar yr ymateb i adroddiad y

local growth zones task and finish group report. To accommodate that, the statement on the science strategy has been postponed and will be rescheduled. Finally, the Business Committee has agreed to postpone tomorrow's short debate. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which is available among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Antoinette Sandbach:** Minister, there was a request by me, and at least one other person, for an urgent question today on the Chalaria outbreak. I am sure that you are aware of the potential consequences of this disease for Wales, and it is important that we have a debate on the issue as soon as possible.

2.30 p.m.

Secondly, in relation to my question to the Minister for Health and Social Services on 24 October with regard to a review of out-of-hours services, the Minister put on record that she had no plans to renegotiate GP contracts. On 25 October, the following day, an official Welsh Government announcement stated that the Minister was calling for further changes to the GP contract to support the delivery of improved services. Could we have a statement on why the Assembly was told one thing on 24 October and the public was told something else on 25 October?

**Jane Hutt:** Clearly, questions have been asked about the situation in relation to Chalaria. The Minister did not feel it was urgent in terms of a response at this stage, but he will certainly report to Members in due course on impacts in Wales. The issue that you raise with regard to GP contracts is important. The handling of this by the Minister is quite clear: the Welsh Government has offered GPs in Wales a 1.5% increase in investment in general practice to support the delivery of improved services for patients. The Minister has also thanked GPs for their hard work and commitment to the NHS and their patients.

grŵp gorchwyl a gorffen am ardaloedd twf lleol Powys. I ddarparu ar gyfer hynny, mae'r datganiad ar y strategaeth wyddoniaeth wedi cael ei ohirio a bydd yn cael ei aildefnu. Yn olaf, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i ohirio'r ddadl fer yfory. Bydd busnes y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w gweld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, cafwyd cais gennyf i, ac o leiaf un person arall, am gwestiwn brys heddiw ar yr achosion o Chalaria. Rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o ganlyniadau posibl y clefyd hwn yng Nghymru, ac mae'n bwysig ein bod yn cael dadl ar y mater hwn cyn gynted ag y bo modd.

Yn ail, mewn cysylltiad â'm cwestiwn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 24 Hydref o ran adolygiad o'r gwasanaethau tu allan i oriau arferol, nododd y Gweinidog ar goedd nad oedd ganddi unrhyw gynlluniau i ail-drafod contractau meddygon teulu. Ar 25 Hydref, y diwrnod canlynol, dywedwyd mewn cyhoeddiad swyddogol gan Lywodraeth Cymru bod y Gweinidog yn galw am newidiadau ychwanegol i'r contract â meddygon teulu er mwyn cynorthwyo i ddarparu gwell gwasanaethau. A allem gael datganiad ynglŷn â pham y dywedwyd un peth wrth y Cynulliad ar 24 Hydref ac y dywedwyd rhywbeth arall wrth y cyhoedd ar 25 Hydref?

**Jane Hutt:** Yn amlwg, gofynnwyd cwestiynau am y sefyllfa ynglŷn â Chalaria. Nid oedd y Gweinidog yn teimlo ei fod yn fater yr oedd angen gwneud ymateb brys iddo ar hyn o bryd, ond bydd yn sicr yn cyflwyno adroddiad i'r Aelodau maes o law ar yr effeithiau yng Nghymru. Mae'r mater a godwch ynghylch contractau meddygon teulu yn bwysig. Mae ymdriniaeth y Gweinidog o hyn yn eithaf clir: mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig i feddygon teulu yng Nghymru gynnydd o 1.5% yn y buddsoddiad mewn ymarfer cyffredinol er mwyn cynorthwyo i ddarparu gwell gwasanaethau i gleifion. Mae'r Gweinidog hefyd wedi diolch i

feddygon teulu am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i'r GIG a'u cleifion.

**Rebecca Evans:** At the end of October, all health boards and trusts in Wales submitted their local information and consultation strategies for carers to the Minister for Health and Social Services, outlining how they intend to deliver on their fundamental role of supporting, informing and consulting with carers. It is my understanding that the Minister for Health and Social Services will accept or reject these plans within eight weeks. I would welcome a statement in due course therefore from the Government detailing the Minister's response to each of those strategies, and an update on how the Welsh Government intends to support and monitor the strategies' implementation so that carers get the help and information they need.

**Jane Hutt:** I thank the Member for that question. This is a matter that the Deputy Minister for Social Services is handling. She will issue a written statement on the carers information and consultation strategies in January, once they have been assessed. Of course, we are providing significant financial support, amounting to £3.8 million over three years, to local health boards and their partner local authorities to implement these important strategies for carers.

**Andrew R.T. Davies:** Minister, I had thought that it was the Presiding Officer who determined urgent questions, not Ministers. You suggested that Ministers did so; perhaps there is a discrepancy there. I request two statements, with one on IVF services. I questioned the Minister for Health and Social Services during the summer recess on the provision of IVF services here in south Wales and the Minister indicated that they were under severe pressure, especially in the context of staffing levels and that capacity was being purchased from Bristol to allow patients to progress through their treatment paths. I wonder whether we could have a statement from the Minister for Health and

**Rebecca Evans:** Ar ddiwedd mis Hydref, cyflwynodd yr holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru eu strategaethau lleol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer darparu gwybodaeth i ofalwyr ac ymgynghori â hwy. Roedd y strategaethau hyn yn amlinellu sut maent yn bwriadu cyflawni eu swyddogaeth sylfaenol, sef cefnogi, hysbysu ac ymgynghori â gofalwyr. Rwyf yn deall y bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn neu'n gwrthod y cynlluniau hyn o fewn wyth wythnos. Byddwn yn croesawu datganiad maes o law felly gan y Llywodraeth ynglŷn ag ymateb y Gweinidog i bob un o'r strategaethau hynny, a'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi a monitro'r gweithrediad y strategaethau fel bod gofalwyr yn cael y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt.

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymdrin â'r mater hwn. Bydd yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ym mis Ionawr ar y strategaethau ar gyfer darparu gwybodaeth i ofalwyr ac ymgynghori â hwy, ar ôl eu hasesu. Wrth gwrs, rydym yn darparu cymorth ariannol sylweddol, sef cyfanswm o £3.8 miliwn dros dair blynedd, i fyrddau iechyd lleol a'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid iddynt er mwyn gweithredu'r strategaethau pwysig hyn ar gyfer gofalwyr.

**Andrew R.T. Davies:** Weinidog, roeddwn wedi meddwl mai'r Llywydd a oedd yn penderfynu ar gwestiynau brys, ac nid Gweinidogion. Awgrymwyd gennyh bod y Gweinidogion yn gwneud hynny; efallai fod yma anghysondeb. Gofynnaf am ddau ddatganiad, gan gynnwys un ar wasanaethau IVF. Holais y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod toriad yr haf ynglŷn â darpariaeth gwasanaethau IVF yma yn ne Cymru. Dywedodd y Gweinidog eu bod dan bwysau difrifol, yn enwedig yng nghyd-destun lefelau staffio, a bod capasiti yn cael ei brynu o Fryste i alluogi cleifion i symud ymlaen drwy eu llwybrau triniaeth. Tybed a allem gael

Social services to update Members as to whether these capacity issues have been addressed. This is a very sensitive and emotive subject that requires urgent action on behalf of the Government and, in particular, the health boards that are charged with providing those facilities.

Secondly, could we have a statement from the Minister in response to Sir Howard Davies's review into aviation policy in the south-east of England, which has highlighted that Cardiff Airport would be one of the considerations with regard to alleviating overcrowding in the south-east of England? It is suggested that Cardiff Airport could play a role as Heathrow terminal 6. Those, I think, are the words that Sir Howard Davies used. I would be very grateful if the Minister could bring forward a statement on how the Government would look to work with the commission to produce the best possible case so as to ensure that Cardiff Airport's bid is taken seriously, and that the advantages that Cardiff Airport can offer the Government in Westminster are taken forward.

**Jane Hutt:** I thank Andrew R.T. Davies for those two questions. Of course, IVF services are being made available as appropriate, and I am sure that the Minister will provide updates as things move forward in terms of the provision. The important point is that provision is available to those people who need it. It is obviously a very sensitive issue and those services are vital. We have clear criteria for acceptance. As a Welsh Government, we will also be giving evidence to Sir Howard Davies's commission on aviation policy, which is very important and which is key in terms of future prospects for Wales.

**Lindsay Whittle:** Minister, last week, we learned of the news that 2,400 laptops were sitting in Torfaen County Borough Council, unused and out of warranty. That was because of a £9.8 million grant that was approved in order to buy those laptops by this Welsh Government—I assume that it was the education department—despite the fact that it

datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi gwybod i'r Aelodau a yw'r materion hyn wedi derbyn sylw. Mae hwn yn bwnc sensitif iawn sy'n cynhyrfu emosiynau cryf ac sy'n gofyn am gamau brys gan y Llywodraeth ac, yn benodol, y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am ddarparu'r cyfleusterau hynny.

Yn ail, a allwn gael datganiad gan y Gweinidog mewn ymateb i adolygiad Syr Howard Davies i'r polisi ar y diwydiant hedfan yn ne-ddwyrain Lloegr, sydd wedi tynnu sylw at y ffaith y byddai Maes Awyr Caerdydd yn cael ei ystyried fel opsiwn ar gyfer lleddfu'r pwysau ar feysydd awyr yn ne-ddwyrain Lloegr? Awgrymir y gallai Maes Awyr Caerdydd weithredu fel terfynell 6 i Heathrow. Dyna, rwyf yn meddwl, oedd y geiriau a ddefnyddiodd Syr Howard Davies. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai'r Gweinidog gyflwyno datganiad ar sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu gweithio gyda'r comisiwn i baratoi'r achos gorau posibl er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddifrifol i gais Maes Awyr Caerdydd, ac y cyflwynir y manteision y gall Maes Awyr Caerdydd eu cynnig i'r Llywodraeth yn San Steffan.

**Jane Hutt:** Diolch i Andrew R.T. Davies am y ddau gwestiwn hynny. Wrth gwrs, mae gwasanaethau IVF yn cael eu darparu fel y bo'n briodol, ac rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf wrth i bethau symud ymlaen o ran y ddarpariaeth. Y pwynt pwysig yw bod darpariaeth ar gael i'r bobl hynny sydd ei angen. Mae'n amlwg yn fater sensitif iawn, ac mae'r gwasanaethau hynny yn hanfodol. Mae gennym feini prawf clir ar gyfer derbyn y gwasanaeth. Fel Llywodraeth Cymru, byddwn hefyd yn rhoi tystiolaeth i gomisiwn Syr Howard Davies ar y polisi ar y diwydiant hedfan, sy'n bwysig iawn ac sy'n allweddol o ran y rhagolygon i Gymru.

**Lindsay Whittle:** Weinidog, yr wythnos ddiwethaf, clywsom y newyddion bod 2,400 gliniadur yn eistedd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, heb eu defnyddio a'r gwarantiaid wedi dod i ben. Y rheswm am hynny oedd bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo grant o £9.8 miliwn er mwyn

was clear that there were not enough local authorities on board in south-east Wales to purchase all of them. Will you make time so that the Minister for Education and Skills can come to the Chamber to make a statement on this issue in order to tell us why such a large grant was approved and what went wrong?

**Jane Hutt:** I saw Lindsay Whittle's appearance on television screens last week, during recess. The important thing, as far as I could understand from that television interview, is that we have a way forward to ensure that children and young people benefit from those laptops. That is what will be delivered as a result of the fact that the Welsh Government is working closely with Torfaen County Borough Council, as well as Monmouthshire County Council, to ensure that those public funds are being used appropriately.

**Mark Isherwood:** I wish to call for two statements. First, could we have a statement on mental health first-aiders in Wales? I understand that this is the week when Mind Cymru will be celebrating the achievements of 10,000 trained mental health first-aiders in Wales. With some Welsh Government support, this includes several businesses, notably Airbus in Flintshire, which has 60 mental health first-aiders, and plans to have 250. A statement on this achievement, and the Welsh Government's intentions in this respect, would be welcome.

Secondly, I wish to call for a statement on Welsh waterways, which are unique in Europe and are a key heritage asset. They are one of the most accessible and well-used facilities for recreation and tourism, generating £34 million of visitor spend and over 800 full-time equivalent jobs in rural businesses. A statement promoting the importance of Welsh icons such as the Pontcysyllte aqueduct and the Montgomery canal, and looking at how Scotland, by adopting the 'hydro nation' label, has used its waterways to drive economic and social

prynu'r gliniaduron—tybiaf mai'r adran addysg a oedd yn gyfrifol—er ei bod yn amlwg nad oedd digon o awdurdodau lleol wedi ymrwymo yn ne-ddwyrain Cymru i brynu pob un ohonynt. A wnewch chi wneud amser fel y gall y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddod i'r Siambr i wneud datganiad ar y mater hwn er mwyn dweud wrthym pam y cymeradwywyd grant mor fawr a beth aeth o'i le?

**Jane Hutt:** Gwelais ymddangosiad Lindsay Whittle ar sgriniau teledu yr wythnos diwethaf, yn ystod y toriad. Y peth pwysig, cyn belled ag y gallwn ddeall o'r cyfweiliad teledu, yw bod gennym ffordd ymlaen i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn elwa oddi wrth y gliniaduron hynny. Dyna beth fydd yn cael ei gyflawni yn sgil y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, yn ogystal â Chyngor Sir Fynwy, i sicrhau bod y cronfeydd cyhoeddus hynny'n cael eu defnyddio'n briodol.

**Mark Isherwood:** Hoffwn alw am ddau ddatganiad. Yn gyntaf, a allem gael datganiad ar swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl yng Nghymru? Rwyf yn deall y bydd Mind Cymru, yr wythnos hon, yn dathlu llwyddiannau 10,000 o bobl a hyfforddwyd yn swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl yng Nghymru. Gyda pheth cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, mae gan nifer o fusnesau—mae Airbus yn Sir y Fflint yn enghraifft nodedig—60 o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl, a chynlluniau i gael 250. Byddwn yn croesawu datganiad ar y llwyddiant hwn, a bwriadau Llywodraeth Cymru yn hyn o beth.

Yn ail, hoffwn alw am ddatganiad ar ddyfrffyrdd Cymru, sy'n unigryw yn Ewrop ac yn ased treftadaeth allweddol. Maent yn un o'r cyfleusterau mwyaf hygyrch a phoblogaidd ar gyfer hamdden a thwristiaeth, gan gynhyrchu £34 miliwn o wariant gan ymwelwyr a thros 800 o swyddi cyfwerth ag amser llawn mewn busnesau gwledig. Byddai hyn yn teilyngu datganiad yn hyrwyddo pwysigrwydd eiconau Cymreig megis traphont ddŵr Pontcysyllte a chamlas Maldwyn, ac yn edrych ar sut y mae'r Alban, drwy fabwysiadu label y 'genedl hydro',

regeneration, would be merited.

**Jane Hutt:** I thank the Member for North Wales for those questions. The Minister for Health and Social Services welcomed the good progress regarding mental health first-aiders, and made a statement on the delivery and their achievements. That has been well recognised, as the Minister for health has done.

There are opportunities to promote Wales in terms of tourism, particularly at those special sites of interest that the Member for North Wales mentions. I am sure that the Minister for Housing, Regeneration and Heritage will be taking note of that advice from Mark Isherwood.

**Mohammad Asghar:** Last week, I had a pre-arranged meeting with my MP in the House of Commons at 2.15 p.m. I went there just before 2 p.m., and, to my surprise, at Portcullis House, there were more than 50 young children, Scouts and members of the public waiting in front of me. There is only one revolving door there, and security is right in front of it. People entered the building one by one, which meant that it took me 20 minutes to get in and my meeting was delayed. The MP was waiting for me inside. Minister, will you speak to your counterparts in Ireland, Scotland and England so that, as elected Members—*[Interruption.]* Not you, Lord. *[Laughter.]* Will you speak to your counterparts so that we can use our entry passes to gain entrance quicker, rather than waiting 20 to 30 minutes outside?

**Jane Hutt:** I am the leader of this House; therefore, I do not feel that I have an appropriate responsibility for that matter.

**The Presiding Officer:** Order. I am sure that Mohammad Asghar did not refer to the opposition as ‘this lot’; I must have misheard. *[Laughter.]* I call on Darren Millar.

**Darren Millar:** Could we have a statement from the Minister for Health and Social Services on the treatment available in Wales

wedi defnyddio ei dyfrffyrdd i sbarduno adfywiad economaidd a chymdeithasol.

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod dros Ogledd Cymru am y cwestiynau hynny. Croesawodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y camau da a gymerwyd o ran swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl, a gwnaeth ddatganiad ar y ddarpariaeth a'u llwyddiannau. Mae'r datblygiad wedi cael llawer o gydnabyddiaeth, gan y Gweinidog Iechyd ymhlith eraill.

Ceir cyfleoedd i hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru, yn enwedig yn y safleoedd hynny o ddi-ddordeb arbennig y soniodd yr Aelod dros Ogledd Cymru amdanynt. Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn cymryd sylw o'r cyngor hwnnw gan Mark Isherwood.

**Mohammad Asghar:** Yr wythnos ddiwethaf, cefais gyfarfod a drefnwyd ymlaen llaw gyda fy AS yn Nhŷ'r Cyffredin am 2.15 pm. Cyrhaeddais yno ychydig cyn 2 pm, ac, er syndod imi, yn Portcullis House, roedd mwy na 50 o blant ifanc, Sgowtiaid ac aelodau o'r cyhoedd yn aros o'm blaen. Dim ond un drws troi sydd yno, ac mae'r staff diogelwch yn union o'i flaen. Roedd pobl yn mynd i mewn i'r adeilad fesul un, gan olygu ei bod wedi cymryd 20 munud i mi fynd i mewn ac roedd fy nghyfarfod yn hwyr. Roedd yr AS yn aros amdanaf y tu mewn. Weinidog, a wnewch chi siarad â'ch cymheiriaid yn Iwerddon, yr Alban a Lloegr fel eu bod, fel Aelodau etholedig—*[Ymyriad.]* Nid y chi, Arglwydd. *[Chwerthin.]* A wnewch siarad â'ch cymheiriaid fel y gallwn ddefnyddio ein pasys i allu mynd i mewn yn gyflymach, yn hytrach nag aros 20 i 30 munud y tu allan?

**Jane Hutt:** Arweinydd y Tŷ hwn wyf i, felly nid wyf yn teimlo bod gennyf gyfrifoldeb priodol ar gyfer y mater hwnnw.

**Y Llywydd:** Trefn. Rwyf yn siŵr na wnaeth Mohammad Asghar gyfeirio at y gwrthbleidiau fel ‘y criw hyn’; rhaid fy mod wedi camglywed. *[Chwerthin.]* Galwaf ar Darren Millar.

**Darren Millar:** A allem gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y driniaeth sydd ar gael yng

for hepatitis C patients? I am concerned to have received representations from the Haemophilia Society in the United Kingdom, which says that in spite of a decision by the National Institute for Health and Clinical Excellence earlier this year, protein inhibitor treatment is still not available throughout Wales; it is available only to patients living in the Cardiff and Vale LHB area. This is extremely concerning for people with hepatitis C and haemophiliacs in particular. I wonder whether we could have a statement from the Minister on that.

Secondly, I wonder whether the Minister for Health and Social Services might also be able to make a statement on health service finances. As you know, we are halfway through the financial year, and it is important to reflect on the current financial position. According to Betsi Cadwaladr LHB, it is still facing a £19 million black hole in its finances before the end of this financial year that it does not expect to be able to meet. It is now becoming urgent that the Minister clarifies the Government's position on this and how she intends to address this black hole before the end of the financial year.

**Jane Hutt:** I advise the health spokesperson for the Welsh Conservatives to raise with the Minister for health directly any concerns that have been brought to his attention on the availability of treatment, and he will get a response.

On the issue of the in-year position, the Minister for health has already made it clear that—and I have also responded to these questions in Finance Committee—there is a mid-year review and an appropriate response to that will be forthcoming.

Nghymru ar gyfer cleifion â hepatitis C? Rwyf yn pryderu fy mod wedi derbyn sylwadau gan y Gymdeithas Hemoffilia yn y Deyrnas Unedig, sy'n dweud nad yw triniaeth atalydd protein ar gael o hyd ledled Cymru, er gwaethaf penderfyniad gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol yn gynharach eleni; mae ar gael i gleifion sy'n byw yn ardal BILl Caerdydd a'r Fro yn unig. Mae hyn yn destun pryder mawr i bobl sydd â hepatitis C a phobl sydd â hemoffilia yn arbennig. Tybed a allem gael datganiad gan y Gweinidog am hynny?

Yn ail, tybed a allai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad hefyd ar gyllid y gwasanaeth iechyd. Fel y gwyddoch, rydym hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol, ac mae'n bwysig myfyrio ar y sefyllfa ariannol bresennol. Yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr, mae'n dal i wynebu diffyg o £19 miliwn yn ei gyllid cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon nad yw'n disgwyl gallu cwrdd ag ef. Mae bellach yn dod yn fater o frys i'r Gweinidog egluro safbwynt y Llywodraeth ynglŷn â hyn a sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r diffyg hwn cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Jane Hutt:** Rwyf yn cynghori'r llefarydd iechyd ar gyfer y Ceidwadwyr Cymreig i godi'n uniongyrchol gyda'r Gweinidog Iechyd unrhyw bryderon sydd wedi cael eu dwyn i'w sylw ynglŷn â thriniaeth ac i ba raddau y mae ar gael, a bydd yn cael ymateb.

O ran y sefyllfa ariannol hanner ffordd trwy'r flwyddyn, mae'r Gweinidog Iechyd eisoes wedi gwneud yn glir—ac rwyf innau hefyd wedi ymateb i'r cwestiynau hyn yn y Pwyllgor Cyllid—y cynhelir adolygiad canol y flwyddyn ac y rhoddir ymateb priodol i hwnnw yn y man.

### **Datganiad: Ad-Drefnu Addysg Uwch Statement: Higher Education Reconfiguration**

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** On 23 October, I made a statement on the statutory consultation on the possible dissolutions of the University of Wales, Newport higher education corporation and Cardiff Metropolitan University higher

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Ar 23 Hydref, gwneuthum ddatganiad ar yr ymgynghoriad statudol ar y posibilrwydd o ddiddymu corfforaeth addysg uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd a chorfforaeth addysg uwch Prifysgol



education corporation. I set out the likely next steps and sought to clarify certain misconceptions about the consultation process, following a series of misleading statements reported in the media recently. As I said at the time, I had not yet made any decision on the options then under consideration for south-east Wales.

Interested parties have had several chances to comment and raise issues in relation to proposals set out originally in the Higher Education Funding Council for Wales's report on 'The Future Structure of Universities in Wales'. Similarly, all key stakeholders have been consulted about my proposals for taking forward HEFCW's recommendations. As I informed Members, in relation to south-east Wales, those consultations have included discussions with representatives of each of the three institutions affected by the proposals.

I subsequently met the chairs of the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport on 25 October. They took the opportunity to outline the progress that they have made to date in relation to their own proposals for merger. They have now written to me formally confirming their desire to merge and have stressed the urgency with which the two institutions are seeking to join together in the interests of both their staff and learners.

I have received assurance from the University of Wales, Newport and the University of Glamorgan that, in respect of their proposed integration, the two institutions have: agreed a common shared vision for the new university; signed a heads-of-terms agreement; established a robust programme management framework; completed all appropriate due-diligence checks; and undertaken discussions with trade unions and student union representatives. I am also assured that business planning is well advanced and that they expect to be able to present a full business case for the proposed merger between their institutions next month.

Fetropolitan Caerdydd. Nodais y camau tebygol nesaf a cheisiais egluro rhai camsyniadau penodol am y broses ymgynghori, yn dilyn cyfres o ddatganiadau camarweiniol yn y cyfryngau yn ddiweddar. Fel y dywedais ar y pryd, nid wyf wedi gwneud unrhyw benderfyniad eto ynglŷn â'r dewisiadau a oedd yn cael eu hystyried ar y pryd ar gyfer de-ddwyrain Cymru.

Mae partïon sydd â diddordeb wedi cael nifer o gyfleoedd i roi sylwadau a chodi materion ynglŷn â chynigion a nodwyd yn wreiddiol yn adroddiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar strwythur prifysgolion yng Nghymru yn y dyfodol. Yn yr un modd, ymgynghorwyd â'r holl randdeiliaid allweddol ynghylch fy nghynigion ar gyfer bwrw ymlaen ag argymhellion CCAUC. Fel y dywedais wrth yr Aelodau, mewn cysylltiad â de-ddwyrain Cymru, mae'r ymgynghoriadau hynny wedi cynnwys trafodaethau gyda chynrychiolwyr o bob un o'r tri sefydliad yr effeithir arnynt gan y cynigion.

Yn dilyn hyn cefais gyfarfod â chadeiryddion Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd ar 25 Hydref. Manteisiwyd ganddynt ar y cyfle i amlinellu'r hyn y maent wedi ei gyflawni hyd yn hyn o ran eu cynigion eu hunain ar gyfer uno. Maent bellach wedi ysgrifennu ataf yn ffurfiol yn cadarnhau eu dymuniad i uno ac wedi pwysleisio bod y ddau sefydliad yn ceisio ymuno gyda'i gilydd ar frys er lles eu staff a'u dysgwyr.

Rwyf wedi derbyn sicrwydd gan Brifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg, o ran yr integreiddio arfaethedig, bod y ddau sefydliad wedi: cytuno ar weledigaeth gyffredin a rennir ar gyfer y brifysgol newydd; llofnodi cytundeb ar gyfer y prif delerau; sefydlu fframwaith cadarn ar gyfer rheoli rhaglenni; cwblhau pob prawf priodol i sicrhau diwydrwydd dyladwy; a chynnal trafodaethau gyda chynrychiolwyr undebau llafur ac undeb y myfyrwyr. Cefais fy sicrhau hefyd bod y gwaith cynllunio busnes yn mynd rhagddo'n dda a'u bod yn disgwyl gallu cyflwyno achos busnes llawn y mis nesaf ar gyfer yr uno arfaethedig rhwng eu sefydliadau.

The chairs of Newport and Glamorgan have made clear their preference to establish the new university now by way of the voluntary dissolution of the University of Wales, Newport higher education corporation and the transfer of its assets and liabilities to the University of Glamorgan higher education corporation. Both institutions wish to merge with effect from April next year. This is excellent progress.

In the light of these developments, I have decided to cancel with immediate effect the consultation that I commenced on the 6 August on two options, which involved the dissolution of the University of Wales, Newport and Cardiff Metropolitan University or the dissolution of the University of Wales, Newport alone. I will now await receipt of the business case being prepared by the University of Wales, Newport and the University of Glamorgan. I have made no decision at this stage and will carefully consider their case when I receive it.

2.45 p.m.

Following consideration of the business case, should I be minded to dissolve the University of Wales, Newport Higher Education Corporation, as proposed by Newport and Glamorgan, the Government would work with the two institutions to ensure a smooth transition, including consideration of any need for additional financial support.

The policy of the Government remains that we wish to see a single post-1992 university in south-east Wales. As recently as 2003, UWIC, as it then was, consulted on its own proposal to merge with the University of Glamorgan on the basis that

‘Wales lacks, and needs, a university of the size, power and reputation of the leading new universities in England.’

I could not agree more. It is for that reason that I do not intend to hamper the excellent progress being made by Glamorgan and Newport.

**Angela Burns:** Thank you, Minister, for your statement today. I do not know whether to congratulate you for finally standing in the

Mae cadeiryddion Casnewydd a Morgannwg wedi datgan yn glir eu dewis i sefydlu prifysgol newydd yn awr drwy ddiddymu corfforaeth addysg uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd yn wirfoddol a throsglwyddo ei asedau a'i rwymedigaethau i gorfforaeth addysg uwch Prifysgol Morgannwg. Mae'r ddau sefydliad yn dymuno uno o fis Ebrill y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn gam rhagorol ymlaen.

Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn, rwyf wedi penderfynu canslo ar unwaith yr ymgynghoriad a gychwynais ar 6 Awst ar ddau opsiwn, sef diddymu Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd neu ddiddymu Prifysgol Cymru, Casnewydd yn unig. Byddaf yn awr yn aros i dderbyn yr achos busnes sy'n cael ei baratoi gan Brifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg. Nid wyf wedi gwneud penderfyniad ar hyn o bryd a byddaf yn ystyried eu hachos yn ofalus ar ôl ei dderbyn.

Ar ôl ystyried yr achos busnes, pe byddwn o blaid diddymu Corfforaeth Addysg Uwch Prifysgol Cymru, Casnewydd, fel a gynigiwyd gan Gasnewydd a Morgannwg, byddai'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r ddau sefydliad er mwyn sicrhau cyfnod pontio llyfn, gan gynnwys ystyried unrhyw angen am gymorth ariannol ychwanegol.

Polisi'r Llywodraeth o hyd yw ein bod yn dymuno gweld un brifysgol ôl-1992 yn neddwyrain Cymru. Mor ddiweddar â 2003, ymgynghorodd UWIC, fel yr oedd bryd hynny, ar ei gynnig ei hun i uno â Phrifysgol Morgannwg ar y sail bod

ar Gymru angen, ac nad oes ganddi, brifysgol o faint, grym ac enw da'r prifysgolion blaenllaw newydd yn Lloegr.

Rwyf yn cytuno'n llwyr. Dyna'r rheswm pam nad wyf yn bwriadu rhwystro'r camau rhagorol y mae Morgannwg a Chasnewydd yn eu cymryd.

**Angela Burns:** Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad heddiw. Nid wyf yn gwybod a ddylid eich llongyfarch chi am sefyll o'r

way of a juggernaut that has been running out of control and stopping the debacle that we have been watching, or to continue to castigate you for allowing all of this to happen. To be frank, since HEFCW sexed up the report in May 2011, at the request of your officials, this process has been an evolving disgrace.

The Welsh Conservatives—and our colleagues around the Chamber—have always supported voluntary mergers, and we have always been prepared to help support organisations that may not want to go the whole hog and merge, but would be prepared to collaborate. So, for us, this is excellent news. I am extremely pleased that Glamorgan and Newport have gone as far as they have. I am delighted to hear that they are on target for coming together in April. However, I have a question about this. Minister, when you looked at how far they had gone and at how much they had put together, did you cancel the consultation because a judicial review, or any kind of legal challenge, by Cardiff Metropolitan University could have derailed that whole process? If this is your reason, I completely support it.

Will there be an open and transparent process for appointing the new board for the new organisation? Will there be open advertisements for all of the senior posts? Are they still up for discussion or is it much further down the line than we might think?

You went on to say that you were going to await the business case being prepared by the University of Wales, Newport and the University of Glamorgan. As we are on the topic of business cases, are we able, at any point, to see the Government's business case for the original proposal for the merger? You then discussed how Wales lacks and needs a university of the size, power and reputation of the leading new universities in England. In your next step forward, could you consider looking at how this whole process has worked? We have Cardiff Metropolitan University saying that it was unable, in some

diwedd yn ffordd y bwystfil diatal y collwyd pob rheolaeth arno, ac am atal y llastr yr ydym wedi bod yn ei wyllo; neu barhau i'ch ceryddu am ganiatáu i hyn i gyd ddiwydd. I fod yn onest, ers i CCAUC orliwio'r adroddiad ym mis Mai 2011, ar gais eich swyddogion, mae'r broses hon wedi bod yn warth sy'n esblygu.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig—a'n cydweithwyr o amgylch y Siambr—bob amser wedi bod o blaid uno gwirfoddol, ac rydym bob amser wedi bod yn barod i helpu i gefnogi sefydliadau nad ydynt o bosibl yn dymuno mynd yr holl ffordd ac uno â'i gilydd, ond a fyddai'n barod i gydweithio. Felly, i ni, mae hyn yn newyddion gwyach. Rwy'n hynod o falch bod Morgannwg a Chasnewydd wedi mynd mor bell ag y maent. Rwyf wrth fy modd o glywed bod y broses yn mynd rhagddi er mwyn iddynt ddod at ei gilydd ym mis Ebrill. Fodd bynnag, mae gennyf gwestiwn. Weinidog, wrth edrych ar ba mor bell yr oeddent wedi mynd ac ar faint yr oeddent wedi ei roi at ei gilydd, a wnaethoch chi ganslo'r ymgynghoriad oherwydd y gallai adolygiad barnwrol, neu unrhyw fath o her gyfreithiol, gan Brifysgol Fetroplitan Caerdydd fod wedi taflu'r broses gyfan oddi ar ei hechel? Os mai dyma eich rheswm, rwyf yn ei gefnogi'n llwyr.

A fydd y broses o benodi i'r bwrdd newydd ar gyfer y sefydliad newydd yn un agored a thryloyw? A gyhoeddir hysbysebion agored ar gyfer pob un o'r swyddi uwch? A ydynt yn dal yn destun trafod neu a yw pethau wedi symud lawer pellach yn eu blaenau nag y byddem yn ei feddwl?

Aethoch ymlaen i ddweud eich bod yn mynd i aros am yr achos busnes sy'n cael ei baratoi gan Brifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg. Gan ein bod yn trafod achosion busnes, a allwn, ar unrhyw adeg, weld achos busnes y Llywodraeth ar gyfer y cynnig gwreiddiol ar gyfer yr uno? Yna aethoch ymlaen i drafod sut y mae ar Gymru angen, ac nad oes ganddi, brifysgol o faint, grym ac enw da'r prifysgolion blaenllaw newydd yn Lloegr. Yn eich cam nesaf ymlaen, a wnewch ystyried edrych ar sut y mae'r broses gyfan wedi gweithio? Mae

instances, to talk to the other two universities because there were resolutions, in the public domain, passed by Glamorgan, for example, precluding discussions unless a merger date had already been agreed. That is a bit like asking the bride to go the whole hog before you have even got her down the aisle.

Would you also be able to look at how the consultation was run? If you looked at how the consultation for the natural resources body was run, compared with this consultation, you would see that they were very different.

Finally, Minister, diplomacy must always win. You have two universities merged, and you have one university for which you have a policy objective that you would like to meet. What steps will you be able to take to build bridges with Cardiff Metropolitan University and, more importantly, to get Cardiff Metropolitan University, the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport to talk to each other to ensure that collaboration does reign, and to look at how they may challenge themselves in their future direction, in order to provide a really secure and strong offering for students here in Wales?

**Leighton Andrews:** I am glad that the opposition spokesperson has welcomed the merger by Glamorgan and Newport. At least we can agree on that today. We have taken a decision today in relation to the cancellation of the previous consultation on the proposed dissolutions because we have had a request from the chairs of the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport, to cancel it and to allow them to make progress on their voluntary merger. They were concerned about the timescales that would result from the pause in the previous consultation that I announced. I want to see them make good progress. Of course, we will look at the business plan when it comes to us, and we will make a final decision on the basis of that plan.

Clearly, this is a voluntary merger, so matters to do with the process of appointments to the

Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn dweud nad oedd yn gallu siarad â'r ddwy brifysgol arall, mewn rhai achosion, oherwydd y pasiwyd penderfyniadau, yn gyhoeddus, gan Forgannwg, er enghraifft, yn gwahardd trafodaethau oni bai y cytunwyd eisoes ar ddyddiad uno. Mae hynny braidd fel gofyn i briodferch fynd yr holl ffordd cyn i chi ei cherdded at yr allor hyd yn oed.

A fydddech hefyd yn gallu edrych ar sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad? Pe baech yn edrych ar sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gyfer y corff adnoddau naturiol, o'i gymharu â'r ymgynghoriad hwn, bydddech yn gweld eu bod yn wahanol iawn.

Yn olaf, Weinidog, mae'n rhaid i ddiplomyddiaeth gario'r dydd bob amser. Mae gennych ddwy brifysgol sy'n uno, ac un brifysgol y mae gennych amcan polisi y bydddech yn hoffi ei gyflawni ar ei chyfer. Pa gamau y byddwch yn gallu eu cymryd i gymodi â Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd ac, yn bwysicach, i gael Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd i siarad â'i gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn cydweithio, ac i edrych sut y gallant eu herio eu hunain o ran eu cyfeiriad yn y dyfodol, er mwyn sicrhau darpariaeth wirioneddol ddiogel a chryf ar gyfer myfyrwyr yma yng Nghymru?

**Leighton Andrews:** Rwyf yn falch bod llefarydd yr wrthblaid wedi croesawu'r ffaith bod Morgannwg a Chasnewydd yn uno. O leiaf gallwn gytuno ar hynny heddiw. Rydym wedi gwneud penderfyniad heddiw ynglŷn â chanslo'r ymgynghoriad blaenorol ar y cynigion diddymu oherwydd i ni gael cais gan gadeiryddion Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, i'w ganslo ac i'w galluogi i symud ymlaen â'r broses o uno'n wirfoddol. Roeddent yn pryderu ynghylch yr amserlenni yn sgil yr oedi a fyddai'n deillio o'r ymgynghoriad blaenorol a gyhoeddais. Rwyf am eu gweld yn symud yn eu blaenau'n dda. Wrth gwrs, byddwn yn edrych ar y cynllun busnes ar ôl ei dderbyn, a byddwn yn gwneud penderfyniad terfynol ar y sail y cynllun hwnnw.

Yn amlwg, mae hon yn broses uno'n wirfoddol, felly materion i fyrddau'r

board and to senior management positions are for the boards of the merging institutions. They are not matters for me. I therefore suggest that the Member directs her questions to the institutions in that respect. In respect of the former business case that we were developing for a proposed three-way merger, we published a strategic outline case, and we were developing the five-case model laid down by the Treasury for the development of business cases. We were developing that entirely in line with the process that has been set down.

The Member repeated today an allegation that Cardiff Metropolitan University had been unable to speak to other universities in south-east Wales. I suggest that she widens her own discourse and has conversations with the senior management and governors of the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport, to get their perspective on that assertion. In respect of our policy objective, I made it very clear in our statement that our policy remains that we wish to see a single post-1992 higher education institution in south-east Wales.

**Mick Antoniw:** Minister, I extend my congratulations to the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport, for what I think is a very positive step that they have taken. I also express sadness that Cardiff Metropolitan University is not on board, as there is a tremendous lost opportunity for it. Last week, I had to ask you a question regarding my concerns about the deprecating remarks that were emerging from Cardiff Metropolitan University with regard to other academic institutions. Today, you may have seen a report in the *Western Mail* on further concerns that I have regarding comments that are being made, and the presentation of Cardiff Metropolitan University, with regard to its relationships with other universities. I am concerned to such an extent that I have reported the matter to the Advertising Standards Authority. Do you agree with those comments, Minister?

**Leighton Andrews:** I thank the Member for Pontypridd for his support for the merger between the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport. I know that this is of great interest to his own

sefydliadau sy'n uno yw rhai megis penodi i'r bwrdd, ac i swyddi rheoli uwch. Nid ydynt yn faterion i mi. Awgrymaf felly, y dylai'r Aelod yn cyfeirio ei chwestiynau i'r sefydliadau yn hynny o beth. O ran yr achos busnes yr oeddem yn ei ddatblygu ar gyfer y cynnig o uno'r tri sefydliad, cyhoeddwyd achos strategol amlinellol, ac roeddem yn datblygu'r model pum achos a bennwyd gan y Trysorlys ar gyfer datblygu achosion busnes. Roeddem yn dilyn yn union y broses sydd wedi ei phennu wrth ei ddatblygu.

Ailadroddodd yr Aelod heddiw honiad nad oedd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd wedi gallu siarad â phrifysgolion eraill yn ne-ddwyrain Cymru. Rwyf yn awgrymu ei bod yn ehangu ei thrafodaeth hun ac yn sgwrsio ag uwch reolwyr a llywodraethwyr Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, i gael eu safbwynt hwy ar yr haerriad hwnnw. O ran ein hamcan polisi, nodais yn glir iawn yn ein datganiad mai ein polisi ni o hyd yw ein bod yn dymuno gweld un sefydliad addysg uwch ôl-1992 yn ne-ddwyrain Cymru.

**Mick Antoniw:** Weinidog, estynnaf fy llongyfarchiadau i Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, am gymryd yr hyn yr wyf yn credu sy'n gam cadarnhaol iawn. Rwyf hefyd yn mynegi tristwch nad yw Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn rhan o'r trafodaethau, gan ei bod yn colli cyfle gwych. Yr wythnos diwethaf, bu raid i mi ofyn cwestiwn i chi am fy mhryderon ynghylch sylwadau beirniadol a oedd yn dod i'r amlwg o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd ynglŷn â sefydliadau academiaidd eraill. Heddiw, efallai eich bod wedi gweld adroddiad yn y *Western Mail* ar bryderon ychwanegol sydd gennyf ynglŷn â sylwadau a wneir, ac ynglŷn â chyflwyniad Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, o ran ei pherthynas â phrifysgolion eraill. Rwyf yn pryderu i'r fath raddau fy mod wedi hysbysu'r Awdurdod Safonau Hysbysebu am y mater. A ydych chi'n cytuno â'r sylwadau hynny, Weinidog?

**Leighton Andrews:** Diolch i'r Aelod dros Bontypridd am ei gefnogaeth i'r uno rhwng Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd. Gwn fod hyn o ddiddordeb mawr i'w etholwyr ef, gan fod pencadlys

constituents, with the University of Glamorgan headquartered in his constituency. In respect of any comments about advertising by Cardiff Metropolitan University and their appropriateness, that is a matter for the Advertising Standards Authority and not for me. I would say to him, however, that I have myself been in receipt of material that has caused me to question the standard of governance and management at Cardiff Metropolitan University, and I have asked the Higher Education Funding Council for Wales to look at those issues.

**Simon Thomas:** Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad, a dweud pa mor bleserus ydoedd i glywed ei eiriau heddiw, yn hytrach na'r geiriau a ddefnyddiodd bythefnos yn ôl. Mae Plaid Cymru yn parhau i gredu mai cael un sefydliad addysg uwch yn y de-ddwyrain yw'r cyfluniad gorau, o safbwynt cenedlaethol. Serch hynny, rydym yr un mor glir am y ffaith y dylid cyrraedd y sefyllfa honno drwy uno gwirfoddol, ac nid drwy uno gorfodol. Mae'n ymddangos i mi fod y broses honno yn awr yn cael symud yn ei blaen, a hynny heb ymyrraeth gyfreithiol bellach gan y Gweinidog; rwy'n croesawu hynny. Rwyf hefyd yn croesawu'r uniad rhwng Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, a'r cynnydd a wnaed hyd yma. Dymunaf yn dda i'r trafodion hynny, a gobeithiaf y byddant yn llwyddiannus ac y byddwn yn gweld sefydliad newydd yn dod i'r fei y flwyddyn nesaf. Mae'n bwysig ei fod yn sefydliad llwyddiannus a bod Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn ailedrych ar y sefyllfa sy'n cyniwair yn y de-ddwyrain, oherwydd mae hwn yn gyfle iddi ailystyried ei safbwyntiau a'r ffordd y mae wedi mynd ati i drafod gyda chi, Weinidog, a'r sector yn ehangach yng Nghymru. Mae hwn yn gyfle i gael llechen lân i bawb.

Weinidog, yn y gorffennol, rydych wedi fy nisgrifio fel rhywun sydd, yn ôl y Cofnod, yn 'rhy ddiniwed' i ddefnyddio grym Gweinidog. *Timid* yw'r gair Saesneg a ddefnyddiwyd gennych—mae 'diniwed' yn golygu rhywbeth gwahanol iawn yng nghymoedd y de.

A ydych yn cytuno eich bod wedi bod yn rhy fyrbwyll wrth ddefnyddio'r pwerau hyn ac y

Prifysgol Morgannwg yn ei etholaeth. Mewn cysylltiad ag unrhyw sylwadau am hysbysebion gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd a'u priodoldeb, mae hynny'n fater i'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ac nid i mi. Byddwn yn dweud wrtho, fodd bynnag, fy mod i fy hun wedi derbyn deunydd sydd wedi achosi i mi gwestiynu safon y drefn lywodraethu a rheoli ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, ac rwyf wedi gofyn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru edrych ar y materion hynny.

**Simon Thomas:** I would like to thank the Minister for his statement, and say how pleased I was to hear his words today, as opposed to what he said a fortnight ago. Plaid Cymru continues to believe that one higher education institution in south-east Wales is the best configuration, from a national perspective. However, we are just as clear that we should achieve that situation by voluntary merger, not by forced merger. It seems to me that that process is now being allowed to progress, without further legal intervention by the Minister; I welcome that. I also welcome the merger of the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport, and the progress made to date. I wish those negotiations well, and I hope that they will be successful and that we see a new institution emerging next year. It is important that it is a successful institution and that Cardiff Metropolitan University reviews the situation that is developing in south-east Wales, as this is also an opportunity for it to reconsider its stance and the way in which it has negotiated with you, Minister, and with the sector more generally in Wales. This is an opportunity for a clean slate for everyone.

In the past, Minister, you have described me, according to the Record, as being 'too timid' to use ministerial powers. The Welsh word '*diniwed*' means something very different in the south Wales Valleys.

Do you agree that you have been a little rash in using these powers and that you should

dylech fod wedi clywed cyngor mwy eang yn y gorffennol? A allwch rannu gyda'r Siambwr pa gyngor cyfreithiol rydych wedi ei gael ar yr uniad gorfodol, deddfwriaethol hwn? A yw'r cyngor cyfreithiol hwnnw yn troi o gwmpas y sefyllfa benodol o orfodi uno Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, ynteu a yw'n gyngor cyfreithiol ehangach ynglŷn â'ch defnydd chi o'r grymoedd hyn, neu'ch bwriad i'w defnyddio? Byddai o fudd mawr i ni ddeall pa gyngor rydych wedi ei gael sydd wedi arwain at sefyllfa lle cafwyd cymaint o dro bedol dros yr hanner tymor.

Minister, a fortnight ago, when you made a very different statement here, I put it to you that there was another way. I said that you did not have to proceed with your proposals for a compulsory merger and I asked whether you would allow another solution to develop. In particular, I asked whether you would allow the Glamorgan/Newport reconfiguration to take place, and whether you would then allow Cardiff Metropolitan University to re-evaluate its situation following that reconfiguration. That is what I said a fortnight ago. I do not know what advice you have received since, but I am pleased that you have listened to the advice of Plaid Cymru—the Party of Wales.

**Leighton Andrews:** Llywydd, the announcement that I have made today has nothing to do with any advice that I have received: it is to do with the request that I received from the chairs of the University of Wales, Newport and the University of Glamorgan. They informed me, at our meeting, that they were making good progress, as I reported in the statement, and they subsequently wrote to me regarding their concerns about any delay in the overall consultation, which would have had an impact on the timescale that they wanted to fulfil for their merger. It was on that basis that I took the decision to cancel the consultation that was previously in operation. In respect of other statements that the Plaid Cymru spokesperson has made, I welcome the fact that his party agrees that there should be one single post-1992 institution in south-east Wales. As I said in my statement, that is the policy of this Government.

**Aled Roberts:** Minister, I do not wish to

have taken advice more broadly in the past? Can you share with the Chamber what legal advice you have received on this forced merger, to be achieved through legislation? Does that legal advice relate to the specific situation of forcing the merger of Cardiff Metropolitan University, or is it broader legal advice on your use, or proposed use, of these powers? It would be beneficial for us to understand what advice you received that led to such a u-turn over the half-term recess.

Weinidog, bythefnos yn ôl, pan wnaethoch ddatganiad gwahanol iawn yma, awgrymais i chi fod yna ffordd arall. Dywedais nad oedd yn rhaid i chi fwrw ymlaen â'ch cynigion ar gyfer uno gorfodol a gofynnais a fyddech yn caniatáu i ateb arall ddatblygu. Yn benodol, gofynnais a fyddech yn caniatáu i'r ad-drefnu rhwng Morgannwg a Chasnewydd ddigwydd, ac a fyddech wedyn yn caniatáu i Brifysgol Fetropolitan Caerdydd ail-werthuso ei sefyllfa yn sgil yr ad-drefnu hwnnw. Dyna'r hyn a ddywedais bythefnos yn ôl. Nid wyf yn gwybod pa gyngor a gawsoch ers hynny, ond rwyf yn falch eich bod wedi gwrandao ar gyngor Plaid Cymru.

**Leighton Andrews:** Lywydd, nid oes gan y cyhoeddiad yr wyf wedi'i wneud heddiw ddim i'w wneud ag unrhyw gyngor yr wyf wedi ei dderbyn: mae'n ymwneud â'r cais a gefais gan gadeiryddion Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg. Dywedwyd wrthyf, yn ein cyfarfod, eu bod yn symud ymlaen yn dda, fel y nodwyd yn y datganiad. Ysgrifennodd y cadeiryddion ataf yn dilyn hyn ynghylch eu pryderon am unrhyw oedi yn sgil yr ymgynghoriad cyffredinol, a fyddai wedi cael effaith ar yr amserlen y maent yn awyddus i gadw ati ar gyfer y broses uno. Ar y sail honno, penderfynais ganslo'r ymgynghoriad a oedd ar waith yn flaenorol. O ran datganiadau eraill a wnaed gan lefarydd Plaid Cymru, croesawaf y ffaith bod ei blaid yn cytuno y dylid cael un sefydliad ôl-1992 yn ne-ddwyrain Cymru. Fel y dywedais yn fy natganiad, dyna yw polisi'r Llywodraeth hon.

**Aled Roberts:** Weinidog, nid wyf yn

prolong this afternoon's debate, as we were here some two weeks ago, the reality of the situation is that there appears to have been a major u-turn with regard to the policy—whether that is based on advice or in facing the political realities of this Chamber. As three parties, we all say that we favour a voluntary merger, but there has clearly been a failure on the part of officials or within the three institutions to convince one of the institutions about the strength of the case for merger. I also think that, in going forward, the lesson that needs to be learned in this case is that some of the tactics adopted—not by one of the institutions, but by a number of them—were not good with regard to how transparent and open the discussions were between the three institutions. I have seen copies of resolutions going back to 2005 that make it clear that, unless there was a decision taken in principle to merge, they were unwilling to discuss in an open manner. We need to look at the way in which we rebuild relationships so that, if we are to move towards one institution in south-east Wales, on the basis of a voluntary decision by two post-1992 institutions, there is greater confidence in the process. The reality of the situation is that there is a lot of rebuilding to be done, not only in relationships between the three institutions, but also in relationships with the Welsh Government itself.

3.00 p.m.

**Leighton Andrews:** It is disappointing that the Member did not feel able to welcome the progress that has been made by the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport in their merger discussions. The reality is that they have made excellent progress, as I reported in my statement. Our policy as a Government remains that we are committed to the establishment of a single post-1992 higher education institution in south-east Wales. I need to inform the Member that discussion on this issue goes back well before 2005—the date that he asserted; it goes well back to the early 2000s.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you, Minister, for your statement today, it is always good to see you coming to the Chamber to make

dymuno ymestyn y ddadl brynhawn heddiw, gan ein bod yn trafod hyn tua phythefnos yn ôl. Y sefyllfa mewn gwirionedd yw ei bod yn ymddangos y gwnaed tro pedol pwysig mewn cysylltiad â'r polisi—pa un a yw hynny'n seiliedig ar gyngor neu o ganlyniad i wynebu realiti gwleidyddol y Siambr hon. Rydym i gyd, yn dair plaid, yn dweud ein bod o blaid uno gwirfoddol, ond mae'n amlwg nad yw swyddogion neu'r sefydliadau eu hunain wedi llwyddo i argyhoeddi un o'r sefydliadau o gryfder yr achos dros uno. Rwyf hefyd yn meddwl mai'r wers y mae angen ei dysgu yn yr achos hwn, at y dyfodol, yw na fabwysiadwyd tactegau da iawn bob amser—nid gan un o'r sefydliadau, ond gan nifer ohonynt—o ran pa mor dryloyw ac agored yr oedd y trafodaethau rhwng y tri sefydliad. Rwyf wedi gweld copïau o benderfyniadau yn mynd yn ôl i 2005 sy'n ei gwneud yn glir eu bod yn amharod i drafod mewn modd agored, oni bai y gwnaed penderfyniad mewn egwyddor i uno. Mae angen i ni edrych ar sut i ailadeiladu'r berthynas fel y ceir mwy o hyder yn y broses, os ydym am symud tuag at gael un sefydliad yn ne-ddwyrain Cymru, ar sail penderfyniad gwirfoddol gan ddau o'r sefydliadau ôl-1992. Gwirionedd y sefyllfa yw bod llawer o ailadeiladu i'w wneud, nid yn unig o ran y berthynas rhwng y tri sefydliad, ond hefyd o ran y berthynas â Llywodraeth Cymru ei hun.

**Leighton Andrews:** Mae'n siomedig nad yw'r Aelod yn teimlo y gallai groesawu'r hyn sydd wedi'i gyflawni gan Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd yn eu trafodaethau ynglŷn ag uno. Y gwirionedd yw eu bod wedi symud ymlaen yn ardderchog, fel y dywedais yn fy natganiad. Ein polisi fel Llywodraeth o hyd yw ein bod wedi ymrwymo i sefydlu un sefydliad addysg uwch ôl-1992 yn ne-ddwyrain Cymru. Mae angen i mi roi gwybod i'r Aelod bod trafodaethau ynglŷn â'r mater hwn yn mynd yn ôl ymhell cyn 2005—y dyddiad y soniodd amdano—mae'n mynd yn ôl i'r 2000au cynnar.

**Andrew R.T. Davies:** Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad heddiw; mae bob amser yn braf eich gweld chi'n dod i'r



statements, especially when they reinforce the position that we have taken throughout these discussions that Cardiff Metropolitan University has a robust independent future. I welcome the merger between the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport. The University of Glamorgan has some 20,000 to 22,000 students; it is a large employer in my electoral region and it has a great future ahead of it. I believe that Cardiff Met has a great future ahead of it as well. What troubles me about your statement this afternoon is that you still maintain that it is the policy position of the Government to see one university in south-east Wales. Could you elaborate on what levers you will be using regarding policy to make this happen in the future? Or, will you subscribe today to a commitment that Cardiff Met will be allowed to continue on the course that it sees fit, and commend the governors and everyone connected with it for providing such a robust case to make sure that its independence is secure going forward?

**Leighton Andrews:** No, I am afraid not. I am going to say today that our policy remains that we believe in the establishment of a single post-1992 higher education institution in south-east Wales. As I said in reply to an earlier answer, I have written to the chair of HEFCW raising issues about the standard of governance and management of Cardiff Metropolitan University.

The issue for us today is that we should welcome the progress that has been made by the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport. We should look at the business plan that they produce when it comes forward and welcome the way in which they have sought to engage others both within and outside their institutions. They are now in the process of seeking a new name for that institution and looking to the future. We have a good proposal on the table in south-east Wales, but in terms of our overall policy, nothing has changed.

**Mark Drakeford:** Minister, when you made a statement on this matter before half term, I expressed my anxiety that the self-imposed

Siambwr i wneud datganiadau, yn enwedig pan fyddant yn ategu'r safbwynt yr ydym wedi ei ddatgan trwy gydol y trafodaethau hyn, sef bod gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd ddyfodol annibynnol, cadarn. Rwyf yn croesawu'r uno rhwng Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd. Mae gan Brifysgol Morgannwg tua 20,000 i 22,000 o fyfyrwyr; mae'n gyflogwr mawr yn fy rhanbarth etholiadol, ac mae dyfodol disglair o'i blaen. Credaf fod gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd ddyfodol disglair o'i blaen yn ogystal. Yr hyn sy'n fy mhoeni am eich datganiad brynhawn heddiw yw eich bod yn parhau i haeru mai polisi'r Llywodraeth yw gweld un brifysgol yn ne-ddwyrain Cymru. A allech chi ymhelaethu ynglŷn â'r ysgogiadau polisi y byddwch yn eu defnyddio i wneud i hyn ddigwydd yn y dyfodol? Neu, a fyddwch yn ymrwymo heddiw i ganiatáu i Brifysgol Fetropolitan Caerdydd barhau ar hyd y llwybr y mae'n ei ddewis, ac yn cymeradwyo'r llywodraethwyr a phawb sydd ynghlwm â'r Brifysgol am gyflwyno achos mor gadarn er mwyn gwneud yn siŵr bod ei hannibyniaeth yn ddiogel wrth symud ymlaen?

**Leighton Andrews:** Na fyddaf, mae arnaf ofn. Rwyf am ddweud heddiw mai ein polisi o hyd yw ein bod yn credu y dylid sefydlu un sefydliad addysg uwch ôl-1992 yn ne-ddwyrain Cymru. Fel y dywedais mewn ymateb i ateb cynharach, rwyf wedi ysgrifennu at gadeirydd CCAUC i godi materion ynglŷn â safon trefn lywodraethu a rheoli Prifysgol Fetropolitan Caerdydd.

Y pwynt i ni heddiw yw y dylem groesawu'r camau sydd wedi'u cymryd gan Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd. Dylem edrych ar y cynllun busnes y maent yn ei baratoi pan ddaw i law, a chroesawu'r ffordd y maent wedi ceisio ymgysylltu ag eraill o fewn ac o'r tu allan i'w sefydliadau. Maent yn awr yn y broses o chwilio am enw newydd ar gyfer y sefydliad ac yn edrych i'r dyfodol. Mae cynnig da wedi ei gyflwyno yn ne-ddwyrain Cymru, ond o ran ein polisi cyffredinol, nid oes dim wedi newid.

**Mark Drakeford:** Weinidog, pan wnaethoch ddatganiad ar y mater hwn cyn hanner tymor, mynegais fy mhryder nad oedd er lles gorau

absence of Cardiff Metropolitan from the negotiating table was not in the best interests of its staff or students. Does your statement today mean that this danger has deepened, and with the merger train now having set off from the station, Cardiff Metropolitan has been left standing on the platform?

**Leighton Andrews:** My colleague the Member for Cardiff West who knows these institutions very well because of his own constituency and academic interests, puts a statement to me in very graphic terms, which I know will be heard by people outside this Chamber, including the students and staff of all of the three post-1992 institutions in south-east Wales.

Today, I want to commend the successful developments in the relationship between the University of Wales, Newport and the University of Glamorgan. I am grateful to the chairs of those institutions for the way they have kept the Government informed of their discussions and the way in which they have approached this issue. Today, we are responding to the requests that they have made and I think that the level of discussion and involvement that they have shown with one another and their willingness to look at options is a model for the future. As my colleague is aware, our policy remains that we seek to establish a smaller number of stronger higher education institutions and our policy is that we believe that the best case remains for a single post-1992 higher education institution in south-east Wales.

**Mark Isherwood:** Your statement includes the statement that,

‘Wales...needs, a university of the size, power and reputation of the leading new universities in England’.

What consideration have you given to the three university league tables, which show that, in fact, there is absolutely no correlation between a university’s size and its power and reputation? How will you ensure that the views of students are heard? My daughter is a third-year student at the University of Glamorgan, and tells me that students at the university are overwhelmingly opposed at

staff na myfyrwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd i’r sefydliad ei heithrio ei hun o’r trafodaethau. A yw eich datganiad heddiw yn golygu bod y perygl wedi dyfnhau, a bod Prifysgol Fetropolitan Caerdydd wedi cael ei gadael yn yr orsaf wedi i drên y broses uno gychwyn ar ei thaith?

**Leighton Andrews:** Mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Orllewin Caerdydd, sy’n gyfarwydd iawn â’r sefydliadau hyn oherwydd ei etholaeth a’i ddi-ddordebau academiaidd ei hun, yn rhoi datganiad gafaalgwr i mi, a gwn y bydd yn cael ei glywed gan bobl y tu allan i’r Siambr hon, gan gynnwys myfyrwyr a staff ym mhob un o’r tri sefydliad ôl-1992 yn ne-ddwyrain Cymru.

Heddiw, rwyf am ganmol y datblygiadau llwyddiannus yn y berthynas rhwng Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg. Rwyf yn ddiolchgar i gadeiryddion y sefydliadau hynny am y modd y maent wedi parhau i hysbysu’r Llywodraeth am eu trafodaethau ac am y modd y maent wedi ymdrin â’r mater hwn. Heddiw, rydym yn ymateb i’r ceisiadau y maent wedi eu gwneud ac rwyf yn meddwl bod lefel eu trafodaeth a’u cyfranogiad a’u parodrwydd i edrych ar opsiynau yn fodel ar gyfer y dyfodol. Fel y gŵyr fy nghydweithiwr, ein polisi o hyd yw ein bod yn ceisio sefydlu nifer llai o sefydliadau addysg uwch cryfach, a’n polisi yw ein bod yn credu mai’r achos cryfaf o hyd yw’r un o blaid cael un sefydliad addysg uwch ôl-1992 yn ne-ddwyrain Cymru.

**Mark Isherwood:** Mae eich datganiad yn cynnwys y datganiad bod ar

Gymru angen prifysgol o faint, grym ac enw da y prifysgolion blaenllaw newydd yn Lloegr.

Pa ystyriaeth yr ydych wedi ei rhoi i dri thabl cynghrair y prifysgolion, sy’n dangos, mewn gwirionedd, nad oes unrhyw gysylltiad rhwng maint prifysgol a’i grym a’i henw da? Sut byddwch yn sicrhau bod barn y myfyrwyr yn cael ei glywed? Mae fy merch yn fyfyrwr trydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Morgannwg, ac mae’n dweud wrthyf bod mwyafrif llethol y myfyrwyr yn y brifysgol

this point to the proposed merger.

**Leighton Andrews:** I have to say to him that we have had representation from the student unions, and I have myself met the representatives of student unions in respect of all three institutions. I know from the University of Wales, Newport and the University of Glamorgan that they have taken steps to consult and involve students and staff within their institutions about the way forward. He raises questions of league tables; I have said in this Chamber in recent weeks that one of the disturbing things that we have seen over recent months, I am afraid, has been the fall of Cardiff Metropolitan University in *The Sunday Times* league table, and indeed in the national student survey, well below the threshold mark. These are serious issues and I know that they are issues of concern to HEFCW.

yn gwrthwynebu'r cynnig i uno ar hyn o bryd.

**Leighton Andrews:** Mae'n rhaid i mi ddweud wrtho ein bod wedi derbyn sylwadau gan gynrychiolwyr undebau'r myfyrwyr, ac rwyf i wedi fy hun cwrdd â chynrychiolwyr undebau'r myfyrwyr mewn cysylltiad â'r tri sefydliad. Rwy'n gwybod y cymerwyd camau ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg i ymgynghori â myfyrwyr a staff yn eu sefydliadau a'u cynnwys wrth benderfynu ar y ffordd ymlaen. Mae'n holi ynghylch tablau cynghrair; rwyf wedi dweud yn y Siambr yn yr wythnosau diwethaf mai un o'r pethau sydd wedi peri pryder dros y misoedd diwethaf, mae arnaf ofn, yw'r ffaith bod Prifysgol Fetropolitan Caerdydd wedi cwmpo'n llawer is na'r trothwy yng nghynghrair y *Sunday Times*, ac yn wir yn yr arolwg myfyrwyr cenedlaethol. Mae'r rhain yn faterion difrifol a gwn eu bod yn faterion sy'n peri pryder i CCAUC.

### **Datganiad: Ymateb i Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardaloedd Twf Lleol Powys**

#### **Statement: Response to the Report of the Powys Local Growth Zones Task and Finish Group**

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** In March this year I established the Powys local growth zones task and finish group, chaired by Justin Baird-Murray, owner and managing director of the Metropole Hotel in Llandrindod Wells. I set up the group to explore the suitability of local growth zones as an alternative approach to enterprise zones within Powys. We know that, as far as enterprise zones are concerned, the model does not fit all areas, so I asked the group to explore a model with a focus on smaller business and specific issues relating to the retail sector.

I published the group's report on 17 July and made a statement that same day. I was pleased that the report and its findings received broad support across the Chamber. I would like to thank Justin Baird-Murray and the members of the task and finish group for preparing such a thorough report that gave us much to consider.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Ym mis Mawrth eleni, sefydlais grŵp gorchwyl a gorffen lleol ardaloedd twf Powys, a gadeirir gan Justin Baird-Murray, perchennog a rheolwr gyfarwyddwr Gwesty'r Metropole yn Llandrindod. Sefydlais y grŵp i archwilio addasrwydd ardaloedd twf lleol fel dull amgen ar gyfer ardaloedd menter o fewn Powys. Rydym yn gwybod, cyn belled â bod yr ardaloedd menter yn y cwestiwn, nad yw'r model yn addas i bob ardal, felly gofynnais i'r grŵp archwilio model gyda ffocws ar fusnesau llai a materion penodol yn ymwneud â'r sector manwerthu.

Cyhoeddais adroddiad y grŵp ar 17 Gorffennaf a gwneud datganiad ar yr un diwrnod. Roeddwn yn falch bod yr adroddiad a'i ganfyddiadau wedi derbyn cefnogaeth eang ar draws y Siambr. Hoffwn ddiolch i Justin Baird-Murray ac aelodau o'r grŵp gorchwyl a gorffen am baratoi adroddiad trylwyr a roddodd lawer i'w hystyried i ni.

The report contained 40 recommendations, which I needed to explore with the chair of the group, ministerial colleagues and my officials over the summer in order to give them their due consideration. Many of the recommendations were for Powys County Council to take forward and, in July, I provided a copy of the report to Councillor David Jones, leader of the council, for his consideration. In terms of the recommendations for the Welsh Government, I am pleased to report that a great deal of progress has now been made. My purpose today is to update you as to how these various ideas and projects are being progressed. There are too many recommendations to mention individually in this statement, so I am making available a supporting document that goes into far more detail. I hope that Members will find the supporting document, which has been sent out today, helpful. For this statement today, therefore, I will focus on some of the key areas for action.

As part of its work, I asked the group to consider the issues affecting the towns of Newtown, Llandrindod Wells and Brecon. The group's overarching recommendation was for the Welsh Government to support,

'the development of business-led initiatives, including the appointment of champions, in each of the three towns of Newtown, Llandrindod Wells, and Brecon to work up and implement action plans'.

I am committed to taking forward such a project immediately in Llandrindod Wells, which will pilot the business-led approach, testing its suitability for being rolled out in Newtown, Brecon and other places as appropriate. I have already met with Justin Baird-Murray to discuss this, and have asked him to take forward this work. Again, I extend my thanks to him for offering his time and expertise. The work will be led by local businesses, which will work together to develop an action plan to address the economic sustainability of the town. Support will be made available from the Welsh Government to facilitate this work, which will also explore the possibility of developing

Finally, I have been greatly encouraged by early discussions that I have had about a hyperlocal website, to which the Minister referred, within the Brecon Beacons area, as part of the Brecon, Bronllys and Talgarth growth zone originally envisaged in the report when it was published. Does the Minister share my view that that initiative needs to draw extensively on the agricultural community in the hinterland of the town of Brecon, and could she elaborate on how that can be done effectively? Very often, that agricultural community is not fully harnessed when we are talking about rural regeneration.

dîm, a oedd yn tynnu yn gryf ar fusnesau lleol o bob cwr o'r ardal a chynrychiolwyr busnes, fel y Ffederasiwn Busnesau Bach, a chroesawaf hynny. Yn amlwg, roedd yr adroddiad yn gefnogol i greu cyfres o ardaloedd twf penodol ym Mhowys, ac rwy'n falch o weld bod argymhellion yn cael eu datblygu fesul cam gan Lywodraeth Cymru. Mae argymhellion yr adroddiad yn bellgyrhaeddol. Mewn ffordd gymharol gryno, mae'r adroddiad wedi gallu diffinio'r problemau sy'n wynebu Powys ac, wrth wneud hynny, wedi llwyddo i dynnu sylw at gyfres o ffyrdd y gall yr ardaloedd hyn fynd i'r afael â hwy er mwyn bod yn llwyddiant.

Rwy'n mawr groesawu datblygu'r fenter hyrwyddwyr lleol yn Llandrindod mewn ffordd a oedd hefyd yn nodwedd o adroddiad diweddar y Pwyllgor Menter a Busnes ar adfywio ehangach. Yn amlwg, wrth ddatblygu ardaloedd o'r fath, mae'n hanfodol i harneisio gwybodaeth leol a bod y defnydd mwyaf yn cael ei wneud ohono. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau y bydd hynny'n cael ei gyflawni, yn enwedig gan dynnu ar fodel Sefydliad Sirolli y cyfeiriodd hi ato yn ei datganiad. Mae'n amlwg bod angen i wella seilwaith caled a meddal, sy'n ganolog i argymhellion yr adroddiad. Er bod llawer wedi ei ddweud am y pwysigrwydd o ddarparu lefel gystadleuol o wasanaeth band eang i ardaloedd gwledig, a gwelliannau i ffyrdd, rydym hefyd angen ffyrddiau cyllid priodol i gyflawni'r rhain—ac roedd Simon Thomas yn iawn i bwysleisio'r gwasanaeth bob awr yn ei gyfraniad.

Yn olaf, rwyf wedi fy nghalonogi'n fawr gan drafodaethau cynnar a gefais am wefan hyperleol, y cyfeiriodd y Gweinidog ati, o fewn ardal Bannau Brycheiniog, fel rhan o ardal dwf Aberhonddu, Bronllys a Talgarth a ragwelwyd yn wreiddiol yn yr adroddiad pan gafodd ei gyhoeddi. A yw'r Gweinidog yn rhannu fy marn fod angen i'r fenter honno dynnu'n helaeth ar y gymuned amaethyddol yng nghyffiniau tref Aberhonddu, ac a all hi ymhelaethu ar sut y gellir gwneud hynny'n effeithiol? Yn aml iawn, nid yw'r gymuned amaethyddol honno'n cael ei harneisio'n llawn pan fyddwn yn sôn am adfywio gwledig.



**Edwina Hart:** I will take the last point first. When we roll that project out, it will be incumbent on us to look at the wider community outside Brecon and at what can be undertaken, so I can give you my assurance that that will be done. We have allocated over £150,000 for that project generally, and it goes across to Brecon and elsewhere, so the cash that has been attached to it is good.

On the Sirolli project, I was so impressed with it and its outcomes in Blaenau Gwent that I thought that it would work elsewhere. People think that someone is born or educated into being an entrepreneur, but this project worked with a lot of individuals who had good ideas but were not sure what to do with them, and perhaps could not deliver on their own. I was given a very good example in Blaenau Gwent of dealing with the wedding industry. Somebody wanted to do something with cars, somebody else wanted to do cakes and all the rest of it, and they wanted to get premises. By working with these individuals, they got them into a collective, so one premises shared all the business rates and everyone could work, provide and link with each other. There is a lot of work that can be done at community level. Therefore, if any Members have any suggestions, ideas or further discussions about the Sirolli project, we have not yet finalised the details.

You make a good point on the transport issues, which are quite clear, as well as the infrastructure issues. The positive thing is that we commissioned this report not that long ago. We had a statement in July, and now we are taking it through strategic implementation. It would be nice to have the resources to do some things a little quicker, but I also think, as this is so innovative, that there might be useful lessons to be learned. If this is successful in Powys, we will want to ensure that we can use it elsewhere in Wales as a model that can be adapted for use in other places.

**Edwina Hart:** Byddaf yn cymryd y pwynt olaf yn gyntaf. Pan fyddwn yn cyflwyno'r prosiect hwnnw, bydd yn ddyletswydd arnom i edrych ar y gymuned ehangach y tu allan i Aberhonddu ac ar yr hyn y gellir ei wneud, felly gallaf roi fy sicrwydd i chi y bydd hynny'n cael ei wneud. Rydym wedi dyrannu dros £150,000 ar gyfer y prosiect yn gyffredinol, ac mae'n mynd ar draws i Aberhonddu a mannau eraill, felly mae'r arian sydd ynghlwm ag ef yn dda.

O ran y prosiect Sirolli, roeddwn yn llawn edmygedd ohono a'i ganlyniadau ym Mlaenau Gwent fel fy mod yn credu y byddai'n gweithio mewn mannau eraill. Mae pobl yn meddwl bod rhywun yn cael ei eni neu ei addysgu i fod yn entrepreneur, ond mae'r prosiect yn gweithio gyda llawer o unigolion oedd ganddynt syniadau da ond nid oeddent yn siŵr beth i'w wneud gyda nhw, ac nid oeddent yn gallu eu cyflawni ar eu pen eu hunain efallai. Cefais enghraifft dda iawn ym Mlaenau Gwent o ddelio â'r diwydiant priodas. Roedd rhywun eisiau gwneud rhywbeth gyda cheir, rhywun arall eisiau gwneud cacennau a phopeth arall, ac roeddent yn dymuno cael adeilad. Drwy weithio gyda'r unigolion hyn, fe'u cawsant i ffurfio cydweithfa, felly roedd un adeilad yn rhannu'r holl ardrethi busnes, a gallai pawb weithio, darparu a chysylltu â'i gilydd. Mae llawer o waith y gellir ei wneud ar lefel gymunedol. Felly, os oes gan unrhyw Aelodau unrhyw awgrymiadau, syniadau neu drafodaethau pellach am y prosiect Sirolli, nid ydym wedi cwblhau'r manylion eto.

Rydych yn gwneud pwynt da ar y materion trafniadaeth, sydd yn eithaf clir, yn ogystal â'r materion seilwaith. Y peth cadarnhaol yw ein bod wedi comisiynu'r adroddiad hwn yn weddol ddiweddar. Cawsom ddatganiad ym mis Gorffennaf, ac yn awr rydym yn dechrau ei weithredu'n strategol. Byddai'n braf cael yr adnoddau i wneud rhai pethau ychydig yn gyflymach, ond rwyf hefyd yn credu, gan fod hyn mor arloesol, y gallai fod gwersi defnyddiol i'w dysgu. Os yw hyn yn llwyddiannus ym Mhowys, byddwn yn awyddus i sicrhau y gallwn ei ddefnyddio mewn mannau eraill yng Nghymru fel model y gellir ei addasu i'w ddefnyddio mewn mannau eraill.

I thank Members very much for their broad support on this, and if it would be helpful, Presiding Officer, I would be more than happy to update Members on the outstanding issues to which I have alluded before we go into recess in December.

**Elin Jones:** Mae rhai o nodweddion y trefi marchnad ym Mhowys yn union yr un peth â nodweddion y trefi marchnad yn fy etholaeth i, sef Ceredigion. Er enghraifft, rwy'n siŵr bod diffygion band eang Ceredigion lawn gymaint â'r rhai sydd ym Mhowys. Yn wahanol i rai siaradwyr eraill, efallai nad wyf mor awyddus i gymeradwyo eich cyhoeddiad i ofyn i BT roi blaenoriaeth i ardaloedd twf Powys ar draul ardaloedd gwledig eraill, fel y rhai yng Ngheredigion. Yn sgîl hyn oll—a rhesoch rywfaint o sylw i'r pwynt hwn yn eich ateb i William Powell—a wnewch chi ystyried, yng nghyd-destun y syniadau diddorol sy'n deillio o'r gwaith ym Mhowys, drafod â chynghorau sir eraill, a Chyngor Sir Ceredigion, yn fy achos i, i weld sut y gallant hwy ac ardaloedd gwledig eraill elwa o'r modelau sy'n dechrau ar waith ym Mhowys? Yn dilyn eich ymweliad â busnesau yn Aberteifi gyda fi, gwyddoch fod diddordeb penodol yn nhref Aberteifi yn y gwaith sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd ym Mhowys.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.36 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.36 p.m.*

**Edwina Hart:** Thank you for your contribution. I anticipated that you would be less welcoming of the announcement on broadband than others. Obviously, as a constituency AM, you have done a lot of lobbying about what is good for your constituents in that regard. I was pleased, during the summer, to have visited some businesses with you in Cardigan, and to have the opportunity of meeting with the leaders of Ceredigion council, who raised some of the issues about local growth zones with me. It is opportune for me to consider—perhaps before I make a decision and a further statement in December—how we could engage with local authorities on the early lessons that we are learning on the Powys growth zones. There will be an opportunity then for people to bring through various ideas. Huw Lewis and I have agreed this fund

Diolch yn fawr iawn i'r Aelodau am eu cefnogaeth eang ar hyn, ac os byddai'n ddefnyddiol, Lywydd, byddwn yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y materion sy'n weddill yr wyf wedi cyfeirio atynt cyn i ni gael toriad ym mis Rhagfyr.

**Elin Jones:** Some of the characteristics of market towns in Powys are exactly the same as those of the market towns in my constituency of Ceredigion. For instance, I am sure that the failure of broadband in Ceredigion is just as bad as it is in Powys. Unlike some other speakers, perhaps I am not too eager to endorse your announcement to ask BT to give priority to the Powys growth zones at the expense of other rural areas, such as those in Ceredigion. In light of all this—and you covered this point somewhat in your response to William Powell—will you consider, in the context of the interesting ideas emerging from the work in Powys, discussing with other county councils, and Ceredigion County Council in my case, to see how they and other rural areas can benefit from the models being established in Powys? Following your visit to businesses in Cardigan with me, you will know that there is specific interest in Cardigan town in the work currently under way in Powys.

**Edwina Hart:** Diolch i chi am eich cyfraniad. Roeddwn yn rhagweld y byddech yn rhoi llai o groeso i'r cyhoeddiad ar fand eang nag eraill. Yn amlwg, fel AC etholaeth, rydych wedi gwneud llawer o lobïo am yr hyn sy'n dda ar gyfer eich etholwyr yn hynny o beth. Roeddwn yn falch, yn ystod yr haf, i ymweld â rhai busnesau gyda chi yn Aberteifi, a chael y cyfle i gwrdd ag arweinwyr cyngor Ceredigion, a gododd rai o'r materion ynghylch ardaloedd twf lleol gyda mi. Mae'n amserol i mi ystyried—efallai cyn i mi wneud penderfyniad a datganiad pellach ym mis Rhagfyr—sut y gallem ymgysylltu ag awdurdodau lleol ar y gwersi cynnar yr ydym yn eu dysgu ar ardaloedd twf Powys. Bydd cyfle wedyn i bobl gyflwyno syniadau amrywiol. Mae Huw Lewis a minnau wedi cytuno ar y gronfa hon ar gyfer ardaloedd gwella busnes, felly mae

for business improvement districts, so there is certainly an opportunity there for other towns in Wales, which we would wish to encourage. Therefore, I will give some further consideration to the issues that you raise, and I will report back in December.

**Kirsty Williams:** Thank you for your statement, Minister. It is good news for Llandrindod Wells and the Brecon area. I note that you said that the report had many recommendations, which were the responsibility of the local authority. I also note that you wrote to the local authority in July to highlight those recommendations, and I am concerned to hear you say that you have not had a response from the local authority outlining what its approach will be to those recommendations. At what stage will you proactively be chasing Powys County Council for a response to the recommendations that fall within its remit? If the local authority is less than enthusiastic to pursue some of the work that has been recommended by Justin Baird-Murray and his colleagues, what scope do you have, if any, for the Welsh Government to look at taking on some of those responsibilities itself?

You will be aware that concern was expressed in the Ystradgynlais area that it was not included as part of the work in this area. The report made recommendations with regard to the Ystradgynlais area. We have the city region plan for Swansea, which could also encompass Ystradgynlais. Where does the very south of Powys fit into your plans for local regeneration, given some of the unique challenges that are faced by that ex-industrial, ex-mining community, which has many different characteristics than the rest of Powys?

**Edwina Hart:** Your point on the city regions in relation to Ystradgynlais is well made, and the area is concerned and would like to be included. I have looked at the transcript of the discussion that we had on city regions just before we went into recess, and we will be making decisions regarding how I will format further discussions within the city region. I give an open invitation to Members: before I make decisions in the next week or so, if Members have any particular views about

cyfle yno yn sicr ar gyfer trefi eraill yng Nghymru, y byddem yn dymuno eu hannog. Felly, byddaf yn rhoi rhywfaint o ystyriaeth bellach i'r materion a godir gennych, a byddaf yn adrodd yn ôl ym mis Rhagfyr.

**Kirsty Williams:** Diolch am eich datganiad, Weinidog. Mae'n newyddion da i Landrindod ac ardal Aberhonddu. Nodaf eich bod wedi dweud bod nifer o argymhellion yn yr adroddiad, a oedd yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol. Nodaf hefyd eich bod wedi ysgrifennu at yr awdurdod lleol ym mis Gorffennaf i dynnu sylw at yr argymhellion hynny, ac rwyf yn bryderus eich clywed yn dweud nad ydych wedi cael ymateb gan yr awdurdod lleol yn amlinellu beth fydd ei ddull gweithredu o ran yr argymhellion hynny. Ar ba gam fyddwch chi'n rhagweithiol yn mynd ar ôl Cyngor Sir Powys ar gyfer ymateb i'r argymhellion sy'n dod o fewn ei gylch gorchwyl? Os yw'r awdurdod lleol yn llai na brwdfrydig i fynd ar drywydd rhywfaint o'r gwaith sydd wedi cael ei argymhell gan Justin Baird-Murray a'i gydweithwyr, faint o gyfle sydd gennych, os o gwbl, i Lywodraeth Cymru ystyried dderbyn o'r cyfrifoldebau hyn ei hun?

Byddwch yn ymwybodol y mynegwyd pryder yn ardal Ystradgynlais nad oedd wedi'i gynnwys fel rhan o'r gwaith yn y maes hwn. Gwnaeth yr adroddiad argymhellion o ran ardal Ystradgynlais. Mae gennym gynllun dinas-ranbarth ar gyfer Abertawe, a allai hefyd gynnwys Ystradgynlais. Yn lle mae de eithaf Powys yn ffitio yn eich cynlluniau ar gyfer adfywio lleol, o ystyried rhai o'r heriau unigryw a wynebir gan y gymuned gyn-ddiwydiannol, gyn-lofaol honno, sydd â nifer o nodweddion gwahanol i weddill Powys?

**Edwina Hart:** Mae eich pwynt ar y dinas-ranbarthau o ran Ystradgynlais wedi ei wneud yn dda, ac mae'r ardal yn bryderus ac yn awyddus i gael ei chynnwys. Rwyf wedi edrych ar y trawsgrifiad o'r drafodaeth a gawsom ar ddinas-ranbarthau yn union cyn i ni fynd i mewn i'r toriad, a byddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch sut y byddaf i'n trefnu trafodaethau pellach o fewn y ddinas-ranbarth. Rwy'n rhoi gwahoddiad agored i Aelodau: cyn i mi wneud

how this will be dealt with, please come to me. On city regions, it is incumbent for there to be a good, proper discussion on key issues, and they can then come back and make recommendations to me. I do not believe that we necessarily want bureaucratic structures on city regions, with governance here and governance there. What we want is to get the dialogue going on the important issues. Therefore, that is an open invitation to Members.

I believe that I have already chased Powys council, but I will check the communication with my office. It was ideas that emerged from Powys, when we went for the enterprise zones, that allowed me to set up the local growth zone concept, and to drive it. Therefore, I think that we will be proactive with the local authority because there is a willingness there to undertake the work. However, this is actually quite difficult work because, as a Government, we are giving money but we are giving away our powers over dealing with it to other people, in the sense that this will be very business-led. I have no fear about doing that because I think that that is the best for community engagement and getting things going. However, not everyone in the public sector feels that way about the development of policies.

**The Deputy Presiding Officer:** Thank you, Minister. Items 5 and 6 have been postponed.

penderfyniadau yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf, os oes gan Aelodau unrhyw farn benodol am sut yr ymdrinnir â hyn, os gwelwch yn dda dewch ataf fi. Ar ddinas-ranbarthau, mae'n ddyletswydd bod trafodaeth dda, briodol ar faterion allweddol, a gallant wedyn ddod yn ôl a gwneud argymhellion i mi. Nid wyf yn credu ein bod o reidrwydd eisiau strwythurau biwrocraataidd ar ddinas-ranbarthau, gyda llywodraethu yma a llywodraethu acw. Yr hyn yr ydym ei eisiau yw dechrau'r ddeialog ar y materion pwysig. Felly, mae hynny yn wahoddiad agored i Aelodau.

Credaf fy mod eisoes wedi mynd ar ôl cyngor Powys, ond byddaf yn edrych ar y cyfathrebu gyda fy swyddfa. Syniadau a ddaeth i'r amlwg o Bowys, pan aethom am yr ardaloedd menter, ganiataodd i mi sefydlu'r cysyniad ardal dwf leol, ac i'w sbarduno. Felly, rwyf yn meddwl y byddwn yn rhagweithiol gyda'r awdurdod lleol oherwydd bod parodrwydd yno i wneud y gwaith. Fodd bynnag, mae hyn yn waith eithaf anodd mewn gwirionedd oherwydd, fel Llywodraeth, rydym yn rhoi arian ond rydym yn rhoi ein pwerau dros ymdrin ag ef i bobl eraill, yn yr ystyr y bydd hyn yn cael ei arwain gan fusnes. Nid wyf yn poeni am wneud hynny oherwydd rwy'n credu mai dyna sydd orau ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a chychwyn pethau. Fodd bynnag, nid yw pawb yn y sector cyhoeddus yn teimlo felly am ddatblygu polisïau.

**Y Dirprwy Lywydd:** Diolch ichi, Weinidog. Mae eitemau 5 a 6 wedi eu gohirio.

### **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Bathodynau Parcio Personau Anabl Legislative Consent Motion on the Disabled Persons' Parking Badges Bill**

*Cynnig NDM5039 Carl Sargeant*

*Motion NDM5039 Carl Sargeant*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Bathodynau Parcio Personau Anabl, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that the provisions of the Disabled Persons' Parking Badges Bill, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly, should be considered by the UK Parliament.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move the

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigïaf y

motion.

This legislative consent motion concerns the removal of fake, forged and expired blue badges from circulation, freeing up parking spaces for legitimate badge holders and allowing them to access services and facilities in Wales.

**Mohammad Asghar:** I wish to speak in favour of this motion. The Disabled Persons' Parking Badges Bill was introduced in Westminster by Simon Kirby, a Conservative, with the support of Liberal Democrats and Labour MPs. The Bill's aims are to tackle the problem of the abuse of the blue badges scheme and to protect genuine badge holders. The National Fraud Authority has estimated that the abuse of the current scheme is costing local authorities up to £46 million a year. Under this measure, local authorities will have the power to recover blue badges that have been cancelled, have expired, are fake, or are being misused by third parties. It will make it clear in law that it is an offence to use a badge that should have been returned to the issuing authority. It will make enforcement of the rules easier and more effective for local authorities. Under the existing scheme, armed forces personnel and their families who are eligible for a badge may not meet the residency requirement if they are posted overseas. This measure will deal with that anomaly by extending the right to a badge to eligible armed forces personnel and their families residing overseas on UK bases.

Abuse of the blue badge scheme causes considerable inconvenience and frustration to those who are genuinely disabled. These changes will not only improve the credibility of the scheme but free up more parking spaces for genuine badge holders who are most in need.

**Lindsay Whittle:** On behalf of the Party of Wales, Plaid Cymru, I, too, welcome the Disabled Persons' Parking Badges Bill that is going through Westminster as a private Member's Bill. I fully support its aim of preventing blue badge fraud. My colleague at

cynnig.

Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn ymwneud â chael gwared ar fathodynau glas ffug, wedi'u ffugio ac wedi dod i ben o gylchrediad, gan ryddhau lleoedd parcio ar gyfer deiliaid bathodynau dilys a'u galluogi i gael mynediad i wasanaethau a chyfleusterau yng Nghymru.

**Mohammad Asghar:** Rwy'n dymuno siarad o blaid y cynnig hwn. Cyflwynwyd y Bil Bathodynau Parcio Pobl Anabl yn San Steffan gan Simon Kirby, Ceidwadwr, gyda chefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol ac Aelodau Seneddol Llafur. Amcanion y Bil yw mynd i'r afael â'r broblem o gam-drin y cynllun bathodynau glas ac amddiffyn deiliaid bathodynau dilys. Mae'r Awdurdod Twyll Cenedlaethol wedi amcangyfrif bod cam-drin y cynllun presennol yn costio hyd at £46 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol. O dan y mesur hwn, bydd gan awdurdodau lleol y pŵer i adennill bathodynau glas sydd wedi cael eu canslo, wedi dod i ben, sy'n ffug, neu sy'n cael eu camdefnyddio gan drydydd parti. Bydd yn ei gwneud yn glir yn y gyfraith ei bod yn drosedd i ddefnyddio bathodyn a ddylai fod wedi cael ei ddychwelyd i'r awdurdod cyhoeddi. Bydd yn gwneud gorfodi rheolau yn haws ac yn fwy effeithiol i awdurdodau lleol. O dan y cynllun presennol, efallai na fydd personél y lluoedd arfog a'u teuluoedd sy'n gymwys i gael bathodyn yn bodloni'r gofyniad preswyllo os ydynt yn cael eu postio dramor. Bydd y mesur hwn yn delio â'r anomaledd hwn drwy ymestyn yr hawl i gael bathodyn i aelodau cymwys y lluoedd arfog a'u teuluoedd sy'n byw dramor ar safleoedd yn y DU.

Mae cam-drin y cynllun bathodyn glas yn achosi anhwylostod sylweddol a rhwystredigaeth i'r rhai sy'n wirioneddol anabl. Bydd y newidiadau hyn nid yn unig yn gwella hygredd y cynllun ond yn rhyddhau mwy o fannau parcio i deiliaid bathodynau dilys sydd fwyaf mewn angen.

**Lindsay Whittle:** Ar ran Plaid Cymru - the party of Wales, rwyf innau, hefyd, yn croesawu'r Bil Bathodynau Parcio Pobl Anabl sy'n mynd drwy San Steffan fel Bil Aelod preifat. Rwyf yn llwyr gefnogi ei nod o atal twyll bathodynau glas. Mae fy

Westminster, Hywel Williams MP, was one of three backbenchers who spoke on the Bill at Committee Stage. As we all know, the blue badge scheme is a wonderful scheme that enables disabled people to park close to locations that they would otherwise be unable to visit. My 81-year-old mother would never have got to bingo without it.

Nevertheless, there is a great deal of concern about the misuse of these badges, and there have been claims that there is even a black market in their sale, although I do not know whether that is true. In welcoming this Bill, it is important, as Disability Wales said in its evidence, that disabled people are not criminalised. Therefore, regulations need to be defined to avoid drawing these rules too tightly and causing unnecessary difficulties for a group of people who, by definition, have additional needs.

I hope, if not assume, that the prescribed form for badges will be bilingual in Wales, although, following the recent mess with the police commissioner ballot papers, perhaps I should not take that for granted. We fully support the legislation.

**The Deputy Presiding Officer:** I am sorry to say that, not for the first time, I have not called the Chair of the relevant committee to speak before other Members have contributed. To add to my embarrassment, it is the same Chair. [*Laughter.*] With apologies, I now call the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, Ann Jones.

3.45 p.m.

**Ann Jones:** It is all right, Deputy Presiding Officer. You still owe me one. In fact, you probably owe me more than one now. I welcome the opportunity to contribute to this debate as the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, which considered the LCM at our committee meeting on 4 October. We note that the purpose of this Bill is to reduce the abuse of the blue badge scheme by amending existing legislation and that the Bill does not seek to

nghydweithiwr yn San Steffan, Hywel Williams AS, yn un o dri ar y meinciau cefn a siaradodd ar y Bil yn y Cam Pwyllgor. Fel yr ydym i gyd yn gwybod, mae'r cynllun bathodyn glas yn gynllun gwych sy'n galluogi pobl anabl i barcio yn agos i leoliadau na fyddent fel arall yn gallu ymweld â nhw. Ni fyddai fy mam 81 mlwydd oed byth wedi gallu mynd i'r bingo hebdo.

Serch hynny, mae llawer iawn o bryder ynghylch y camddefnydd o'r bathodynau, a bu honiadau bod marchnad ddu hyd yn oed yn eu gwerthu, er nad wyf yn gwybod a yw hynny'n wir. Wrth groesawu'r Bil hwn, mae'n bwysig, fel y dywedodd Anabledd Cymru yn ei dystiolaeth, nad yw pobl anabl yn cael eu trin fel troseddwr. Felly, rhaid i'r rheoliadau gael eu diffinio er mwyn osgoi gwneud y rheolau hyn yn rhy dynn ac achosi anawsterau diangen i grŵp o bobl sydd, drwy ddiffiniad, ag anghenion ychwanegol.

Rwy'n gobeithio, os nad yn cymryd yn ganiataol, y bydd y ffurflen ragnodedig ar gyfer bathodynau yn ddwyieithog yng Nghymru, er, yn dilyn y llanast yn ddiweddar gyda phapurau pleidleisio comisiynydd yr heddlu, efallai na ddylwn gymryd hynny'n ganiataol. Rydym yn cefnogi'n llawn y ddeddfwriaeth.

**Y Dirprwy Lywydd:** Mae'n ddrwg gennyf ddweud, nid am y tro cyntaf, nid wyf wedi galw Cadeirydd y pwyllgor perthnasol i siarad cyn i Aelodau eraill gyfrannu. I ychwanegu at fy embaras, yr un Cadeirydd yw hi. [*Chwerthin.*] Gydag ymddiheuriadau, rwyf yn awr yn galw ar Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Ann Jones.

**Ann Jones:** Mae'n iawn, Ddirprwy Lywydd. Mae arnoch chi un i mi o hyd. Yn wir, mae'n debyg bod arnoch chi fwy nag un nawr. Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddatl hon fel Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, a oedd yn ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ein cyfarfod pwyllgor ar 4 Hydref. Rydym yn nodi mai diben y Bil hwn yw lleihau'r cam-drin ar y cynllun bathodyn glas drwy ddiwygio deddfwriaeth bresennol ac nad

change the criminal law in relation to the misuse of badges and the penalties applicable for doing so. That is a protection for those disabled people who have badges and it is a protection against the third-party, black-market element that has been referred to.

Clearly, it is an advantage to seek consistency in the application of the scheme in England and Wales. As part of the scrutiny that the committee undertook, we wrote to Disability Wales to seek its views. It has welcomed the measures to reduce the misuse of blue badges. We recommended that the issues raised by Disability Wales should be considered by the Minister and that he looks specifically at the issue of a warning being given to badge holders before a badge is cancelled or removed by a local authority. Therefore, with that proviso, the committee has no objection to the use of an LCM, as proposed by the Welsh Government on this occasion.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I am grateful to the Chair and to the committee for their support on this. As Members' contributions today quite rightly put, these blue badges are very valuable to people who need and use them on a daily basis. However, they are being used fraudulently by a minority, costing the taxpayer and taking up valuable space for disabled people across Wales and the UK, thereby causing great disservice to the people who need blue badges.

We should be very proud that Wales is the only part of the UK that does not charge for the blue badge scheme. That is why we were very keen to not introduce another burden in some areas for disabled people. This is something that we have not pursued in Wales. Of course, I recognise the point that was raised by the committee in terms of the enforcement of this Bill. We believe that the guidance will have strength, which will ensure a full review when a badge is seized, so that there is a full understanding of the reasons why this should take place. This is something that we must act upon swiftly. I

yw'r Bil yn ceisio newid y gyfraith droseddol mewn perthynas â chamddefnyddio bathodynau a'r cosbau sy'n berthnasol am wneud hynny. Mae hynny'n amddiffyniad ar gyfer y bobl anabl sydd â bathodynau ac mae'n amddiffyniad yn erbyn yr elfen trydydd parti, marchnad ddu y cyfeiriwyd ati.

Yn amlwg, mae'n fantais i geisio cysondeb wrth ddefnyddio'r cynllun yng Nghymru a Lloegr. Fel rhan o'r gwaith craffu yr ymgymrodd y pwyllgor ag ef, ysgrifenasom at Anabledd Cymru i ofyn am ei farn. Mae wedi croesawu'r mesurau i leihau camddefnyddio bathodynau glas. Rydym yn argymhell y dylai'r materion a godwyd gan Anabledd Cymru gael eu hystyried gan y Gweinidog a'i fod yn edrych yn benodol ar y mater o roi rhybudd i ddeiliaid bathodyn cyn i fathodyn gael ei ddiddymu neu ei ddileu gan awdurdod lleol. Felly, gyda'r amod honno, nid oes gan y Pwyllgor unrhyw wrthwynebiad i'r defnydd o gynnig cydsyniad deddfwriaethol, fel y cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru ar yr achlysur hwn.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Rwy'n ddiolchgar i'r Cadeirydd ac i'r pwyllgor am eu cefnogaeth ar hyn. Fel y mae cyfraniadau'r Aelodau heddiw yn nodi'n gwbl briodol, mae'r bathodynau glas yn werthfawr iawn i bobl sydd eu hangen ac sy'n eu defnyddio o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, maent yn cael eu defnyddio'n dwyllodrus gan leiafrif, sy'n costio arian i'r trethdalwr ac yn cymryd lle gwerthfawr ar gyfer pobl anabl ar draws Cymru a'r DU, gan wneud anghymwynas fawr â'r bobl sydd angen bathodynau glas.

Dylem fod yn falch iawn mai Cymru yw'r unig ran o'r DU nad yw'n codi tâl am y cynllun bathodyn glas. Dyna pam yr ydym yn awyddus iawn i beidio â chyflwyno baich arall mewn rhai ardaloedd i bobl anabl. Mae hyn yn rhywbeth nad ydym wedi ei ddilyn yng Nghymru. Wrth gwrs, rwyf yn cydnabod y pwynt a godwyd gan y pwyllgor o ran gorfodi'r Bil hwn. Rydym yn credu y bydd gan y cyfarwyddyd gryfder, a fydd yn sicrhau adolygiad llawn pan fydd bathodyn yn cael ei atafaelu, fel bod dealltwriaeth lawn o'r rhesymau pam y dylai hyn ddigwydd. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i ni weithredu

am grateful for the support today.

arno'n gyflym. Rwy'n ddiolchgar am y gefnogaeth heddiw.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

**Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio sy'n ymwneud â'r Banc Buddsoddi Gwyrdd**  
**Legislative Consent Motion on the Enterprise and Regulatory Reform Bill relating to the Green Investment Bank**

*Cynnig NDM5040 Edwina Hart*

*Motion NDM5040 Edwina Hart*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio sy'n ymwneud â'r Banc Buddsoddi Gwyrdd (y 'BBG'), i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions of the Enterprise and Regulatory Reform Bill relating to the Green Investment Bank (the 'GIB'), in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly, should be considered by the UK Parliament.*

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I move the motion.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Cynigaf y cynnig.

The Enterprise and Business Committee and the Environment and Sustainability Committee have considered the legislative consent motion on the green investment bank provisions in the Enterprise and Regulatory Reform Bill. Both committees support the use of a legislative consent motion as proposed by the Welsh Government. I therefore have pleasure in moving the motion.

Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes a'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar y darpariaethau banc buddsoddi gwyrdd yn y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio. Mae'r ddau bwyllgor yn cefnogi'r defnydd o gynnig cydsyniad deddfwriaethol a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru. Felly mae'n bleser gennyf gynnig y cynnig.

**Ieuan Wyn Jones:** Rwy'n croesawu'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud. Rydym ni fel plaid hefyd yn cefnogi'n gryf y bwriad i sefydlu banc buddsoddi gwyrdd. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn cofio bod Llywodraeth Cymru'n Un wedi cyflwyno strategaeth swyddi gwyrdd, a oedd yn cael ei gweld fel rhywbeth arloesol iawn yn y cyfnod hwnnw ac a gafodd gefnogaeth eang ar draws y pleidiau yn y Siambr hon.

**Ieuan Wyn Jones:** I welcome what the Minister has said. We too, as a party, support in the strongest terms the intention to establish a green investment bank. I am sure that the Minister remembers that the One Wales Government introduced a green jobs strategy, which was seen as being very innovative at that time and which received widespread support across the parties in this Chamber.



Wedi dweud hynny, rydym yn siomedig nad yw'r banc hwn wedi cael ei leoli yng Nghymru. Rwy'n gwybod bod cais cryf iawn wedi'i wneud i geisio sicrhau hynny. O gofio'r siom hwnnw, a yw'r Gweinidog yn hapus bod digon o wybodaeth yng Nghymru ynglŷn â gallu'r banc hwn i hybu diwydiannau yn y sector gwyrdd—ynni gwyrdd neu beth bynnag arall—i sicrhau bod Cymru yn cael siâr deilwng o'r cyfalaf a fydd ar gael? Nid yw'n gyfalaf enfawr yng nghydestun yr angen; mae adran fusnes Llywodraeth y DU yn amcangyfrif y bydd angen gwario £200 biliwn yn y sector hwn yn y blynyddoedd nesaf a dim ond cyfalaf o £3 biliwn sy'n cael ei neilltuo drwy'r drefn hon. A yw'r Gweinidog, felly, yn derbyn efallai fod angen inni sicrhau bod mwy o wybodaeth yn mynd i'r diwydiannau yn y sector preifat a allai elwa o'r gronfa hon, er mwyn sicrhau bod Cymru, os na fydd yn lleoliad i'r banc, yn cael ei siâr o'r buddsoddiad?

**Mick Antoniw:** My concern is not so much the location, but the discussions that have taken place on the degree of consultation that will take place between the UK Government and the devolved administrations. There has been debate during the legislative process about whether there should be regular reports and some consultation seeking the views of the Welsh Ministers. The concern is that a UK green investment bank should not become an English green investment bank. What assurances have you been given that the devolved administrations, in particular the Welsh Government, will be adequately involved and consulted on the future operation and conduct of such a bank?

**William Powell:** On behalf of the Welsh Liberal Democrat group, I strongly support this LCM. The green investment bank has the potential to increase investment in environmental causes and to help to improve the poor state of infrastructure across the UK, including, crucially, Wales. I was pleased that the Liberal Democrats included this in our manifesto for the 2010 general election and I was also pleased when, in Government, the party was able to fend off Treasury challenges to its independence, including an attempt to turn it into a one-off capital fund

Having said that, we are disappointed that this bank is not located in Wales. I know that a very strong case was made to try to ensure that that happened. Remembering that disappointment, is the Minister content that there is sufficient information in Wales in relation to the ability of this bank to promote industries in the green sector—green energy or whatever it may be—to ensure that Wales receives a fair share of the capital that will be available? It is not an enormous amount of capital in the context of the need; the business department of the UK Government estimates that £200 billion will need to be spent in this sector in the coming years, but only £3 billion of capital is being allocated through this regime. Does the Minister therefore accept that there may be a need to ensure that more information goes to the private sector industries that could benefit from this fund, in order to ensure that Wales, even if it is not the location for the bank, receives its share of the investment?

**Mick Antoniw:** Nid y lleoliad yw fy mhryder yn gymaint, ond y trafodaethau sydd wedi digwydd ar y radd o ymgynghori a fydd yn digwydd rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Cafwyd dadl yn ystod y broses deddfwriaethol ynghylch a ddylid cael adroddiadau rheolaidd a rhywfaint o ymgynghori yn ceisio barn Gweinidogion Cymru. Y pryder yw na ddylai banc buddsoddi gwyrdd y DU ddod yn fanc buddsoddi gwyrdd Lloegr. Pa sicrwydd a gawsoch y bydd y gweinyddiaethau datganoledig, yn enwedig Llywodraeth Cymru, yn cael eu cynnwys ac yr ymgynghorir â nhw'n ddigonol ar weithrediad ac ymddygiad banc o'r fath yn y dyfodol?

**William Powell:** Ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, rwy'n cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Mae gan y banc buddsoddi gwyrdd y potensial i gynyddu buddsoddiad mewn achosion amgylcheddol ac i helpu i wella cyflwr gwael seilwaith ar draws y DU, gan gynnwys, yn hollbwysig, Cymru. Roeddwn yn falch bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn cynnwys hyn yn ein maniffesto ar gyfer etholiad cyffredinol 2010 ac roeddwn yn falch hefyd pan, mewn Llywodraeth, oedd y blaid yn gallu cadw draw heriau'r Trysorlys i'w

rather than a bank that would be able to recycle the funds and therefore increase the benefit. As the bank will be independent of Government, it will be able to invest in the projects that are likely to have the biggest impact on our future carbon footprint. It will also provide a stable investment for pensions and so on that will give us the opportunity to contribute to a more diversified banking sector and provide us with stability for investment funds. I commend it to the Chamber.

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** In respect of Ieuan Wyn Jones's comments, he is quite right—it is capitalised for £3 billion. It will, hopefully, play a vital role in addressing the market failures affecting green infrastructure projects, but it will require unprecedented investment in green sectors if the economy in that area is to be buoyant. The green investment bank will benefit the economy, as will other things. So, to my mind, it is part of something greater. The UK Government established the world's first investment bank dedicated solely to the economy to complement other green policies, but the purpose of the proposal that seeks our consent to the Bill's provisions is to ensure that the bank's provisions apply to Wales, because there is an issue, as Mick Antoniw indicated, namely that we did not want this to become an English-only bank. Therefore, I fully take on board the points that have been made by speakers and I will ensure that there is ongoing dialogue with UK Government about how this bank is dealt with and the benefits to Wales, which we will analyse closely, because it has only just been set up for business. I will also ensure that it is publicised well in Wales in terms of how companies can access it and I will report back to the Assembly, probably in the form of a letter to Members, about what action will be undertaken in the light of the discussions today.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is that the motion be agreed to. Are there any objections? I see that there are none. The motion is therefore agreed in

annibyniaeth, gan gynnwys ymgais i'w droi'n gronfa cyfalaf untro yn hytrach na banc a fyddai'n gallu ailgylchu'r arian a thrwy hynny gynyddu'r budd-dal. Gan y bydd y banc yn annibynnol ar y Llywodraeth, bydd yn gallu buddsoddi yn y prosiectau sydd yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar ein hól troed carbon yn y dyfodol. Bydd hefyd yn darparu buddsoddiad sefydlog ar gyfer pensiynau ac yn y blaen fydd yn rhoi cyfle i ni gyfrannu at sector bancio fwy amrywiol ac yn rhoi i ni sefydlogrwydd ar gyfer cronfeydd buddsoddi. Fe'i cymeradwyaf i'r Siambr.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** O ran sylwadau Ieuan Wyn Jones, mae'n hollol iawn—mae'n cael ei gyfalafu am £3 biliwn. Fe fydd, gobeithio, yn chwarae rhan hanfodol wrth fynd i'r afael â'r methiannau yn y farchnad sy'n effeithio ar brosiectau seilwaith gwyrdd, ond bydd angen buddsoddiad digynsail yn y sectorau gwyrdd os yw'r economi yn y maes hwnnw i fod yn fywiog. Bydd y banc buddsoddi gwyrdd o fudd i'r economi, fel y bydd pethau eraill. Felly, yn fy marn i, mae'n rhan o rywbeth mwy. Sefydlodd Llywodraeth y DU fanc buddsoddi cyntaf y byd yn ymwneud yn unig â'r economi i ategu polisiau gwyrdd eraill, ond pwrpas y cynnig sy'n ceisio ein cydsyniad i ddarpariaethau'r Bil yw sicrhau bod darpariaethau'r banc yn berthnasol i Gymru, oherwydd mae problem, fel y nododd Mick Antoniw, sef nad oeddem am i hwn ddod yn fanc Lloegr yn unig. Felly, rwy'n derbyn yn llwyr y pwyntiau sydd wedi cael eu gwneud gan siaradwyr a byddaf yn sicrhau bod deialog parhaus gyda Llywodraeth y DU ynghylch sut yr ymdrinnir â'r banc hwn a'r manteision i Gymru, y byddwn yn eu dadansoddi'n ofalus, oherwydd mai newydd gael ei sefydlu ar gyfer busnes y mae. Byddaf hefyd yn sicrhau ei fod yn cael cyhoeddusrwydd da yng Nghymru o ran sut y gall cwmnïau gael mynediad ato a byddaf yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad, fwy na thebyg ar ffurf llythyr at yr Aelodau, ynghylch pa gamau a gymerir yng ngoleuni'r trafodaethau heddiw.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei gymeradwyo. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Mae'r

accordance with Standing Order No. 12.36.

cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

### **Ymgynghoriad ar Bolisi Adfywio yn y Dyfodol Consultation on Future Regeneration Policy**

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 2, 3, 4, 5 a 6 yn enw William Graham.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 2, 3, 4, 5 and 6 in the name of William Graham.

*Cynnig NDM5080 Jane Hutt*

*Motion NDM5080 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi'r ymgynghoriad ar y polisi adfywio yn y dyfodol a gynhwysir yn 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid—Fframwaith Adfywio Newydd'.*

*Notes the consultation on future regeneration policy contained in 'Vibrant and Viable Places—A New Regeneration Framework'.*

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I move the motion.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Cynigiaf y cynnig.

I welcome the opportunity today for us all to take stock of the Welsh Government's emerging regeneration policy following the publication of our consultation document 'Vibrant and Viable Places', which is the result of the policy review that I announced earlier this year. I wanted to look afresh at our approaches to regeneration in Wales, across Government and beyond, and to compare these approaches with the best practice that we can see from around the world. The time is right to do this, as we have nearly fulfilled our existing commitments to our seven regeneration areas as they currently stand and we now find ourselves in a very different economic climate from the circumstances in which we established those seven programmes.

Rwy'n croesawu'r cyfle heddiw i ni i gyd bwysu a mesur polisi adfywio Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg yn dilyn cyhoeddi ein dogfen ymgynghori 'Lleoedd Bywiog a Hyfyw', sef canlyniad yr adolygiad polisi a gyhoeddais yn gynharach eleni. Roeddwn i eisiau edrych o'r newydd ar ein dulliau adfywio yng Nghymru, ar draws y Llywodraeth a thu hwnt, ac i gymharu'r dulliau hyn â'r arfer gorau y gallwn ei weld o bob cwr o'r byd. Mae'r amser yn iawn i wneud hyn, gan ein bod bron wedi cyflawni ein hymrwymadau presennol i'n saith ardal adfywio fel y maent ar hyn o bryd ac rydym bellach yn ein cael ein hunain mewn hinsawdd economaidd wahanol iawn i'r amgylchiadau pan oeddem yn sefydlu'r saith rhaglen.

We remain committed to renewing town centres and seaside towns. The Enterprise and Business Committee's town centre regeneration report was extremely helpful and is informing our approach to delivering on those commitments. However, the regeneration agenda is much broader than that, and runs through the whole of our programme for government.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i adnewyddu canol trefi a threfi glan môr. Roedd adroddiad adfywio canol trefi'r Pwyllgor Menter a Busnes yn hynod ddefnyddiol ac mae'n llywio ein dull o gyflawni'r ymrwymadau hynny. Fodd bynnag, mae'r agenda adfywio yn llawer ehangach na hynny, ac yn rhedeg drwy ein holl raglen ar gyfer llywodraeth.

I hope that all Members present will have had a chance to consider the consultation proposals, but I wish to take this opportunity to outline the key points. We have set out a clear vision:

‘that everybody in Wales should live in a vibrant, viable and sustainable community with a strong local economy’.

In pursuit of that vision, the review that we have undertaken has identified three key messages about what we need to achieve. First, we need to strengthen governance around regeneration, which is why I am proposing regional boards to drive effective spatial planning and prioritisation. These will be overseen by a ministerial advisory group on regeneration, which will use a new, wide-ranging framework of national outcomes. We will ensure that, at every level, we gather the evidence we need to make robust investment decisions, taking a combined people and place approach.

Secondly, partnership is critical. This applies to different departments within the Welsh Government, particularly in terms of our efforts to tackle poverty. The whole Cabinet is signed up to the new framework and we are determined to work closely together to deliver it. The vast majority of Government investment has some kind of regeneration potential, and I want to unlock it. Partnership also applies across the wider public, private and third sectors. I want to make sure that our consultation reaches people and organisations in those sectors who would not necessarily consider themselves as part of the regeneration family because they will have a major part to play in implementation.

Despite the current economic climate, we do have the tools to achieve closer integration and better outcomes: the next round of European funding, the relaunched Communities First programme and the Wales infrastructure investment plan are all key examples. There are significant opportunities emerging from the enterprise zones, the report on city regions, and the work on local

Gobeithiaf y bydd pob Aelod sy'n bresennol wedi cael cyfle i ystyried y cynigion ymgynghori, ond hoffwn gymryd y cyfle hwn i amlinellu'r pwyntiau allweddol. Rydym wedi gosod gweledigaeth glir:

y dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymuned fywiog, hyfyw a chynaliadwy gydag economi lleol cryf.

Wrth geisio cyflawni'r weledigaeth honno, mae'r adolygiad yr ydym wedi ei gynnal wedi nodi tair neges allweddol am yr hyn y mae angen i ni ei gyflawni. Yn gyntaf, mae angen i ni gryfhau llywodraethu sy'n ymwneud ag adfywio, a dyna pam yr wyf yn cynnig byrddau rhanbarthol i ysgogi cynllunio gofodol effeithiol a blaenoriaethu. Bydd y rhain yn cael eu goruchwyllo gan grŵp cynghori gweinidogol ar adfywio, a fydd yn defnyddio fframwaith o ganlyniadau cenedlaethol newydd, eang ei gwmpas. Byddwn yn sicrhau, ar bob lefel, ein bod yn casglu tystiolaeth sydd ei hangen i ni wneud penderfyniadau buddsoddi cadarn, gan gymryd ymagwedd gyfunol pobl a lle.

Yn ail, mae partneriaeth yn hanfodol. Mae hyn yn berthnasol i wahanol adrannau o fewn Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran ein hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi. Mae'r Cabinet cyfan yn cytuno â'r fframwaith newydd ac rydym yn benderfynol o weithio'n agos gyda'n gilydd i'w gyflawni. Mae gan y rhan fwyaf o fuddsoddiad gan y Llywodraeth rhyw fath o botensial adfywio, ac rwyf yn dymuno ei ddatgloi. Mae partneriaeth hefyd yn berthnasol ar draws y sectorau cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ehangach. Rwyf am wneud yn siŵr bod ein hymgyngoriad yn cyrraedd pobl a sefydliadau yn y sectorau hynny na fyddent o reidrwydd yn ystyried eu hunain fel rhan o'r teulu adfywio oherwydd bydd ganddynt ran bwysig i'w chwarae wrth weithredu.

Er gwaethaf yr hinsawdd economaidd bresennol, mae gennym yr offer i gyflawni integreiddio agosach a gwell canlyniadau: mae'r rownd nesaf o gyllid Ewropeaidd, y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a ail-lansiwyd a'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith Cymru i gyd yn enghreifftiau allweddol. Mae cyfleoedd sylweddol sy'n deillio o'r ardaloedd menter, yr adroddiad ar ddinas-

growth zones, which we have heard about this afternoon. Our continued investment in health and education can deliver additional regeneration benefits.

Thirdly, we know from our review that the experience in our regeneration areas provides a basis for improving the way in which we invest in our most disadvantaged communities. We have achieved a great deal, but we need to develop our approach in the light of recent practice and changing economic conditions.

The work, to date, has already been a partnership approach. The national regeneration panel has played a key role in looking at regeneration across Government and ensuring that our proposals have already benefited from a range of perspectives from different sectors. The Centre for Regeneration Excellence Wales has also contributed its expertise with information on regeneration around the world.

Turning briefly to the amendments tabled by the Welsh Conservatives, I am pleased to be able to support amendments 2 and 6. It would not be appropriate for us to dwell on the Wales Audit Office study on the regeneration investment fund for Wales today, as the audit work is ongoing, but it is right that we should acknowledge that it is happening. I support the call for more detail on high-street regeneration. This is very much part of our plans, and the Minister for business and I have already announced additional funding to support the development of business improvement districts. However, I am afraid that I cannot support the other amendments.

The regeneration investment fund for Wales will lever in up to £13 million from the private sector through its investment in the Neath town centre project. Also, there are other private sector projects in the pipeline. However, the fund's ability to invest will continue to depend upon the quality of the proposals put forward. In respect of west Wales, I can assure the Welsh Conservatives that all parts of Wales are included. In fact, we are broadening our framework compared with our historic approach. Our investment

ranbarthau, a'r gwaith ar ardaloedd twf lleol, yr ydym wedi clywed amdanynt y prynhawn yma. Gall ein buddsoddiad parhaus mewn iechyd ac addysg sicrhau manteision adfywio ychwanegol.

Yn drydydd, rydym yn gwybod o'n hadolygiad bod y profiad yn ein hardaloedd adfywio yn rhoi sail ar gyfer gwella'r ffordd yr ydym yn buddsoddi yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Rydym wedi cyflawni llawer iawn, ond mae angen i ni ddatblygu ein dull gweithredu yng ngoleuni arfer diweddar ac amodau economaidd sy'n newid.

Mae'r gwaith, hyd yn hyn, eisoes wedi bod yn ddull partneriaeth. Mae'r panel adfywio cenedlaethol wedi chwarae rhan allweddol wrth edrych ar adfywio ar draws y Llywodraeth a sicrhau bod ein cynigion eisoes wedi cael budd o ystod o safbwyntiau o sectorau gwahanol. Mae'r Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru hefyd wedi cyfrannu ei harbenigedd gyda gwybodaeth ar adfywio o amgylch y byd.

Gan droi yn fyr at y gwelliannau a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig, yr wyf yn falch o allu cefnogi gwelliannau 2 a 6. Ni fyddai'n briodol i ni i fynd ar ôl astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar gronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio heddiw, gan fod y gwaith archwilio yn mynd rhagddo, ond mae'n iawn y dylem gydnabod ei fod yn digwydd. Ategef yr alwad am fwy o fanylion ar adfywio'r stryd fawr. Mae hyn yn rhan bwysig o'n cynlluniau, ac mae'r Gweinidog dros fusnes a finnau eisoes wedi cyhoeddi arian ychwanegol i gefnogi datblygiad ardaloedd gwella busnes. Fodd bynnag, mae arnaf ofn na allaf gefnogi'r gwelliannau eraill.

Bydd cronfa fuddsoddi Cymru mewn adfywio yn denu hyd at £13 miliwn gan y sector preifat drwy ei fuddsoddiad ym mhrosiect canol tref Castell-nedd. Hefyd, mae prosiectau sector preifat eraill ar y gweill. Fodd bynnag, bydd gallu'r gronfa i fuddsoddi yn dal i ddibynnu ar ansawdd y cynigion a gyflwynwyd. O ran gorllewin Cymru, gallaf sicrhau'r Ceidwadwyr Cymreig bod pob rhan o Gymru yn cael eu cynnwys. Yn wir, rydym yn ehangu ein fframwaith o'i gymharu â'n dull hanesyddol.

will still need to be carefully targeted in fewer areas, but our policy and partnership working cover the whole of the three regions of Wales, as described in the document. Measurable targets are crucial. They may not be included in the high-level policy document, but they are very much part of the implementation process, as pages 27 and 28 of the framework make absolutely clear.

4.00 p.m.

Finally, I cannot support the amendment on the key role of enterprise zones and transport infrastructure in regeneration. Each enterprise zone board has recently submitted a strategic plan, and these plans include consideration of each zone's specific infrastructure requirements, which include transport. My ministerial colleagues are now assessing these proposals. We need to subject our proposals to vigorous scrutiny through the consultation process and then move swiftly on to implementation. I would urge all Members here today, as well as local partners within our constituencies, to take every opportunity to engage with the discussion around these proposals. I look forward to hearing the thoughts of Members this afternoon.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn gresynu nad yw'r polisi adfywio yn y dyfodol yn cyfeirio'n ystyrlon at Orllewin Cymru o gwbl.*

*Gwelliant 2—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi'r ymchwiliad parhaus gan Swyddfa Archwilio Cymru i drefniadau llywodraethu Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, ac i effeithiolrwydd trefniadau goruchwyllo Llywodraeth Cymru.*

*Gwelliant 3—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y*

Bydd angen o hyd i dargedu'n buddsoddiad yn ofalus mewn llai o ardaloedd, ond mae ein polisi a'n gweithio mewn partneriaeth yn cynnwys pob un o'r tri rhanbarth yng Nghymru, fel y disgrifir yn y ddogfen. Mae targedau mesuradwy yn hanfodol. Efallai nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y ddogfen bolisi lefel uchel, ond maent yn rhan bwysig o'r broses weithredu, fel y mae tudalennau 27 a 28 y fframwaith yn dangos yn gwbl glir.

Yn olaf, ni allaf gefnogi'r gwelliant ar rôl allweddol ardaloedd menter a seilwaith trafniadaeth mewn adfywio. Mae pob bwrdd ardal fenter wedi cyflwyno cynllun strategol yn ddiweddar, ac mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys ystyriaeth o ofynion seilwaith penodol pob ardal, sy'n cynnwys trafniadaeth. Mae fy nghydweithwyr gweinidogol bellach yn asesu'r cynigion hyn. Mae angen i ni sicrhau bod craffu trylwyr ar ein cynigion drwy'r broses ymgynghori ac yna symud yn gyflym ymlaen i weithredu. Byddwn yn annog yr holl Aelodau yma heddiw, yn ogystal â phartneriaid lleol o fewn ein hetholaethau, i fanteisio ar bob cyfle i ymgysylltu â'r drafodaeth ynghylch y cynigion hyn. Edrychaf ymlaen at glywed meddyliau Aelodau y prynhawn yma.

*Amendment 1—William Graham*

*Add as new point at end of motion:*

*Regrets that the future regeneration policy does not make any meaningful reference to West Wales.*

*Amendment 2—William Graham*

*Add as new point at end of motion:*

*Notes the on-going investigation of the Wales Audit Office into the governance of Regeneration Investment Fund Wales and effectiveness of the Welsh Government oversight arrangements.*

*Amendment 3—William Graham*

*Add as new point at end of motion:*

*cynnig:*

*Yn gresynu nad yw Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio wedi gwneud unrhyw fuddsoddiad yn y sector preifat yng Nghymru.*

*Regrets that Regeneration Investment Fund Wales has not made any investment into the private sector in Wales.*

*Gwelliant 4—William Graham*

*Amendment 4—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu nad yw'r ymgynghoriad ar y fframwaith adfywio newydd yn cynnig unrhyw dargedau y mae modd eu mesur.*

*Regrets that the consultation on the new regeneration framework proposes no measurable targets.*

*Gwelliant 5—William Graham*

*Amendment 5—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y polisi adfywio yn y dyfodol yn mynd i'r afael â'r diffyg cysylltiad rhwng ardaloedd menter Llywodraeth Cymru a'i seilwaith trafniadaeth.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that the future regeneration policy addresses the lack of a link between the Welsh Government's enterprise zones and transport infrastructure.*

*Gwelliant 6—William Graham*

*Amendment 6—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o wybodaeth am gynigion penodol ar gyfer adfywio'r stryd fawr, gan gynnwys rhagor o fanylion am rôl bosibl 'timau trefi'.*

*Calls on the Welsh Government to provide more information on specific proposals for high street regeneration, including further detail on the possible role of 'town teams'.*

**Andrew R.T. Davies:** I move amendments 1, 2, 3, 4, 5 and 6 in the name of William Graham.

**Andrew R.T. Davies:** Cynigiau welliannau 1, 2, 3, 4, 5 a 6 yn enw William Graham.

I thank the Minister for moving the motion before us this afternoon. It must be a bit of record for the Welsh Conservatives to have tabled so many amendments—I suppose that that is what happens when you go away for a week. *[Laughter.]*

Diolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r cynnig ger ein bron y prynhawn yma. Rhaid ei bod yn dipyn o record i'r Ceidwadwyr Cymreig gyflwyno cymaint o welliannau—mae'n debyg mai dyna beth sy'n digwydd pan fyddwch yn mynd i ffwrdd am wythnos. *[Chwerthin.]*

It is always a pleasure to speak on regeneration. We sit here in Cardiff bay, which is a prime example of what can be achieved when best practices are adopted and the regeneration that you implement is structural rather than cosmetic. What we see around us here in Cardiff bay is a project—

Mae bob amser yn bleser i siarad ar adfywio. Rydym yn eistedd yma ym mae Caerdydd, sy'n enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fydd arferion gorau yn cael eu mabwysiadu ac mae'r adfywio yr ydych yn ei weithredu yn strwythurol yn hytrach nag yn gosmetig. Yr hyn a welwn o'n cwmpas yma

admittedly from a different era—that took a very dilapidated piece of our capital city and turned it into an engine for growth for the whole region of south-east Wales and a proud beacon and example of what can be done in the rest of Wales and the rest of Europe. Many people comment on its success.

The amendments that we have tabled today refer to some of the weaknesses that we believe are in the document. The Minister indicated that the Government would support amendments 2 and 6, and I am pleased to hear that. While I appreciate that high streets are not the be-all and end-all of regeneration, they are an integral part of local commerce, civic pride and, above all, community engagement in many towns up and down Wales. I draw the Minister's attention to the document that we launched two weeks ago in Barry, the largest town in Wales. It is about some of the very simple actions that can be taken to turn our high streets into night-time economies, about town-centre managers, about more favourable planning rules and about engagement with IT and the internet. This is so that we can have real ambition, action and achievement on our high streets in Wales, which can spread out into our communities and be a real focal point of regeneration.

In respect of amendment 5 in the name of William Graham, which is about linking transport and enterprise zones, this is a very big concern for us. If you do not get the transport right, whether that be via public or private transport—or the use of heavy goods vehicles to get goods in and out of areas—enterprise zones often turn into islands instead of creating bigger economic ripple effects in the communities in which they are located. I will use the Milford Haven example: we all know about the difficult transport routes into that area, which have been highlighted by my colleague Paul Davies, and the constraints on the road network from St Clears into Milford Haven and beyond. The real impetus needs to be to ensure that we get the whole package right around enterprise zones, so that we do not only achieve success in one aspect of this, but that we achieve an overall economic

ym mae Caerdydd yw prosiect—o oes wahanol rhaid cyfaddef—a gymerodd ran adfeiliedig iawn o'n prifddinas a'i throi yn beiriant ar gyfer twf ar gyfer holl ranbarth de-ddwyrain Cymru, ac yn arwydd disglair ac yn enghraifft o'r hyn y gellir ei gwneud yng ngweddill Cymru a gweddill Ewrop. Mae llawer o bobl yn gwneud sylwadau ar ei lwyddiant.

Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd gennym heddiw yn cyfeirio at rai o'r gwendidau yr ydym yn credu sydd yn y ddogfen. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r Llywodraeth yn cefnogi gwelliannau 2 a 6, ac rwy'n falch o glywed hynny. Er fy mod yn sylweddoli nad y stryd fawr yw'r elfen holl bwysig o ran adfywio, maent yn rhan annatod o fasnach leol, balchder dinesig ac, yn anad dim, ymgysylltu â'r gymuned mewn llawer o drefi ar hyd a lled Cymru. Hoffwn dynnu sylw'r Gweinidog at y ddogfen a lansiwyd bythefnos yn ôl yn y Barri, y dref fwyaf yng Nghymru. Mae'n ymwneud â rhai o'r camau syml iawn y gellir eu cymryd i droi ein stryd fawr yn economïau gyda'r nos, yn ymwneud â rheolwyr canol trefi, yn ymwneud â rheolau cynllunio mwy ffafriol ac ymgysylltu gyda TG a'r rhyngwyd. Mae hyn er mwyn inni allu cael uchelgais, gweithredu a chyflawniad go iawn ar y stryd fawr yng Nghymru, a all ymledu i'n cymunedau a bod yn ganolbwynt go iawn i adfywio.

O ran gwelliant 5 yn enw William Graham, sydd yn ymwneud â chysylltu trafndiaeth ac ardaloedd menter, mae hwn yn bryder mawr i ni. Os nad ydych yn cael y cludiant cywir, boed hynny drwy gludiant cyhoeddus neu breifat—neu'r defnydd o gerbydau nwyddau trwm i gael nwyddau i mewn ac allan o ardaloedd—mae ardaloedd menter yn aml yn troi'n ynysoedd yn hytrach na chreu tonnau mwy economaidd yn y cymunedau lle y maent wedi'u lleoli. Byddaf yn defnyddio enghraifft Aberdaugleddau: rydym i gyd yn gwybod am y llwybrau trafndiaeth anodd i mewn i'r ardal honno, sydd wedi cael eu hamlygu gan fy nghydweithiwr Paul Davies, a'r cyfyngiadau ar y rhwydwaith ffordd o San Clêr i Aberdaugleddau a thu hwnt. Y symbyliad ddylai fod sicrhau ein bod yn cael y pecyn cyfan yn iawn o gwmpas ardaloedd menter, fel nad ydym yn cyflawni llwyddiant mewn un agwedd ar hyn yn unig, ond ein bod



regeneration impact, which creates lasting employment and can be seen as a real example of an initiative that has worked rather than looked at in isolation. Therefore, we feel that transport is a vital part of any enterprise zone concept. In particular, we believe that the Government needs to be working across portfolios to ensure that it has a joined-up message.

In respect of measurable targets, I was pleased to hear the Minister highlight the fact that he believes that there are targets in the document. We found it quite hard to find real, meaningful targets that could be benchmarked, so that we could see the success of any new impetus behind the Government's regeneration proposals. It is critical that communities, businesses and the third sector—which the Minister touched upon and is an important part of the regeneration family in Wales—are involved in trying to bring all stakeholders along. I take issue with the absence of targets in the document and I hope that the Minister can give greater assurance in his response as to what we will be looking at, in respect of a successful document, in four or five years' time.

Moving forward to the private sector—amendment 3 in particular—and the regeneration investment fund for Wales, it is important that the private sector does not feel excluded from the ability to attract funding, because the private sector will be a vital part of the engine that drives regeneration in many of our communities. We are all aware—the First Minister has alluded to this on many occasions—that there needs to be greater space and greater potential for growth for the private sector in Wales. We have doubts, in looking at this document—as is pointed out in amendment 3, in particular—about the ability of the private sector to have a level playing field and to be able to play an effective role in regenerating many of our communities.

Amendment 1, which the Minister highlighted that he could not support, touches upon what we believe to be the omission of west Wales. I value what the Minister has said today but the document does not refer to

yn cyflawni effaith adfywio economaidd gyffredinol, sy'n creu cyflogaeth barhaol ac y gellir ei gweld fel enghraifft go iawn o fenter sydd wedi gweithio yn hytrach nag un yr edrychwyd arni ar wahân. Felly, rydym yn teimlo bod trafndiaeth yn rhan hanfodol o unrhyw gysyniad o ardal fenter. Yn benodol, credwn fod angen i'r Llywodraeth fod yn gweithio ar draws portffolios er mwyn sicrhau bod ganddi neges cydgyssylltiedig.

O ran targedau mesuradwy, roeddwn yn falch o glywed y Gweinidog yn tynnu sylw at y ffaith ei fod yn credu bod targedau yn y ddogfen. Roeddem yn ei chael hi'n eithaf anodd i ddod o hyd i dargedau go iawn, ystyrllon y gellid eu meincnodi, fel y gallem weld llwyddiant unrhyw ysgogiad newydd y tu ôl i gynigion adfywio'r Llywodraeth. Mae'n hanfodol bod cymunedau, busnesau a'r trydydd sector—y soniodd y Gweinidog amdano ac sy'n rhan bwysig o'r teulu adfywio yng Nghymru—yn cymryd rhan mewn ceisio dod â'r holl randdeiliaid gyda ni. Byddwn yn dadlau ynghylch absenoldeb targedau yn y ddogfen ac rwy'n gobeithio y gall y Gweinidog roi mwy o sicrwydd yn ei ymateb i'r hyn y byddwn yn edrych arno, mewn perthynas â dogfen lwyddiannus, ymhen pedair neu bum mlynedd.

Gan symud ymlaen at y sector preifat—gwelliant 3 yn benodol—a chronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio, mae'n bwysig nad yw'r sector preifat yn teimlo ei bod wedi'i heithrio o'r gallu i ddenu cyllid, gan y bydd y sector preifat yn rhan hanfodol o'r peiriant sy'n ysgogi'r adfywio mewn nifer o'n cymunedau. Rydym i gyd yn ymwybodol—mae'r Prif Weinidog wedi cyfeirio at hyn ar sawl achlysur—bod angen mwy o le a mwy o botensial ar gyfer twf i'r sector preifat yng Nghymru. Mae gennym amheuan, wrth edrych ar y ddogfen hon—fel y nodwyd yng ngwelliant 3, yn benodol—am allu'r sector preifat i gael chwarae teg ac i allu chwarae rhan effeithiol wrth adfywio llawer o'n cymunedau.

Mae gwelliant 1, y nododd y Gweinidog na allai ei gefnogi, yn cyffwrdd ar yr hyn y credwn i fod yn hepgor gorllewin Cymru. Rwy'n gwerthfawrogi'r hyn y mae'r Gweinidog wedi ei ddweud heddiw, ond nid

west Wales, which is important when looking at convergence funding, Objective 1 funding and the new envelope of cash that will be coming from Europe in the third tranche. We will hold him to account on the commitments that he made today in his opening remarks. I can see that I am out of time and with those thoughts in mind, I commend the amendments tabled in the name of William Graham.

**Ieuan Wyn Jones:** Rwyf innau hefyd yn falch o gael y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth hon ar yr adolygiad o ardaloedd adfywio. I roi'r polisi hwn yn ei gyd-destun, bydd y Gweinidog yn ymwybodol mai symiau cymharol fach o arian mae'r Llywodraeth yn gallu eu neilltuo ar gyfer cynlluniau adfywio. Mae cyfyngiad hefyd oherwydd bod y mwyafrif llethol—tua 95% ohono, os cofiaf yn iawn—yn arian cyfalaf. Felly, nid oes arian refeniw gwirioneddol y gellir ei ddefnyddio i symud cynlluniau yn eu blaen. Mae'n eithaf cyfyng arno o ran yr hyn mae'n gallu ei gyflawni. Nid yw hynny'n golygu nad yw'n gallu gwneud gwaith pwysig, ond mae'n rhaid inni ei roi yn ei gyd-destun cywir. O gofio mai rhyw £50 miliwn o arian cyfalaf a oedd yn cael ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru'n Un, a'i fod bellach, mae'n debyg, lawr i ryw £45 miliwn, a bod gennym saith ardal adfywio, symiau cymharol fach y gellir eu neilltuo i unrhyw ardal.

Felly, mae'r pwynt roedd y Gweinidog yn ei wneud yn gynharach am bartneriaeth yn allweddol bwysig. Os rhowch chi, er enghraifft, bolisi adfywio ochr yn ochr â'r hyn y mae'r Gweinidog busnes yn ei wneud o safbwynt ardaloedd menter a'r arian y mae'n gallu ei roi i gefnogi busnesau ac ardrethi busnes—nid yn unig o ran yr adran fusnes ond hefyd yr adran addysg, o safbwynt hyfforddiant, lle mae gennych arian refeniw y gallwch ei roi i helpu i hyfforddi pobl mewn ardaloedd difreintiedig—byddwn am i'r polisi adfywio gael ei weld mewn cyd-destun ehangach. Rwy'n derbyn y pwynt a wnaeth y Gweinidog ynglŷn â'r angen i weithio mewn partneriaeth, ond mae angen i'r bartneriaeth honno fod yn un hynod o glos. Rhoddaf enghraifft syml o'r hyn rwy'n ei olygu. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol iawn o'r sylwadau a wneuthum mewn cwestiynau am

yw'r ddogfen yn cyfeirio at orllewin Cymru, sydd yn bwysig wrth edrych ar gyllid cydgyfeirio arian Amcan 1 a'r amlen newydd o arian a fydd yn dod o Ewrop yn y drydedd gyfran. Byddwn yn ei ddwyn i gyfrif am yr ymrwymadau a wnaeth heddiw yn ei sylwadau agoriadol. Gallaf weld fy mod allan o amser a gyda'r meddyliau hynny mewn golwg, rwy'n cymeradwyo'r gwelliannau a gyflwynwyd yn enw William Graham.

**Ieuan Wyn Jones:** I, too, am pleased to have an opportunity to contribute to this debate on the review of regeneration areas. To put this policy in context, the Minister will be aware that the Government can only allocate comparatively small sums of money for regeneration schemes. There is also a restriction in that the vast majority—some 95% of it, if I remember correctly—is capital money. Therefore, there are no real revenue funds that can be used to progress schemes. He has a relatively limited pot in terms of what he can achieve. That does not mean that he cannot do important work, but we need to put it in its proper context. Bearing in mind that the One Wales Government had some £50 million of capital to allocate, that that has now fallen to some £45 million, and that there are seven regeneration areas, you are talking about relatively small sums that can be allocated to specific areas.

Therefore, the point that the Minister made earlier about partnership is crucially important. If, for example, you place regeneration policy alongside what the Minister for business is doing in terms of enterprise zones and the funding that she can provide to support businesses and business rates—not only from the point of view of the department for business but also the education department, in terms of training, where you have revenue funding that you can provide to assist with the training of people in the more deprived areas—I would want the regeneration policy looked at in a broader context. I accept the point that the Minister made about the need to work in partnership, but that partnership needs to be very close. I will give a simple example of what I mean. The Minister will be very aware of the comments that I made in questions on the

ardal adfywio Môn a Menai, lle mae'r arian sydd ar gael i'r ardal adfywio yn gymharol fach. Fodd bynnag, o'i roi yng nghyd-destun yr arian hyfforddiant sydd ar gael i bobl ifanc sy'n paratoi ar gyfer gwaith—yn yr Wylfa newydd, er enghraifft, yn y cynllun *Celtic Array*, neu unrhyw gynlluniau sylweddol eraill—mae'r arian hwnnw yn ofnadwy o bwysig, ond mae o fewn ardal adfywio.

Fel y soniodd Andrew R.T. Davies, rydym yn gwybod hefyd bod angen gwelliannau trafniadaeth a gwella'r isadeiledd yn gyffredinol, gyda band eang ac yn y blaen. Rydym yn ymwybodol bod angen i'r polisi gael ei weld yn y cyd-destun ehangach hwnnw.

Mae un pwynt arall y byddwn yn ei wneud cyn terfynu; rwy'n sylweddoli bod Aelodau eraill sydd eisiau cymryd rhan. Mae perygl weithiau ein bod yn newid cynlluniau yn rhy aml. Yr hyn mae pobl eisiau yw sicrwydd y bydd arian ar gael ar gyfer cynlluniau—nid am un flwyddyn, na hyd yn oed o un Llywodraeth i'r nesaf—a chysondeb yn y ffordd rydym yn datblygu polisiau. Nid ydynt eisiau newid er mwyn newid. Rwy'n derbyn, wrth gwrs, bod eisiau adolygu o bryd i'w gilydd, ond yr hyn sydd ei angen ar gymunedau yw sicrwydd.

Mae rhai o'r buddsoddiadau hyn yn fuddsoddiadau tymor hir iawn, a hoffwn weld y Gweinidog yn cydnabod hynny yn ei ymateb—ei fod yn gweld yr arian sy'n cael ei neilltuo drwy ardaloedd adfywio yn rhan o strategaeth tymor hir. Ni fyddwch yn eu gwella mewn blwyddyn neu ddwy; mae'n cymryd blynyddoedd lawer i ddelio â rhai o'r problemau strwythurol sy'n bodoli yn rhai o'n hardaloedd difreintiedig ni.

Er fy mod yn cytuno gyda rhai o'r sylwadau roedd Andrew R.T. Davies yn eu gwneud ynglŷn â thrafnidiaeth, hoffwn weld y gweliant yn un llawer ehangach, yn sôn am isadeiledd yn ei holl agweddau. Mae trafniadaeth yn bwysig, ond rwy'n credu hefyd bod pethau fel technoleg gwybodaeth a band eang yn bwysig, a bod creu isadeiledd meddal a chaled yn gwbl angenrheidiol. Dyna pam nad ydym yn gallu cefnogi'r gweliant penodol hwnnw, er ein bod yn cydymdeimlo â nifer o'i sylwadau.

Môn a Menai regeneration area, where the funds available to the regeneration area are relatively small. However, if you put that in the context of the training funds available for young people preparing for work—in the new Wylfa, for example, or the Celtic Array scheme, or any other significant schemes—that funding is extremely important, but it is within a regeneration area.

We also know, as mentioned by Andrew R.T. Davies, that we need improvements in transport and general infrastructure, with broadband and so on. We are aware that the policy needs to be seen in that wider context.

There is one other point that I would like to make before I conclude my remarks; I know that other Members want to participate. There is sometimes a danger that we change schemes too often. What people want is assurance that funding will be available for schemes—not for one year, or even from one Government to the next—and consistency in how we develop policy. They do not want change for change's sake. I accept, of course, that we need to review from time to time, but what communities want is certainty.

Some of these investments are very long term, and I would like to see the Minister acknowledging that in his response—that he sees the money being allocated through the regeneration areas as part of a long-term strategy. You are not going to improve them in a year or two; it takes many years for you to deal with some of the structural problems that exist in some of our most disadvantaged areas.

Although I agree with some of the comments made by Andrew R.T. Davies on transport, I would like to have seen the amendment going a lot further, and mentioning all aspects of infrastructure. Transport is important, but I believe that things like information technology and broadband are important, and that creating soft and hard infrastructure is crucial. That is why we are unable to support that particular amendment, although we do sympathise with many of his comments.

**Mark Drakeford:** Minister, in your foreword to the consultation, you rightly point to the impact of the unprecedented economic crisis in which we find ourselves on regeneration policy in Wales. The consultation document sets out the scale of the challenge facing Welsh communities in an era of deliberately inflicted austerity. I just want to say a little more about that, before turning to some of the specific ideas that the document sets out. The document aims to develop policy in an era in which £2 billion is to be taken out of the purchasing power of the least well-off households in Wales, and in a period in which disposable incomes for households on low to middle incomes will fall in real terms by 8% between 2009 and 2015. We know that we live in an era in which there is an unprecedented rate of underemployment in the economy; 2 million people now record themselves as wanting to increase their employment hours—the highest since that figure began to be recorded in 1992. For all the extra jobs that have been created in the British economy, the total hours worked remains well below that attained before the global economic downturn in 2008.

The extra jobs that have been created are linked to very particular groups and places. Employment growth is fastest for groups aged above 50. Bank of England figures show that growth in private sector jobs is almost exclusively in high-skill occupations. Younger people looking for an entry-level job in places away from the south-east of England will look in vain for any share in the crumbs that have fallen from the Chancellor's table.

Below the surface, something else is going on. Employment may be rising, but output in the British economy is absolutely stagnant. This means that, when the economy finally throws off the stranglehold that the coalition's policies have placed on it, the upturn is likely to be a jobless one. Extra demand will be met first by making productivity gains, returning to trend growth and making good the 11% loss in productivity that has been a feature of the

**Mark Drakeford:** Weinidog, yn eich rhagair i'r ymgynghoriad, rydych yn hollol briodol, yn pwyntio at effaith yr argyfwng economaidd digynsail lle'r ydym yn ein cael ein hunain ar bolisi adfywio yng Nghymru. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi maint yr her sy'n wynebu cymunedau Cymru mewn cyfnod o galedi a achoswyd yn fwiadol. Hoffwn ddweud ychydig yn fwy am hynny, cyn troi at rai o'r syniadau penodol y mae'r ddogfen yn eu nodi. Nod y ddogfen yw datblygu polisi mewn cyfnod lle mae £2 biliwn i'w dynnu allan o bŵer prynu'r aelwydydd lleiaf cefnog yng Nghymru, ac mewn cyfnod lle y bydd incwm gwario ar gyfer aelwydydd ar incwm isel i ganol yn disgyn mewn termau gwirioneddol gan 8% rhwng 2009 a 2015. Rydym yn gwybod ein bod yn byw mewn oes lle mae cyfradd ddigynsail o dangyflogaeth yn yr economi; mae 2 filiwn o bobl yn awr yn cofnodi eu hunain fel rhai sy'n awyddus i gynyddu eu horiau cyflogaeth—yr uchaf ers dechrau cofnodi'r ffigur hwnnw ym 1992. Er yr holl swyddi ychwanegol sydd wedi cael eu creu yn economi Prydain, mae cyfanswm yr oriau gweithio yn parhau i fod yn llawer is na'r hyn a gyflawnwyd cyn y dirywiad economaidd byd-eang yn 2008.

Mae'r swyddi ychwanegol sydd wedi'u creu yn gysylltiedig â grwpiau a lleoedd penodol iawn. Mae twf cyflogaeth gyflymaf ar gyfer grwpiau dros 50 oed. Mae ffigyrau Banc Lloegr yn dangos bod y twf mewn swyddi sector preifat bron yn gyfan gwbl mewn galwedigaethau sgiliau uchel. Bydd pobl iau sy'n chwilio am swydd lefel mynediad mewn manau i ffwrdd o dde-ddwyrain Lloegr yn edrych yn ofer am unrhyw gyfran o'r briwsion sydd wedi syrthio o fwrdd y Canghellor.

O dan y wyneb, mae rhywbeth arall yn digwydd. Efallai fod cyflogaeth yn codi, ond mae allbwn yn economi Prydain yn hollol ddisymud. Mae hyn yn golygu, pan fydd yr economi'n llacio'r gafael haearnaidd y mae polisïau'r glymblaid wedi ei gosod arni, bod yr adferiad yn debygol o fod yn un di-waith. Bydd y galw ychwanegol yn cael ei ddiwallu'n gyntaf drwy wneud enillion cynhyrchiant, gan ddychwelyd at dwf tuedd a gwneud iawn am y golled o 11% mewn

British economy since 2007, and then by extending the part-time hours of those already in employment. Little wonder that the Resolution Foundation recently concluded that, even when there is a return to economic growth, some communities will actually experience permanent recession.

**Antoinette Sandbach:** I am grateful to the Member for giving way. Do you agree, Mark Drakeford, that it is better to have growth based on output than on debt?

4.15 p.m.

**Mark Drakeford:** I simply think that it is a completely false antithesis. You cannot grow your way out of a recession, unless you are prepared to borrow. You can borrow money at unprecedentedly low interest rates. Now is the time for any sensible Government to be doing sensible borrowing for investment; that is the way to growth.

Against the background of the British Government's refusal to recognise that simple economic truth, I give thanks that here in Wales we have a Government that is prepared to use the power of collective public effort to protect the interests of the most vulnerable places and the people who live in them. The great Nobel-prize-winning American economist Joseph Stiglitz demonstrated earlier this year the complete folly of believing that public spending crowds out private investment. In fact, exactly the opposite relationship holds good in the real world. It is public investment in infrastructure and services that allows private investment to be crowded in. It is the absence of Whitehall public provision that keeps private investment away.

It is the willingness to mobilise the solutions that such public investment can bring that makes me optimistic about what this policy can achieve, even in these difficult times. It can do so through Communities First, which the document endorses and which I have a very fine example of in the Cardiff West constituency in Ely and Caerau. It can do so through collaboration between authorities,

cynhyrchiant sydd wedi bod yn nodwedd o economi Prydain ers 2007, ac yna drwy ymestyn oriau rhan-amser y rhai sydd eisoes mewn cyflogaeth. Dim rhyfedd felly i'r Resolution Foundation yn ddiweddar ddod i'r casgliad, hyd yn oed pan fydd dychwelyd at dwf economaidd, y bydd rhai cymunedau mewn gwirionedd yn profi dirwasgiad parhaol.

**Antoinette Sandbach:** Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am ildio. A ydych yn cytuno, Mark Drakeford, ei bod yn well cael twf sy'n seiliedig ar allbwn nag ar ddyled?

**Mark Drakeford:** Rwy'n meddwl ei fod yn wrthgyferbyniad hollol ffug. Nid oes modd tyfu eich ffordd allan o ddirwasgiad, oni bai eich bod yn barod i fenthyca. Gallwch fenthyg arian ar gyfraddau llog digynsail o isel. Nawr yw'r amser i unrhyw Lywodraeth synhwyrol i fod yn benthyca'n synhwyrol ar gyfer buddsoddi, dyna'r ffordd tuag at dwf.

Yn erbyn cefndir lle mae Llywodraeth Prydain wedi gwrthod cydnabod y gwirionedd economaidd syml hwnnw, rwyf yn rhoi diolch bod gennym ni yma yng Nghymru Lywodraeth sy'n barod i ddefnyddio grym ymdrech gyhoeddus ar y cyd i ddiogelu buddiannau'r manau mwyaf agored i niwed a'r bobl sy'n byw ynddynt. Dangosodd yr economegydd mawr o America, ac enillydd gwobr Nobel, Joseph Stiglitz, yn gynharach eleni y ffolineb llwyr o gredu bod gwariant cyhoeddus yn gwthio buddsoddiad preifat o'i le. Yn wir, perthynas hollol i'r gwrthwyneb sy'n dal yn ddilys yn y byd go iawn. Buddsoddiad cyhoeddus mewn seilwaith a gwasanaethau sy'n caniatáu buddsoddiad preifat i gael ei wthio i mewn Absenoldeb darpariaeth gyhoeddus Whitehall sy'n cadw buddsoddiad preifat draw.

Y parodrwydd i ysgogi atebion a all ddod gyda buddsoddiad cyhoeddus o'r fath sy'n fy ngwneud yn optimistaidd ynghylch yr hyn y gall y polisi hwn ei gyflawni, hyd yn oed yn y cyfnod anodd hwn. Gall wneud hynny drwy Cymunedau yn Gyntaf, a gymeradwyir gan y ddogfen ac y mae gennyf enghraifft wych iawn ohono yn etholaeth Gorllewin Caerdydd yn Nhrelái a Chaerau. Gall wneud hynny

across services and geographical boundaries. It can do so by using European funding to best possible effect. Yesterday, there was a very interesting debate at the Deputy Minister's ministerial advisory group on Europe, which we plan to continue on Thursday of this week in the funding forum. The concentration of funding—thematically or spatially—is consistent with the future policy that this document sets out. I am grateful to you, Minister, for offering us the chance to debate it here today.

**Aled Roberts:** I also, on behalf of the Welsh Liberal Democrats, welcome the consultation on the future of regeneration policy. In opening, I have to say that we have some concerns about the direction of regeneration policy in Wales at the moment, particularly with regard to the regeneration investment fund, although I accept the Minister's comments that that issue is currently being looked at by the Wales Audit Office. The fact remains that there has been just one project in the first two years, although I accept what he says regarding others being in the pipeline. However, from my experience, there are real issues in north-east Wales: when some projects were put forward for consideration, the measures being employed by the managing agents meant that, had they been able to satisfy the requirements of the managing agents, there would have been no need for them to have gone to the Government because they would have got funding through commercial banks in any event.

The consultation has many ideas of merit and I accept fully what Ieuan Wyn Jones said that, in times when resources are limited, it may be necessary for us to focus attention on a few areas. However, the reference to a focus on town centres and seaside towns raises concerns, particularly in rural areas, where deprivation and the need for regeneration may be less apparent, but deprivation is certainly very much in existence and regeneration is very much required.

The Minister, in his comments last month, indicated that it might be the case that not all regeneration areas would necessarily survive

drwy gydweithredu rhwng awdurdodau, ar draws gwasanaethau a ffiniau daearyddol. Gall wneud hynny drwy ddefnyddio arian Ewropeaidd i'r effaith orau posibl. Ddoe, roedd dadl hynod ddiddorol yn grŵp cynghori gweinidogion ar Ewrop y Dirprwy Weinidog, yr ydym yn bwriadu parhau â hi ar ddydd Iau yr wythnos hon yn y fforwm ariannu. Mae'r crynhoad o gyllid—yn thematig neu'n ofodol—yn gyson â'r polisi ar gyfer y dyfodol y mae'r ddogfen hon yn ei nodi. Rwy'n ddiolchgar ichi, Weinidog, am gynnig cyfle i ni ei drafod yma heddiw.

**Aled Roberts:** Rwyf hefyd, ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn croesawu'r ymgynghoriad ar ddyfodol polisi adfywio. I ddechrau, rhaid i mi ddweud bod gennym rai pryderon ynghylch cyfeiriad y polisi adfywio yng Nghymru ar hyn o bryd, yn enwedig o ran y gronfa buddsoddi mewn adfywio, er fy mod yn derbyn sylwadau'r Gweinidog fod y mater hwnnw ar hyn o bryd yn cael ei ystyried gan Swyddfa Archwilio Cymru. Erys y ffaith mai dim ond un prosiect a fu yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, er fy mod yn derbyn yr hyn a ddywed bod rhai eraill ar y gweill. Fodd bynnag, o fy mhrofiad i, mae problemau gwirioneddol yng ngogledd-ddwyrain Cymru: pan oedd rhai prosiectau yn cael eu rhoi gerbron i'w hystyried, roedd y mesurau oedd yn cael eu defnyddio gan yr asiantau rheoli yn golygu, pe baent wedi gallu bodloni gofynion yr asiantau rheoli, na fyddai wedi bod angen iddynt fynd at y Llywodraeth, oherwydd byddent wedi cael cyllid drwy'r banciau masnachol beth bynnag.

Mae llawer o syniadau o werth yn yr ymgynghoriad ac rwy'n derbyn yn llawn yr hyn a ddywedodd Ieuan Wyn Jones, sef ar adegau pan fydd adnoddau yn gyfyngedig, efallai y bydd angen i ni ganolbwyntio sylw ar ychydig o feysydd. Fodd bynnag, mae'r cyfeiriad at ffocws ar ganol trefi a threfi glan môr yn codi pryderon, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle gall amddifadedd a'r angen am adfywio fod yn llai amlwg, ond mae amddifadedd yn sicr yn bodoli ac mae angen adfywio yn fawr iawn.

Mae'r Gweinidog, yn ei sylwadau'r mis diwethaf, wedi dangos y gallai fod yn wir na fyddai pob ardal adfywio o reidrwydd yn

in the geographical sense. He stated that, in his view, it was not sustainable for us to continue with the seven areas and he went on to say that he perhaps saw a future where one, two or three areas would maintain their geographical integrity. Therefore, in launching this consultation, it might be useful if the Minister could share with us today whether he has any initial thoughts with regard to which geographical areas might be best suited to retaining their integrity and which might be left behind. It may be better that communities know what their status is in terms of their regeneration classification by Government, rather than for us to have some kind of pretence that geographical areas are included in a zone when in reality they will receive very little attention because of the level of resource that is available.

I noted what Mark Drakeford said with regard to the need to ensure that any consideration of future regeneration policy needs to knit-in. I accept what he says regarding both Communities First and Communities Next, as far as their involvement in any regeneration programme is concerned. However, we need to understand more clearly how the Government will ensure, through this consultation, that there is linkage between any new policy that it pursues and the retention of its flagship community regeneration programme.

Although it might work for some areas to have heavily targeted regeneration intervention, it is clear that any intervention needs to ensure that there is integration between Government departments. As Ieuan Wyn Jones identified, we need to rely on resources from other departments to support the efforts of your department, and to ensure that those Government departments use the resources available within local authorities and housing associations to get the best bang for the buck.

There might be some concerns that the economic development departments within the 22 local authorities that we are left with have been diluted, not only in terms of financial resources, but specialisms. So, I would welcome the move towards greater regional involvement as far as regeneration is

goroesi yn yr ystyr daearyddol. Dywedodd, yn ei farn ef, nad oedd yn gynaliadwy i ni barhau â'r saith ardal, ac aeth ymlaen i ddweud ei fod efallai yn gweld dyfodol lle byddai un, dwy neu dair ardal yn cynnal eu cyfanrwydd daearyddol. Felly, wrth lansio'r ymgynghoriad hwn, gallai fod yn ddefnyddiol pe gallai'r Gweinidog rannu gyda ni heddiw a oes ganddo unrhyw syniadau o ran pa ardaloedd daearyddol fyddai'n gweddu orau i gadw eu cyfanrwydd a pha rai ellid eu gadael ar ôl. Gall fod yn well bod cymunedau yn gwybod beth yw eu statws yn nhermau eu dosbarthiad adfywio gan y Llywodraeth, yn hytrach nag i ni gael rhyw fath o esgus bod ardaloedd daearyddol yn cael eu cynnwys mewn parth pan mai ychydig iawn o sylw fyddant yn ei dderbyn mewn gwirionedd oherwydd y lefel o adnoddau sydd ar gael.

Nodais yr hyn a ddywedodd Mark Drakeford o ran yr angen i sicrhau bod angen clymu unrhyw ystyriaeth o bolisi adfywio yn y dyfodol. Rwy'n derbyn yr hyn a ddywed am Cymunedau yn Gyntaf a Chymunedau Nesaf, cyn belled ag y mae eu rhan mewn unrhyw raglen adfywio yn y cwestiwn. Fodd bynnag, mae angen i ni ddeall yn fwy eglur sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau, drwy'r ymgynghoriad hwn, bod cysylltiad rhwng unrhyw bolisi newydd y mae'n ei ganlyn a chadw ei rhaglen adfywio cymunedol flaenllaw.

Er y gall weithio i rai ardaloedd gael ymyriad adfywio wedi'i dargedu'n helaeth, mae'n amlwg bod angen i unrhyw ymyriad sicrhau bod integreiddio rhwng adrannau'r Llywodraeth. Fel y nododd Ieuan Wyn Jones, mae angen i ni ddibynnu ar adnoddau o adrannau eraill i gefnogi ymdrechion eich adran chi, ac i sicrhau bod adrannau'r Llywodraeth yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael o fewn awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i gael y gwerth gorau posibl am arian.

Efallai bod rhai pryderon bod yr adrannau datblygu economaidd o fewn y 22 awdurdod lleol sydd ar ôl i ni wedi cael eu gwanhau, nid yn unig o ran adnoddau ariannol, ond arbenigeddau. Felly, byddwn yn croesawu'r symudiad tuag at fwy o gyfranogiad rhanbarthol cyn belled ag y mae adfywio yn y

concerned. We hope that this consultation will establish strong governance around regeneration efforts in Wales. However, there needs to be clear markers regarding its success, both for the national ministerial advisory group and the regional programmes. We support the Conservative amendments, apart from amendment 1, because we share the Minister's view that this needs to be a policy for the whole of Wales.

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I thank Members for their perceptive and thought-provoking comments this afternoon. I detect around the Chamber, at least at this stage, a good degree of consensus on the way forward and I welcome it.

I welcome, for instance, the Conservative party's document on town centre regeneration, which is a useful addition to the debate and has much to recommend it. To pick out a particular issue, it should be a prerequisite from now on, in terms of how we work through town centre regeneration, to think about the night-time economy of a community and not leave that to chance, when we can see clearly that, in some instances, the market has failed. Without a proper look at transport in terms of how we would regenerate a community, I would regard the intervention as unviable; it simply would not be on the starting blocks for consideration.

The Member is quite right to be concerned about targets. This is something I would welcome views upon as we go through the consultation period. I am keen that our approach becomes more bespoke as regards the needs and opportunities presented by particular communities. It might be tough to have blanket targets that suit a place like Abertillery very well, but not Swansea city centre in quite the same way. So, we need to think about the individual needs and opportunities presented by particular places.

Ieuan Wyn Jones is right to point out that there are comparatively small sums available from the Welsh Government when it comes to regeneration spend, as such. I see the role of regeneration spend, in part, as gap funding

cwestiwn. Rydym yn gobeithio y bydd yr ymgynghoriad hwn yn sefydlu llywodraethu cryf o gwmpas ymdrechion adfywio yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen marcwyr clir ynghylch ei lwyddiant, ar gyfer y grŵp cynghori gweinidogol cenedlaethol a'r rhaglenni rhanbarthol. Rydym yn cefnogi gwelliannau'r Ceidwadwyr, ar wahân i welliant 1, oherwydd ein bod yn rhannu safbwynt y Gweinidog bod angen i hyn fod yn bolisi ar gyfer Cymru gyfan.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Diolch i'r Aelodau am eu sylwadau craff a phryfoclyd y prynhawn yma. Rwy'n synhwyro o amgylch y Siambr, o leiaf ar hyn o bryd, cryn dipyn o gonsensws ar y ffordd ymlaen, ac rwy'n ei groesawu.

Rwy'n croesawu, er enghraifft, dogfen y blaidd Geidwadol ar adfywio canol trefi, sy'n ychwanegiad defnyddiol i'r ddadl ac mae llawer o'i phlaid. I ddewis mater penodol, dylai fod yn rhagofyniad o hyn ymlaen, o ran sut yr ydym yn gweithio drwy adfywio canol y dref, i feddwl am economi gyda'r nos cymuned a pheidio â gadael hynny i ragluniaeth, pan allwn weld yn glir, mewn rhai achosion, bod y farchnad wedi methu. Heb edrych yn iawn ar drafnidiaeth o ran sut y byddem yn adfywio cymuned, byddwn yn ystyried yr ymyriad yn anymarferol; yn syml, ni fyddai'n dechrau cael ystyriaeth.

Mae'r Aelod yn llygad ei le i bryderu am dargedau. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn croesawu barn arno wrth inni fynd drwy'r cyfnod ymgynghori. Rwy'n awyddus bod ein hymagwedd yn dod yn fwy pwrpasol o ran anghenion a'r cyfleoedd a gyflwynir gan gymunedau penodol. Gallai fod yn anodd cael targedau cyffredinol sy'n gweddu'n dda iawn i le fel Abertyleri, ond nid canol dinas Abertawe yn union yn yr un ffordd. Felly, mae angen i ni feddwl am anghenion unigol a chyfleoedd a gyflwynir gan leoedd penodol.

Mae Ieuan Wyn Jones yn iawn i nodi bod symiau cymharol fach ar gael gan Lywodraeth Cymru pan ddaw i wariant ar adfywio, fel y cyfryw. Rwy'n gweld rôl y gwariant ar adfywio, yn rhannol, fel cyllid



to make things happen that would not happen without that kind of intervention, but also as a way of bringing together public, private and third sector intervention around a place and its people, so that the human effort behind the conversation, the planning and the working towards agreed goals is as important as the comparatively small sums—in the grand scheme of things—that he mentions.

I am keen, as I say, that we are bespoke in our approach to places, but also, as Ieuan Wyn Jones mentioned, holistic. This needs to be an all-encompassing view of the needs and opportunities that a community represents. We should be more intensive in our expectations of our regeneration work than we have been in the past, perhaps. Need and opportunity, together, must drive the prioritisation of intervention. He is quite right to point out that Wylfa and Anglesey Energy Island, for instance, present an opportunity for us. It would be difficult to turn away from that kind of opportunity, as it is important in regeneration planning.

On infrastructure, I will also agree with Ieuan Wyn Jones on this point. I have always intended infrastructure to include IT, as well as things such as transport and the built environment. That is just as important.

I thank Aled Roberts for his comments. I reassure him that town centres and seaside towns exist in rural Wales too, and that there would be no discrimination, whether a town is regarded as being in an urban setting or in a more rural part of Wales, such as a market town. What matters is the need, fairly measured, and the opportunities that are presented to us because of something else that is going on, perhaps, in terms of public spending, or through some fantastic development from the private sector, or whatever it may be. I am quite prepared to be opportunistic in terms of the communities that we may end up working with. However, the difficulty will come when we have to bite the bullet. Although I would like us to become more holistic and intensive, and perhaps get used to higher levels of spend than have been apparent in the past in terms of our regeneration intervention, the quid pro

llenwi bwlch i wneud i bethau ddigwydd na fyddai'n digwydd heb y math hwnnw o ymyriad, ond hefyd fel ffordd o ddwyn ynghyd ymyriad gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector o gwmpas lle a'i bobl, fel bod yr ymdrech ddynol y tu ôl i'r sgwrs, y cynllunio a'r gweithio tuag at nodau y cytunwyd arnynt yr un mor bwysig â'r symiau cymharol fach—yn nhrefn pethau—y mae'n sôn amdanynt.

Rwy'n awyddus, fel y dywedais, ein bod yn bwrpasol yn ein hymagwedd at leoedd, ond hefyd, fel y crybwyllodd Ieuan Wyn Jones, yn gyfannol. Mae angen i hyn fod yn farn hollgynhwysfawr o anghenion a chyfleoedd y mae cymuned yn eu cynrychioli. Dylem fod yn fwy dwys yn ein disgwyliadau o'n gwaith adfywio nag yr ydym wedi bod yn y gorffennol, efallai. Rhaid i angen a chyfle, gyda'i gilydd, ysgogi blaenoriaethu ymyriad. Mae'n hollol iawn i nodi bod Wylfa ac Ynys Ynni Môn, er enghraifft, yn rhoi cyfle i ni. Byddai'n anodd troi cefn ar y math hwnnw o gyfle, gan ei fod yn bwysig wrth gynllunio adfywio.

O ran seilwaith, byddaf hefyd yn cytuno â Ieuan Wyn Jones ar y pwynt hwn. Rwyf wedi bwriadu bob amser i seilwaith gynnwys TG, yn ogystal â phethau fel trafndiaeth a'r amgylchedd adeiledig. Mae hynny'r un mor bwysig.

Diolch i Aled Roberts am ei sylwadau. Rwy'n ei sicrhau bod canol trefi a threfi glan môr yn bodoli yn y Gymru wledig hefyd, ac na fyddai unrhyw wahaniaethu, boed tref yn cael ei hystyried fel bod mewn lleoliad trefol neu mewn rhan fwy gwledig o Gymru, megis tref farchnad. Yr hyn sy'n bwysig yw'r angen, wedi'i mesur yn deg, a'r cyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno i ni oherwydd rhywbeth arall sy'n mynd ymlaen, efallai, o ran gwariant cyhoeddus, neu drwy ryw ddatblygiad gwych gan y sector preifat, neu beth bynnag y bo. Rwy'n barod iawn i fod yn fanteisgar o ran y cymunedau y gallwn weithio gyda nhw yn y pen draw. Fodd bynnag, bydd yr anhawster yn dod pan fydd raid i ni wneud y gorau ohoni. Er y byddwn yn hoffi i ni ddod yn fwy cyfannol a dwys, ac efallai dod i arfer â lefelau uwch o wariant nag sydd wedi bod yn amlwg yn y gorffennol o ran ein hymyriad adfywio, yn gyfnewid am

quo is that, by necessity, we will only be able to be active in fewer places at any given time.

I cannot tell Aled Roberts where those places might be. That is something I will be setting fair and transparent criteria for, come February next year, which will be used to make judgments upon where precisely in Wales we will become active in the first instance. He is also quite right to point out that there are other ways of intervening in communities, and Communities First is very much at the forefront of my mind in terms of how grass-roots, perhaps smaller scale, regeneration could be devolved to communities. Perhaps better partnership working with Communities First needs to be a part of that.

I thank Mark Drakeford very much for throwing the wider context upon this debate. I am proud of the document. I think that it says good things, and that it will provide a platform for doing good things. However, in the atmosphere in which we find ourselves, where we have a UK Government ideologically wedded to austerity as the be-all and end-all of its mission, and a Government that rejects the centrality of economic growth, and rejects it out of hand as being of central importance, everything that we do here will be an uphill battle.

My great worry is that as the Welsh Government tries, through every fibre of its being, to deliver on this agenda, and to deliver vitality into local economies and communities, we have a downward pressure on that work being exerted by the UK Government simultaneously. However, I have faith in those communities, and in the people within them, to have enough sense to judge the difference when it comes to our approach and that of the UK Government.

4.30 p.m.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

hynny, o reidrwydd, ni fyddwn ond yn gallu bod yn weithgar mewn llai o leoedd ar unrhyw adeg benodol.

Ni allaf ddweud wrth Aled Roberts lle y gallai'r lleoedd hynny fod. Mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn pennu meini prawf teg a thryloyw ar eu cyfer, mis Chwefror y flwyddyn nesaf, a fydd yn cael eu defnyddio i wneud penderfyniadau ar ble yn union yng Nghymru y byddwn yn dod yn weithredol yn y lle cyntaf. Mae'n hollol gywir hefyd i ddweud bod ffyrdd eraill o ymyrryd mewn cymunedau, ac mae Cymunedau yn Gyntaf ar flaen fy meddwl o ran sut y gallai adfywio ar lawr gwlad, ar raddfa lai efallai, gael ei ddatganoli i gymunedau. Efallai bod angen i weithio mewn partneriaeth gyda Cymunedau yn Gyntaf fod yn rhan o hynny.

Diolch yn fawr iawn i Mark Drakeford am roi cyd-destun ehangach i'r ddadl hon. Rwy'n falch o'r ddogfen. Credaf ei bod yn dweud pethau da, ac y bydd yn darparu llwyfan ar gyfer gwneud pethau da. Fodd bynnag, yn yr awyrgylch lle'r ydym yn ein cael ein hunain, lle mae gennym Lywodraeth y DU ymrwymedig yn ideolegol i gynildeb fel yr elfen holl bwysig o ran ei chenhadaeth, a Llywodraeth sy'n gwrthod canologrwydd twf economaidd, ac yn ei wrthod ar unwaith fel rhywbeth o bwysigrwydd canolog, bydd popeth a wnawn yma yn frwydr galed.

Fy mhryder mawr wrth i Lywodraeth Cymru geisio, ym mhob ffordd y gall, i gyflawni ar yr agenda hon, ac i gyflwyno bywiogrwydd mewn economïau a chymunedau lleol, yw bod Llywodraeth y DU yn rhoi pwysau tuag i lawr ar y gwaith ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae gennyf ffydd yn y cymunedau hynny, ac yn y bobl sy'n rhan ohonynt, bod ganddynt ddigon o synnwyr i farnu'r gwahaniaeth pan ddaw at ein dull gweithredu ni a dull gweithredu Llywodraeth y DU.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 1 be agreed. Is there any objection? I see that there is. Therefore, I defer all votes on this item until voting time.

*Voting deferred until voting time.*

**Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol  
The Equality and Human Rights Commission Annual Report**

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham.

*Cynnig NDM5081 Jane Hutt*

*Motion NDM5081 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi adroddiad blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru ‘Sicrhau agenda gydraddoldeb a hawliau dynol gref—adolygiad Cymru 2011-12’.*

*Notes the annual report of the Equality & Human Rights Commission for Wales ‘Securing a strong equality and human rights agenda—Wales review 11-12’.*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiad y cynnig.

I am very pleased to be holding this debate today to highlight the work of the Equality and Human Rights Commission in Wales. The Wales review looks back at the work of the commission in Wales for 2011-12, highlighting that this is a year of achievement through partnership. It also sets out priorities for the commission for 2012-13, and it is already delivering on that timetable.

Rwy'n falch iawn o gael cynnal y ddadl hon heddiw i dynnu sylw at waith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru. Mae adolygiad Cymru yn edrych yn ôl ar waith y comisiwn yng Nghymru ar gyfer 2011-12, gan bwysleisio bod hon yn flwyddyn o gyflawniad drwy bartneriaeth. Mae hefyd yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y comisiwn ar gyfer 2012-13, ac mae eisoes yn cyflawni ar yr amserlen honno.

The Welsh Government is fully committed to ensuring that the strong and positive working relationship we have developed with the commission in Wales continues. Members will be able to meet members of the Equality and Human Rights Commission Wales committee later today.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod y berthynas gref a chadarnhaol yr ydym wedi'i datblygu gyda'r comisiwn yng Nghymru yn parhau. Bydd yr Aelodau'n gallu cwrdd ag aelodau o bwyllgor y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru yn nes ymlaen heddiw.

We are committed to ensuring that the commission remains a strong and dynamic organisation, able to continue the vital role that it occupies in Wales, contributing to the development of a strong and distinct equality and human rights agenda, as referenced in the title of its review, and in meeting the challenge of ensuring equality for all. The Wales review highlights just how important EHRC Wales's role is in Wales and the challenges that remain.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y comisiwn yn parhau i fod yn sefydliad cryf a deinamig, yn gallu parhau â'r rôl hanfodol y sydd ganddo yng Nghymru, gan gyfrannu at y gwaith o ddatblygu agenda cydraddoldeb a hawliau dynol gref ac amlwg, fel y cyfeirir ati yn nheitl ei adolygiad, ac ateb yr her o sicrhau cydraddoldeb i bawb. Mae adolygiad Cymru yn amlygu pa mor bwysig yw rôl Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru yng Nghymru a'r heriau sy'n parhau.

Over the last year, the commission has been working with public authorities across Wales to help them to set objectives under our new public sector equality duties. The commission has worked to increase public authorities' understanding of how to get the most benefit from the duties. Its evidence has also assisted the Welsh Government and almost every public authority in setting its equality objectives across areas such as health, education and employment. Its essential guide is helping authorities to get the best outcomes from the duties; its equality exchange network of equality practitioners is sharing knowledge and effective practice as work on the duties develops. The evidence highlighted in 'How Fair is Wales?', a report that it commissioned and produced, has been particularly useful in helping to set the equality objectives for our strategic equality plan under our specific equality duties. Once again, it is about developing outcome-focused equality objectives that put the spotlight on the practical differences that we need to make to people's lives to promote opportunities and tackle barriers.

The equality objectives are based on the robust evidence that Welsh public bodies and the Welsh Government have gathered together, but also on extensive engagement with organisations and individuals. Throughout, the commission in Wales has been a key partner in making this happen, but we want this to make an even greater impact, which is why I asked the commission in Wales to help us to deliver on our commitment to explore how stronger Welsh accountability for equality and human rights legislation, including the enforcement of Wales-specific duties, can be achieved. This will contribute to the securing of a strong equality and human rights agenda in Wales by holding organisations to account and driving up their performance.

We are investigating the relationship between socioeconomic disadvantage and the

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r comisiwn wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau cyhoeddus ledled Cymru i helpu i bennu amcanion o dan ein dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus newydd. Mae'r comisiwn wedi gweithio i gynyddu dealltwriaeth awdurdodau cyhoeddus o sut i gael y budd mwyaf o'r dyletswyddau. Mae ei dystiolaeth hefyd wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru a bron pob awdurdod cyhoeddus wrth bennu ei amcanion cydraddoldeb ar draws meysydd megis iechyd, addysg a chyflogaeth. Mae ei ganllaw hanfodol yn helpu awdurdodau i gael y canlyniadau gorau o'r dyletswyddau; mae ei rwydwaith cyfnewid cydraddoldeb o ymarferwyr cydraddoldeb yn rhannu gwybodaeth ac arfer effeithiol wrth i waith ar y dyletswyddau ddatblygu. Mae'r dystiolaeth a amlygodd yn 'How Fair is Wales?', sef adroddiad y mae wedi'i gomisiynu a'i gynhyrchu, wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth helpu i bennu amcanion cydraddoldeb ar gyfer ein cynllun cydraddoldeb strategol o dan ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol. Unwaith eto, mae'n ymwneud â datblygu amcanion cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n rhoi'r sylw ar y gwahaniaethau ymarferol y mae angen eu gwneud i fywydau pobl i hyrwyddo cyfleoedd a mynd i'r afael â rhwystrau.

Mae'r amcanion cydraddoldeb yn seiliedig ar y dystiolaeth gadarn y mae cyrff cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru wedi ei chasglu at ei gilydd, ond hefyd ar ymgysylltu helaeth â sefydliadau ac unigolion. Drwyddi draw, mae'r comisiwn yng Nghymru wedi bod yn bartner allweddol mewn gwneud i hyn ddigwydd, ond rydym am i hyn gael effaith hyd yn oed yn fwy, a dyna pam y gofynnais i'r comisiwn yng Nghymru i'n helpu i gyflawni ein hymrwymiad i archwilio sut y gellir cyflawni atebolrwydd cryfach yng Nghymru ar gyfer deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys gorfodi dyletswyddau sy'n benodol i Gymru. Bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau agenda gydraddoldeb a hawliau dynol gref yng Nghymru drwy ddal sefydliadau i gyfrif ac ysgogi eu perfformiad.

Rydym yn ymchwilio i'r berthynas rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a'r

inequality experienced by people with protected characteristics. It is useful—and Members will have seen this in the press statement issued by the Equality and Human Rights Commission—that it is calling for a stronger focus on equality and human rights, once again pointing to some of the disparities that we need to address, particularly, for example, in relation to disabled people and those not in education. That is key in terms of our equality objectives.

Our equality strategic plan specifically addresses areas such as reducing the number of young people not in education, employment or training, and the creation of more inclusive workplaces. Secondly, through the equality impact assessment of our budget, we have worked with the commission in Wales on assessing the budget, most importantly to see how an equality impact assessment of our budget can make a difference to the way in which we prioritise our spending for the people of Wales.

At a time of great economic uncertainty and at the beginning of enormous changes to the welfare system in Wales, we are determined that equality should be a fundamental consideration in the development of our policies and spending plans. To strengthen our approach, we have collaborated with the Equality and Human Rights Commission in Wales to conduct an appreciative inquiry of the assessment of our budget. The inquiry seeks to identify where there is scope for further development of this work. Fundamentally, it enables us to be even better placed to fulfil our public sector equality duties in the future. This is what working together with the Equality and Human Rights Commission in Wales can achieve.

I will support the amendments tabled. The Welsh Government is firmly committed to eliminating hate crime whenever and wherever it occurs; it has no place whatsoever in Wales. We are also committed, as I have already said, to reducing the number of young people who are not engaged in education, training or employment. This is

anghydraddoldeb a brofir gan bobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae'n ddefnyddiol—a bydd Aelodau wedi gweld hyn yn y datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol—ei fod yn galw am ffocws cryfach ar gydraddoldeb a hawliau dynol, unwaith eto gan bwyntio at rai o'r gwahaniaethau y mae angen mynd i'r afael â nhw, yn enwedig, er enghraifft, mewn perthynas â phobl anabl a'r rhai nad ydynt mewn addysg. Mae hynny'n allweddol o ran ein hamcanion cydraddoldeb.

Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol yn benodol yn mynd i'r afael â meysydd megis lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a chreu gweithleoedd mwy cynhwysol. Yn ail, drwy asesiad o effaith ein cyllideb ar gydraddoldeb, rydym wedi gweithio gyda'r comisiwn yng Nghymru ar asesu'r gyllideb, yn bwysicaf oll i weld sut y gall asesiad o effaith ein cyllideb ar gydraddoldeb wneud gwahaniaeth i'r ffordd yr ydym yn blaenoriaethu ein gwariant ar gyfer pobl Cymru.

Ar adeg o ansicrwydd economaidd mawr ac ar ddechrau newidiadau enfawr i'r system les yng Nghymru, rydym yn benderfynol y dylai cydraddoldeb fod yn ystyriaeth sylfaenol yn y gwaith o ddatblygu ein polisiau a chynlluniau gwario. Er mwyn cryfhau ein dull gweithredu, rydym wedi cydweithio â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru i gynnal ymchwiliad gwerthfawrogol o'r asesiad o'n cyllideb. Mae'r ymchwiliad yn ceisio nodi lle mae lle i ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach. Yn y bôn, mae'n ein galluogi i fod mewn sefyllfa hyd yn oed yn well i gyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus yn y dyfodol. Dyma beth all gweithio gyda'n gilydd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru ei gyflawni.

Byddaf yn cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gadarn i ddileu troseddau casineb pryd bynnag a lle bynnag y bo'n digwydd; nid oes lle o gwbl iddo yng Nghymru. Rydym hefyd wedi ymrwymo, fel y dywedais eisoes, i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg,

a key priority, and we are tackling this head on through increasing the numbers of apprentices and investing in skills, and by creating 4,000 job opportunities per year for young people aged 16 to 24 through Jobs Growth Wales.

Although I am happy to support amendment 3, we are already undertaking a broad range of actions to address inequalities in health in Wales. This work is being taken forward through our 'Fairer Health Outcomes for All' action plan, driving forward our vision of improved health and wellbeing for all.

The Equality and Human Rights Commission in Wales is such an important partner and, through our continued partnership approach, and it acting as a strong regulator in Wales, we can deliver real change for all the diverse communities in Wales.

*Gwelliant 1—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adeiladu ar lwyddiant y Gemau Paralympaidd er mwyn hybu agwedd gadarnhaol at anabledd, a mynd i'r afael â gwahaniaethu a throseddau casineb anabledd.*

*Gwelliant 2—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi nad yw un o bob wyth unigolyn ifanc rhwng 16 a 18 oed yng Nghymru mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau i fynd i'r afael â'r broblem hon.*

*Gwelliant 3—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi bod y disgwyliad oes yng Nghymru yn is ar gyfartaledd nag yn Lloegr, ac yn*

hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae hon yn flaenoriaeth allweddol, ac rydym yn mynd i'r afael â hyn yn uniongyrchol drwy gynyddu nifer y prentisiaid a buddsoddi mewn sgiliau, a thrwy greu 4,000 o gyfleoedd gwaith y flwyddyn ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed drwy Twf Swyddi Cymru.

Er fy mod yn hapus i gefnogi gwelliant 3, rydym eisoes yn ymgymryd ag ystod eang o gamau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ym maes iechyd yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu drwy ein cynllun gweithredu 'Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb', gan hyrwyddo'n gweledigaeth o iechyd a lles gwell i bawb.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru yn bartner mor bwysig a, thrwy ein dull partneriaeth parhaus, a'r Comisiwn yn gweithredu fel rheoleiddiwr cryf yng Nghymru, gallwn sicrhau newid go iawn ar gyfer yr holl gymunedau amrywiol yng Nghymru.

*Amendment 1—William Graham*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to build on the success of the Paralympics to promote a positive view of disability and to tackle discrimination and disability hate crime.*

*Amendment 2—William Graham*

*Add as new point at end of motion:*

*Notes that one in eight 16-18 year olds in Wales are not in education, training or employment and calls on the Welsh Government to introduce measures to tackle this problem.*

*Amendment 3—William Graham*

*Add as new point at end of motion:*

*Notes that life expectancy in Wales is lower on average than in England and calls on the*

*galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru a rhwng Cymru a gweddill y DU.*

*Welsh Government to introduce measures to tackle health inequalities both within Wales and between Wales and the rest of the UK.*

**Mohammad Asghar:** I move amendments 1, 2 and 3 in the name of William Graham.

**Mohammad Asghar:** Cynigiaf welliannau 1, 2 a 3 yn enw William Graham.

It gives me great pleasure to speak this afternoon on the Equality and Human Rights Commission's annual report. This debate takes place in the aftermath of the most successful Paralympic Games ever. The Paralympics have left us a great legacy, a legacy that provides an opportunity to advance the rights of the disabled and a more positive attitude towards disability in Wales. David Cameron said in his speech to the Conservative party conference that, when he pushed his disabled son around in his wheelchair, he always thought that some people saw the wheelchair and not the boy. Thanks to the Paralympics, more people will now see the person rather than the disability, and that is a tremendous step forward.

Mae'n rhoi pleser mawr i mi siarad y prynhawn yma ar adroddiad blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r ddadl hon yn digwydd yn dilyn y Gemau Paralympaidd mwyaf llwyddiannus erioed. Mae'r Gemau Paralympaidd wedi gadael etifeddiaeth fawr i ni, etifeddiaeth sy'n rhoi cyfle i hyrwyddo hawliau pobl anabl ac agwedd fwy cadarnhaol tuag at anabledd yng Nghymru. Dywedodd David Cameron yn ei araith i gynhadledd y blaid Geidwadol ei fod, pan oedd gwthio ei fab anabl o gwmpas yn ei gadair olwyn, bob amser yn meddwl bod rhai pobl yn gweld y gadair olwyn ac nid y bachgen. Diolch i'r Gemau Paralympaidd, bydd mwy o bobl bellach yn gweld y person yn hytrach na'r anabledd, ac mae hynny'n gam enfawr ymlaen.

The Welsh Government needs to seize the opportunity presented by this legacy to change attitudes about disabled people and to tackle discrimination and harassment wherever it occurs. It is truly shocking that hate crime against the disabled increased in all four police force areas in Wales in 2009-10. A recent report by Mencap Cymru revealed that nine out of 10 people with a learning disability had experienced some form of bullying or a disability hate crime.

Mae angen i Lywodraeth Cymru achub ar y cyfle a gyflwynwyd gan yr etifeddiaeth hon i newid agweddau am bobl anabl ac i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac aflonyddu lle bynnag y mae'n digwydd. Mae'n wirioneddol frawychus bod troseddau casineb yn erbyn pobl anabl wedi cynyddu ym mhob un o bedair ardal heddlu Cymru yn 2009-10. Mae adroddiad diweddar gan Mencap Cymru yn dangos bod naw o bob 10 o bobl ag anabledd dysgu wedi profi rhyw fath o fwlio neu drosedd casineb ar sail anabledd.

Awareness of disability hate crime must be increased to ensure that it is recognised and accurately reported. The Welsh Government must ensure that there is partnership working across Government departments, local authorities, health boards, voluntary organisations and other agencies to ensure that common practice is maintained and that good practice is shared.

Rhaid cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb ar sail anabledd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod a'u cofnodi'n gywir. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y ceir gwaith mewn partneriaeth ar draws adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, mudiadau gwirfoddol ac asiantaethau eraill i sicrhau bod arfer cyffredin yn cael ei gynnal a bod arfer da'n cael ei rannu.

Tackling inequalities must be a priority for Welsh Government policy. One in eight young people aged between 16 and 18 are not

Mae'n rhaid bod mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn flaenoriaeth i bolisi Llywodraeth Cymru. Nid yw un o bob wyth

in education, training or employment. I met recently with A4e, the prime contractors delivering the welfare to work programme on behalf of the Department for Work and Pensions. It told me that it increasingly found in south Wales that many young people lack the basic skills of literacy and numeracy to compete in the job market. Many come from homes where there has been a generational culture of unemployment, thereby creating a challenge in terms of attitude, lack of skills and confidence.

The Welsh Government must do more to remove the barriers to employment by improving transport links from our deprived communities to places where jobs are available, and by providing incentives to companies to take on more apprenticeships across Wales.

Health inequalities within Wales and between Wales and the rest of the United Kingdom continue to cause concern. A recent report by the Public Health Wales Observatory revealed that the gap in life expectancy between the richest and the poorest in Wales has widened. The gap in healthy life expectancy between the richest and the poorest men in Wales is now as much as 19 years, with levels of long-term illness in Wales higher than those in the rest of Great Britain. The Welsh Government must do more to promote healthy living and use the Olympic legacy to encourage more people to take up regular exercise and sport. I thank the Equality and Human Rights Commission for the report, which sets out clear priorities for the coming years. The Welsh Conservatives are committed to promoting a strong equality and human rights agenda in Wales.

**Lindsay Whittle:** Plaid Cymru—the Party of Wales fully supports and commends the work of the commission in Wales and its continuing efforts to combat discrimination and promote the human rights of all individuals, particularly those with protected characteristics. After the last annual review, we asked the Wales Committee to consider expanding its membership by inviting more

o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Cefais gyfarfod yn ddiweddar gydag A4e, y prif gontractwyr cyflwyno'r rhaglen o fudd-dal i waith ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau. Dywedodd wrthyf ei fod yn canfod fwyfwy yn ne Cymru fod llawer o bobl ifanc heb sgiliau sylfaenol llythrennedd a rhifedd i gystadlu yn y farchnad swyddi. Mae llawer yn dod o gartrefi lle bu diwylliant o ddiweithdra dros genedlaethau, ac mae hynny'n creu her o ran agwedd, diffyg sgiliau a hyder.

Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i gael gwared ar y rhwystrau i gyflogaeth drwy wella cysylltiadau trafndiaeth o'n cymunedau diffreintiedig i fannau lle mae swyddi ar gael, a thrwy ddarparu cymhellion i gwmnïau i gymryd mwy o brentisiaethau ar draws Cymru.

Mae anghydraddoldebau iechyd o fewn Cymru a rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig yn dal i achosi pryder. Dangosodd adroddiad diweddar gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru bod y bwlch mewn disgwyliad oes rhwng y bobl gyfoethocaf a'r bobl dlotaf yng Nghymru wedi lledu. Mae'r bwlch mewn disgwyliad oes iach rhwng y dynion cyfoethocaf a'r tlotaf yng Nghymru bellach gymaint â 19 mlynedd, gyda lefelau o salwch tymor hir yng Nghymru yn uwch nag yng ngweddill Prydain Fawr. Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i hyrwyddo byw'n iach a defnyddio'r etifeddiaeth Olympaidd i annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn ymarfer corff a chwaraeon yn rheolaidd. Hoffwn ddiolch i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am yr adroddiad, sy'n nodi blaenoriaethau clir ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi ymrwmo i hyrwyddo agenda cydraddoldeb a hawliau dynol gref yng Nghymru.

**Lindsay Whittle:** Mae Plaid Cymru - the Party of Wales yn llwyr gefnogi ac yn cymeradwyo gwaith y comisiwn yng Nghymru a'i ymdrechion parhaus i fynd i'r afael â gwahaniaethu a hyrwyddo hawliau dynol pob unigolyn, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig. Ar ôl yr adolygiad blynyddol diwethaf, gofynnem i Bwyllgor Cymru ystyried ehangu ei



representatives of groups experiencing discrimination to become members. That appears to have happened and it is to be welcomed. In light of the revelations about the appalling behaviour of so-called carers in a Bristol facility for people with learning difficulties, I wonder whether the commission would be able to take a lead in Wales on monitoring the standards of care for such vulnerable people.

Clearly, more information is available on the commission's website, but statements about how it intends to improve the lives of vulnerable people in Wales should perhaps have featured a bit more prominently in the review and in the programme for 2012-13. For example, there should be more on how the commission can help to tackle and reduce the incidence of all forms of violence towards women. On this point, only 15 of the 22 local authorities in Wales have stated their plans to prevent violence against women. Perhaps we should be asking what action will be taken to bring the other seven local authorities into line. Perhaps the Welsh Government should tackle that.

It is interesting to note that the commission has been monitoring universities with regard to equality issues. One of my researchers, Dr Colin Palfrey, has just completed a survey of all Welsh universities to check whether they are complying with the terms of the Equality Act 2010 in avoiding any actual or potential discriminatory practices. One university in particular is asking unnecessarily personal questions about health in its medical questionnaire. We have to ask what on earth that is for. In dealing with equality and diversity issues in the field of health review, the EHRC mentions its work with health boards and trusts, which is positive, but there is no reference to any liaison with community health councils, which are advocates for all citizens and particularly for protected groups.

We have spoken before about our serious concern about hate crime in Wales. In fact, I

aelodaeth drwy wahodd mwy o gynrychiolwyr o grwpiau sy'n profi gwahaniaethu i ddod yn aelodau. Mae'n ymddangos bod hynny wedi digwydd ac mae i'w groesawu. Yng ngoleuni'r hyn a ddatgelwyd am ymddygiad echrydus gofalwyr bondigrybwyll mewn cyfleuster ym Mryste ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu, tybed a fyddai'r comisiwn yn gallu cymryd yr awenau yng Nghymru ar fonitro safonau gofal ar gyfer pobl o'r fath sy'n agored i niwed.

Yn amlwg, mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan y comisiwn, ond efallai y dylai datganiadau ynglŷn â sut y mae'n bwriadu gwella bywydau pobl sy'n agored i niwed yng Nghymru wedi bod yn rhan ychydig yn fwy amlwg yn yr adolygiad ac yn y rhaglen ar gyfer 2012-13. Er enghraifft, dylai fod mwy ar sut y gall y comisiwn helpu i fynd i'r afael â, a lleihau nifer yr achosion o bob math o drais tuag at fenywod. Ar y pwynt hwn, dim ond 15 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru sydd wedi datgan eu cynlluniau i atal trais yn erbyn menywod. Efallai y dylem fod yn gofyn pa gamau a gymerir i sicrhau bod y saith awdurdod lleol arall yn cydymffurfio. Efallai y dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â hynny.

Mae'n ddiddorol nodi bod y comisiwn wedi bod yn monitro prifysgolion mewn perthynas â materion cydraddoldeb. Mae un o fy ymchwilyd, Dr Colin Palfrey, newydd gwblhau arolwg o holl brifysgolion Cymru i weld a ydynt yn cydymffurfio â thelerau Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth osgoi unrhyw arferion gwahaniaethol gwirioneddol neu bosibl. Mae un brifysgol yn arbennig yn gofyn cwestiynau diangen o bersonol am iechyd yn ei holiadur meddygol. Mae'n rhaid i ni ofyn beth ar y ddaear yw diben hynny. Wrth ymdrin â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y maes adolygiad iechyd, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn sôn am ei waith gyda byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, sydd yn gadarnhaol, ond nid oes cyfeiriad at unrhyw gyswllt â chynghorau iechyd cymuned, sy'n eiriolwyr ar gyfer pob dinesydd ac yn enwedig ar gyfer grwpiau gwarchoddedig.

Rydym wedi siarad o'r blaen am ein pryder difrifol am droseddau casineb yng Nghymru.

am quoted in the programme on this very issue. My party welcomes the Welsh Government's intention to publish a framework for action on hate crime. We need a joint statement from you, Minister, and the Minister for Education and Skills that all schools in Wales, primary and secondary, will be expected to address issues of hate crime, particularly against people with physical and learning disabilities. Plaid Cymru—the Party of Wales would welcome the opportunity, and we are meeting members of the Wales committee later this evening, to discuss some of the points raised in this briefing. I am happy to support the motion.

**Ann Jones:** First, I want to thank the Equality and Human Rights Commission for its deep determination to tackle inequality and its continued commitment to retaining a strong presence in Wales. The commission's report is right to highlight its success in getting so many public sector organisations to set clear equality objectives. It is right to applaud itself for achieving greater engagement with the private sector. Employers such as the AA, Admiral and HSBC should be congratulated on working with the commission to tackle inequalities across Wales and the UK.

4.45 p.m.

A joined-up, collaborative approach, working together in partnership, is clearly the best way to deliver what we all want to see: a more equal and just society in which domestic violence is ended, homophobia is stamped out, racism is eliminated, and poverty is not passed from parent to child. It is why the commission is right to identify these challenges and why the Welsh Labour Government is on the front foot on this and boldly leading the way on tackling inequality. We are right to praise our success, but the challenges are set to grow.

We have a coalition Government in Westminster continuing to cut recklessly, turning a blind eye to the impacts that these cuts are having. Cuts to legal aid are placing

Yn wir, rwyf yn cael fy nyfynnu yn y rhaglen ar y mater hwn. Mae fy mhlaidd yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi fframwaith ar gyfer gweithredu ar droseddau casineb. Mae angen datganiad ar y cyd gennych chi, Weinidog, a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau y bydd disgwyl i bob ysgol yng Nghymru, cynradd ac uwchradd, fynd i'r afael â materion trosedd casineb, yn enwedig yn erbyn pobl ag anableddau corfforol a dysgu. Byddai Plaid Cymru—the Party of Wales yn croesawu'r cyfle, ac rydym yn cwrdd ag aelodau o bwyllgor Cymru yn nes ymlaen heno, i drafod rhai o'r pwyntiau a godir yn y briff hwn. Rwy'n hapus i gefnogi'r cynnig.

**Ann Jones:** Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am ei benderfyniad helaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a'i ymrwymiad parhaus i gadw presenoldeb cryf yng Nghymru. Mae adroddiad y comisiwn yn iawn i dynnu sylw at ei lwyddiant i gael cymaint o sefydliadau sector cyhoeddus i bennu amcanion cydraddoldeb clir. Mae'n iawn i'w gymeradwyo ei hun am gyflawni mwy o ymgysylltu â'r sector preifat. Dylai cyflogwyr fel yr AA, Admiral a HSBC gael eu llongyfarch ar weithio gyda'r comisiwn i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar draws Cymru a'r DU.

Dull cydgysylltiedig, cydweithredol, gan weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth, yn amlwg yw'r ffordd orau o gyflawni'r hyn yr ydym i gyd am ei weld: cymdeithas fwy cyfartal a chyfiawn lle mae trais domestig yn dod i ben, homoffobia yn cael ei ddileu, hiliaeth yn cael ei ddileu, a lle nad yw tlodi yn cael ei drosglwyddo o riant i blentyn. Dyna pam mae'r comisiwn yn iawn i nodi'r heriau hyn a pham mae Llywodraeth Lafur Cymru ar y droed flaen ar hyn ac yn arwain y ffordd yn feiddgar i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Rydym yn iawn i ganmol ein llwyddiant, ond mae'r heriau yn mynd i dyfu.

Mae gennym Lywodraeth glymblaid yn San Steffan yn parhau i dorri'n ddi-hid, yn troi llygad dall i'r effeithiau y mae'r toriadau hyn yn eu cael. Mae toriadau i gymorth

vulnerable women and children in harm's way. Cuts are pitting the rich against the poor and the able against the disabled. Cuts to police numbers put our communities at risk. Fortunately, in Wales, we have a Labour Government investing in independent domestic violence advisers and in 500 additional police and community support officers, putting bobbies back on the beat and not on the dole. We have free school breakfasts and Labour's pupil deprivation grant, to smash the link between educational attainment and poverty. We have a Labour Government working alongside the commission to end inequality, not ingrain it.

I welcome the commission's monitoring of the four key areas, one of which is fire safety. Through the strong leadership of the First Minister and his ongoing commitment to reducing fire deaths, this Government will introduce regulations that will require sprinklers in all new homes from September of next year. The commission's input to this consultation process will be very important. I wish the commission well in the years to come as we work together to get inequality out of our society and to ensure that, although people are all different, they are all equal. That is what we should be aiming to do here today.

**Peter Black:** On behalf of the Welsh Liberal Democrats, I very much welcome the Equality and Human Rights Commission's report and thank it for its time in preparing the document. As a party, we have long campaigned on issues of equality and human rights, and so it will come as no surprise to hear that we welcome this report and have no problem supporting the amendments tabled in the name of William Graham.

This report states that the Equality and Human Rights Commission will make a submission to the Silk commission. I particularly welcome that development, as I think that we need a wider discussion on the powers of the Assembly, particularly in that

cyfreithiol yn rhoi menywod a phlant agored i niwed mwn perygl. Mae toriadau yn gosod y cyfoethog yn erbyn y tlawd a'r abl yn erbyn yr anabl. Mae toriadau i niferoedd yr heddlu yn rhoi ein cymunedau mewn perygl. Yn ffodus, yng Nghymru, mae gennym Lywodraeth Lafur yn buddsoddi mewn cynghorwyr trais domestig annibynnol ac mewn 500 aelod ychwanegol o'r heddlu a swyddogion cymorth cymunedol, gan roi plismyn yn ôl ar eu rhawd ac nid ar y dôl. Mae gennym frecwast am ddim mewn ysgolion a grant amddifadedd disgyblion y blaid Lafur, i dorri'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad addysgol a thlodi. Mae gennym Lywodraeth Lafur yn gweithio ochr yn ochr â'r comisiwn i roi terfyn ar anghydraddoldeb, nid ei drwytho.

Rwy'n croesawu monitro'r comisiwn ar y pedwar maes allweddol, ac un o'r rhain yw diogelwch tân. Drwy arweiniad cryf y Prif Weinidog a'i ymrwymiad parhaus i leihau marwolaethau oherwydd tân, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gael taenellwyr ym mhob cartref newydd o fis Medi'r flwyddyn nesaf. Bydd mewnbyn y comisiwn i'r broses ymgynghori hon yn bwysig iawn. Rwy'n dymuno'n dda i'r comisiwn yn y blynyddoedd i ddod wrth i ni weithio gyda'n gilydd i gael gwared ar anghydraddoldeb o'n cymdeithas, ac i sicrhau, er bod pobl i gyd yn wahanol, eu bod i gyd yn gyfartal. Dyna'r hyn y dylem fod yn anelu at ei wneud yma heddiw.

**Peter Black:** Ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, rwy'n croesawu adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn fawr ac yn diolch iddo am ei amser yn paratoi'r ddogfen. Fel plaid, rydym wedi ymgyrchu'n hir ar faterion cydraddoldeb a hawliau dynol, ac felly nid yw'n syndod clywed ein bod yn croesawu'r adroddiad hwn ac nid oes problem cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd yn enw William Graham.

